Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 4ydd Hydref, 2016 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Sophie Hughes<br>01286 679729<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfed Wyn Edwards | Arweinydd |
| Dyfrig L. Siencyn | Dirprwy Arweinydd |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Adnoddau |
| John Wynn Jones | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Cynllunio a Rheoleiddio |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Mair Rowlands | Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Tai, Gofal Cwsmer, Llyfrgelloedd, Amddifadedd a Chydraddoldeb |
| Mandy Williams-Davies | Aelod Cabinet Economi a Chymuned |

# RHAGLEN


| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 13 MEDI 2016 | | | 3 - 12 |
| 6 | GOBLYGIADAU CANLYNIAD REFFERENDWM EWROP | Cyng/Cllr. Mandy Williams-Davies | Sioned Williams | 13 - 23 |
| 7 | HAMDDEN HARLECH AC ARDUDWY | Cyng/Cllr. Mandy Williams-Davies a Mair Rowlands | Catrin Thomas | 24 - 31 |
| 8 | ADRODDIADAU BLYNYDDOL CWYNION A GWELLA GWASANAETH | Cyng/Cllr. Ioan Thomas | Iwan Evans | 32 - 78 |
| 9 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT | Cyng/Cllr. W Gareth Roberts | Morwena Edwards | 79 - 86 |
| 10 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS BLANT, POBL IFANC A HAMDDEN | Cyng/Cllr. Mair Rowlands | Iwan Trefor Jones | 87 - 95 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS ADDYSG | Cyng/Cllr. Gareth Thomas | Iwan Trefor Jones | 96 - 107 |
| 12 | ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS ADNODDAU | Cyng/Cllr. Peredur Jenkins | Dilwyn Williams | 108 - 125 |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 13 MEDI 2016**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfed Wyn Edwards (Chairman), Dyfrig L. Siencyn (Is-Gadeirydd), Peredur Jenkins, John Wynn Jones, Dafydd Meurig, W. Gareth Roberts, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Mandy Williams-Davies

**Hefyd yn bresennol-**
Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid), Sioned Eirian Williams (Pennaeth Economi a Chymuned), Thomas Hywel James (Prif Lyfrgellydd), Hawis Jones (Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad), Eleri Llewelyn Owen (Rheolwr Prosiect Dros Dro), Arwyn Thomas (Pennaeth Addysg) a Catrin Thomas (Uwch Reolwr Dysgu Cymunedol)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Prif Weithredwr, Dilwyn Williams a'r Swyddog Monitro, Iwan Evans.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganwyd buddiant personol gan y Cynghorydd Gareth Thomas ar Eitem 7 "Strategaeth "Mwy na Llyfrau" y Gwasanaeth Llyfrgell" oherwydd fod ganddo berthynas sy'n gyflogedig gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd. Gadawodd y cyfarfod ar gyfer y drafodaeth ar yr eitem hon.

**3. MATERION BRYS**

Nid oedd unrhyw faterion brys.

**4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU**

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

**5. COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12FED O ORFFENNAF 2016**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 12fed o Orffennaf 2016.

**6. GWELEDIGAETH AR GYFER TWF YR ECONOMI YNG NGOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

Eiliwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r *"Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru"* fel sail ar gyfer cynnal trafodaethau gyda Llywodraethau Prydain a Chymru am gais *"Cynllun Twf"* i'r rhanbarth.

**TRAFODAETH**

Croesawyd y ddogfen "*Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru"* gan nifer helaeth o'r Aelodau Cabinet gan nodi'n gryf y dyhead i gydweithio ac adeiladu perthynas ymysg y nifer o awdurdodau.

Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau budd i Ogledd Orllewin Cymru yn benodol drwy ymdrechu'n galed i dynnu buddsoddiad i'r ardal. Cadarnhaodd yr Aelod Cabinet cyfrifol bod Gwynedd yn flaenoriaeth ac y gobeithir y bydd argaeledd arbenigedd yn y Sir yn cryfhau gydag amser wrth i ni sicrhau gwell gydlynu trafodaethau a chydweithio. Ychwanegodd Iwan Trefor Jones mai gwasgaru twf ar draws y Gogledd yw'r nod er mwyn sicrhau bod y budd yn lledaenu.

Nodwyd pryder nad oes cyfeiriad amlwg tuag at gydweithio gyda Llywodraeth Cymru a pwysleisiwyd yr angen i gryfau'r berthynas rhwng y Llywodraeth a'r Gogledd. Cadarnhaodd Iwan Trefor Jones bod trafodaethau parhaus wedi eu cynnal gyda'r Gweinidogion Mark Drakeford AC a Ken Skates AC a bod dyhead i gryfhau'r berthynas rhwng Llywodraeth San Steffan a Swyddfa Cymru yn Llundain.

Eglurwyd mai'r cam nesaf fydd i drafod ymhellach gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gan obeithio y bydd y Canghellor yn darparu ei gefnogaeth i'r egwyddor yn ei ddatganiad ar 23 Tachwedd 2016.

## 7. STRATEGAETH "MWY NA LLYFRAU" Y GWASANAETH LLYFRGELL

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Gareth Thomas a gadawodd y cyfarfod.

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Ioan Thomas.

Eiliwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Mabwysiadu Strategaeth "Mwy na Llyfrau" ar gyfer Gwasanaeth Llyfrgell Cyngor Gwynedd.

**TRAFODAETH**

Nodwyd bod dyletswydd ar y Cyngor yn sgil toriadau gan Lywodraeth y DU a

phenderfyniad y Cyngor i dorri 25% o'r gyllideb prynu llyfrau i weithredu o fewn y gyllideb sydd ar gael.

Pwysleisiwyd, yn benodol o ystyried y sefyllfa ariannol anodd, bod y Strategaeth yn golygu gallu darparu gwasanaeth i drigolion Gwynedd a fydd yn gynaliadwy i'r dyfodol. Cydnabuwyd fodd bynnag er bod y strategaeth yn un Sirol sy'n golygu y bydd darpariaeth yn newid i bawb ar draws y Sir, bod yr effaith i'w deimlo yn amlycach mewn rhai cymunedau.

Cydnabuwyd bod amharodrwydd cyffredinol tuag at y newidiadau i'r ddarpariaeth wedi bod yn amlwg ond wrth drafod ymhellach fod y rhan fwyaf o ardaloedd yn fodlon trafod ymhellach a negydu'r manylion. Datganwyd cefnogaeth penodol i'r cyfeiriadau at gryfhau'r gwasanaeth Llyfrgell deithiol gan nodi ei budd, yn enwedig yn yr ardaloedd fwyaf gwledig ar draws y Sir.

Nodwyd fod Llyfrgell Porthmadog sydd bellach wedi ei lleoli yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn yn enghraifft gadarnhaol o sut gellir defnyddio ased arall gan y Cyngor i gynnal y ddarpariaeth, ac er nad yw'r math yma o addasiad yn bosibl ymob ardal, fe gadarnhawyd fod yr Aelod Cabient a'r Swyddogion yn gwyntyllu unrhyw gyfleoedd sy'n codi.

Croesawyd y strategaeth fel ffordd ymlaen gan nodi bod trafodaethau sydd dal i'w cael mewn rhai cymunedau. Diolchwyd i bartneriaid a thrigolion Gwynedd am eu parodrwydd i gydweithio, ac i'r Swyddogion am eu gwaith.

## 8. SYMUD TUAG AT SWYDDFEYDD ARDAL ADDYSG

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dyfrig Siencyn.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo gweithredu model Swyddfeydd Ardal Addysg.

Cymeradwyo cais am gostau o oddeutu £275,000 gan awdurdod i'r Pennaeth Cyllid mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol a'r Aelod Cabinet Adnoddau i gadarnhau y cyfanswm yn sgil canlyniadau arfarnu swyddi'r staff.

Cymeradwyo i'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol a'r Adran Addysg greu Cytundeb Lefel Gwasanaeth ym maes Adnoddau Dynol er mwyn diffinio natur y gwasanaeth.

**TRAFODAETH**

Eglurodd y Pennaeth Addysg, Arwyn Thomas bod angen rhagor o gefnogaeth ar lefel fwy lleol er mwyn cefnogi Prifathrawon i arwain eu hysgolion a'u rhyddhau i wneud hynny, a chefnogi athrawon i ganolbwyntio ar yr addysgu, a fydd yn ei dro yn arwain at wella safon addysg i blant y Sir.

Croesawyd y cynnig gan bwysleisio bod pwysau gormodol wedi bod ar ysgolion, Prif Athrawon a Llywodraethwyr ers rhai blynyddoedd heb gefnogaeth ganolog digonol a bod angen buddsoddi er mwyn cryfhau addysg y disgyblion.

Nodwyd y gall ysgolion fod yn gystadleuol yn aml a pwysleisiwyd yr angen i annog cydweithio a rhannu arfer da.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Dafydd Edwards petai'r Cabinet yn cymeradwyo'r cais am gostau y bydd angen adolygu'r cyllidebau er mwyn cael y ffigwr untro a byddai'n rhaid ei adfer o'r balansau petai adrannau yn gorwario. Fodd bynnag, gobeithir y bydd yr adran Addysg yn eu tro yn gwneud arbedion er mwyn cyllido'r costau i'r dyfodol.

Nodwyd bod llwyddiannau sylweddol ein hysgolion yng nghanlyniadau Haf 2016 yn gosod y cyd-destun ar gyfer cryfhau'n strwythurau ac annog gwelliant pellach. Llongyfarchwyd holl ddisgyblion a staff y Sir ar eu gwaith caled drwy'r flwyddyn.

**9. TREFNIADAU NEWYDD Y GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD GWYNEDD A MÔN**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

**PENDERFYNIAD**

1. Mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn a fydd yn cyfarch anghenion y disgyblion a'r bobl ifanc mewn modd effeithiol ac effeithlon i fod yn weithredol erbyn Medi 2017.

2. Ymuno mewn partneriaeth ffurfiol efo Cyngor Sir Ynys Môn i weithredu'r Strategaeth a mabwysiadu trefn llywodraethu newydd y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, a fydd yn disodli'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig (CBAAA).

3. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gytuno a chwblhau Cytundeb Ffurfiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y bartneriaeth.

4. Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a Phennaeth Cyllid i gwblhau cytundeb/memorandwm o ddealltwriaeth ar gyfer y cyfnod interim cyn arwyddo'r Cytundeb ffurfiol, fydd yn datgan ymrwymiad y ddau awdurdod i weithredu'r drefn newydd, ac yn caniatáu gwneud y gwaith sydd ei angen er mwyn cyrraedd y pwynt hynny.

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod trafodaethau cadarnhaol iawn wedi eu cynnal gyda Chyngor Sir

Ynys Môn i fabwysiadu strategaeth ar y cyd a fyddai yn ei dro yn galluogi i'r ddau awdurdod gyrraedd y disgyblion priodol yn llawer cynt. Eglurwyd y bydd adroddiad cyffelyb yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Gwaith Ynys Môn yn y dyfodol agos am eu cymeradwyaeth hwy.

Croesawyd y cydweithio sydd wedi ei amlygu rhwng y ddau awdurdod a'r cyfle sydd yma i greu arbenigedd a chyfleoedd gyrfa yn ogystal â rhannu'r heriau.

Cwestiynwyd beth fyddai'r system graffu a mesur perfformiad wrth i ni gydweithio â Môn a cadarnhaodd Arwyn Thomas y bydd Penaethiaid adrannau Addysg Gwynedd a Môn ynghyd a'r ddau Aelod Cabinet/Deilydd Portffolio priodol yn craffu'n ddyddiol ond y bydd cyfle i graffwyr Gwynedd alw i mewn petaent yn gweld yr angen. Cadarnhawyd y bydd y Gwasanaeth ar y cyd hwn yn atebol i'r ddau awdurdod.

Diolchodd y Cyng. Gareth Thomas i'r Swyddogion yn y ddau awdurdod am eu gwaith a'u parodrwydd i gydweithio.

## 10. ADRODDIAD AR WAITH Y PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mair Rowlands.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn yr adroddiad a gyflwynwyd ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

**TRAFODAETH**

Amlygwyd y cynnydd sydd wedi bod mewn ymwybyddiaeth a cyfeiriadau sydd wedi eu gwneud gan staff rheng flaen o dan y prosiect **D1**, sy'n awgrymu llwyddiant mewn ymdrechion i godi ymwybyddiaeth.

Pwysleisiwyd bod y maes diogelu plant lawer fwy aeddfed na'r maes diogelu oedolion ble mae'r gwaith yn fwy newydd. Fodd bynnag, nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo i adeiladu ar ein trefniadau ym maes oedolion a gobeithir gallu cyflwyno rhagor o wybodaeth i sylw'r Aelodau Cabinet yn fuan.

Nodwyd mai Gwynedd yw un o'r Siroedd cyntaf i roi trefniadau diogelu mewnol ar waith, a thra'n cydnabod fod llawer o waith dal i'w wneud i sicrhau bod ein trefniadau'n glir a chryf, ac yn fwy effeithiol o fewn yr adran oedolion, pwysleisiodd Morwena Edwards i'r Cyngor wneud gwaith llwyddiannus hyd yn hyn.

Pwysleisiodd y Cyng. John Wynn Jones pa mor effeithiol oedd yr hyfforddiant diogelu a dderbyniodd fel Llywodraethwr ysgol yn ei ward. Cytunodd Aelodau eraill bod diogelu ym mlaen eu meddyliau lawer mwy erbyn hyn.

Cwestiynwyd sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymdrin â'r defnydd o dechnoleg a nododd Morwena Edwards bod ymdrechion yn digwydd i godi ymwybyddiaeth defnyddwyr technoleg a sicrhau bod rhieni ac athrawon yn ymwybodol o'r risgiau a bod ganddynt y sgiliau i reoli'r peth. Nodwyd nad oes ateb amlwg i'r peryglon o ddefnyddio technoleg ond bod llawer o gydweithio yn digwydd gyda'r Heddlu i rannu'r ymarferion gorau.

Cwestiynwyd a yw'r Cyngor yn bodloni bod y gwaith rhanbarthol sy'n mynd rhagddo yn effeithiol ac yn dylanwadu ar weithredu ar lefel leol. Cydnabuwyd ei bod yn anoddach sicrhau'r gwaith ar lefel rhanbarthol a bod y trefniadau sy'n ein cyrraedd o dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a'r Swyddfa Gartref yn gallu creu gorgyffwrdd, ond nodwyd bod y Cyngor yn fodlon fod y trefniadau rhanbarthol yn cryfhau'r agenda.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015/16

Cyflwynwyd yr eitem gan y Cyng. Dyfed Edwards.

Eiliwyd yr eitem gan y Cyng. Gareth Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2015/16 ac argymell i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

**TRAFODAETH**

Nodwyd balchder bod Cyngor Gwynedd wedi ymddangos ymhlith yr uchaf am berfformiad effeithiol mewn cymhariaeth â Chynghorau eraill a chroesawyd yr adroddiad gweladwy, dealladwy i danlinellu'r perfformiad hwnnw. Ategwyd bod Cyngor Gwynedd ymysg y gorau yng Nghymru ym myd addysg, a bydd yn ymfalchïo yn hynny.

Noder mai'r prawf mewn gwirionedd yw profiad y dinesydd a chroesawyd yr adborth a roddir am hyn wrth adrodd ar y Panel Trigolion.

Cydnabuwyd bod lle i wella mewn sawl maes ond bod perfformiad Cyngor Gwynedd yn dda ar y cyfan.

Pwysleisiwyd y byddai'n ddogfen ddefnyddiol iawn i Aelodau'r Cyngor ddefnyddio yn eu cymunedau. Gofynnwyd a oes modd derbyn rhai o'r delweddau sydd wedi eu defnyddio yn yr adroddiad i'r perwyl o'u defnyddio i gyfathrebu negeseuon allweddol a sicrhau dealltwriaeth o'r sialensiau sy'n wynebu'r Cyngor a'i allu i ddelio â hwy. Cytunwyd bod angen ystyried bob dull bosibl o gyfathrebu'r neges, gan gydnabod nad yw pawb yn defnyddio Technoleg Gwybodaeth.

Cadarnhawyd bod y Cabinet yn fodlon bod yr adroddiad yn adlewyrchiad teg a chytbwys am berfformiad y Cyngor. Diolchwyd i holl staff y Cyngor am eu hymroddiad i'r gwaith.

## 12. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS YR AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. John Wynn Jones.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyfeiriwyd at y mesur perfformiad **WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd i'w dirlenwi** ble nodir bod y cyfleuster Triniaeth Biolegol Fecanyddol wedi torri ers mis Ebrill, a chwestiynwyd pam nad yw wedi ei drwsio ynghynt. Nododd y Cyng. John Wynn Jones y byddai'n holi am eglurhad fel sy'n briodol.

Cyfeiriwyd at y mesur perfformiad **PB59 Canran Arolwg Bodlonrwydd Cwsmer wedi eu bodloni gydag ymateb yr Adran** a chwestiynwyd pam nad oes data wedi ei gofnodi. Awgrymwyd y gall fod o ganlyniad i'r canran uchel sydd wedi ei nodi ar gyfer mesurydd **PB57 Canran galwad Bwrdeistrefol a ddiwallwyd tro cyntaf**, ond cadarnhaodd y Cyng. John Wynn Jones y bydd yn sicrhau eglurdeb ar hyn.

Cyfeiriwyd at y ffigurau yn yr adroddiad sy'n nodi'r nifer o gasgliadau gwastraff/ailgylchu sy'n cael eu methu, a chwestiynwyd a oes patrwm i'r rhesymau bod hyn yn digwydd. Gan fod y mesur yn un newydd sy'n cael ei ddatblygu, nododd y Cyng. John Wynn Jones ei bod yn ddyddiau cynnar ond fod yr adran yn edrych ar hyn ar hyn o bryd. Ychwanegwyd bod technoleg GPS mewn lorïau yn golygu y gallent dracio eu bod wedi bod ar eu teithiau priodol, ac mae hyn gam ymlaen.

Cyfeiriwyd at fesurydd **THS/011c Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael** a chwestiynwyd o ystyried y toriadau sy'n wynebu'r adran, a fydd yn bosibl cynnal y ffigwr a nodir ar gyfer 2015-16 neu a yw'r ffyrdd yn debygol iawn o ddirywio yn raddol. Cydnabuwyd y risgiau a chadarnhaodd y Cyng. John Wynn Jones y bydd yr adran yn monitro'r ffigwr yma i sicrhau nad ydynt yn colli rheolaeth arno.

Diolchwyd i'r Cyng. John Wynn Jones am ei waith.

## 13. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS GYNLLUNIO A RHEOLEIDDIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Dafydd Meurig.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Tynnodd y Cyng. Dafydd Meurig sylw at y cynnydd sylweddol ym mesurydd **PLA004b Canran yr holl geisiadau Cynllunio perthnasol wedi eu penderfynu o fewn 56 diwrnod a pa mor sydyn meant yn cael eu penderfynu ar gyfartaledd** gan nodi ei fod yn falch iawn o'r canlyniad.

Cyfeiriwyd ar fesur **Cludiant02 Canran o gwsmeriaid a ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth** a nodir nad yw'r ffigwr o 43% yn ddymunol. Eglurodd y Cyng. Dafydd Meurig bod y mesur yn cymryd i ystyriaeth y teithiau mae'r Cyngor yn eu sybsideiddio a'r rheiny sy'n gwbl fasnachol. Nid oes gan yr uned drafnidiaeth unrhyw reolaeth dros y teithiau masnachol ac felly gall hyn wyro'r ffigurau. Cadarnhaodd ei fod wedi gwneud cais i'r adran fod yn ystyried y rhain ar wahân i'r dyfodol.

Cyfeiriwyd at y mesurydd **Parcio4 Canran o apeliadau i'r beirniad annibynnol sy'n cael eu caniatáu.** Nodwyd pryder bod y ffigwr o 100% yn awgrymu bod y gost wedi bod yn afresymol i ddechrau. Cadarnhawyd bod y Cyng. Dafydd Meurig wedi codi'r mater ac yn disgwyl ymateb ar hyn o bryd.

Cyfeiriwyd at fesurydd **Eiddo2 Canran cwsmeriaid y ddesg gymorth cynnal a chadw sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbyniwyd dros y 6 mis diwethaf** a chwestiynwyd a yw'r adran yn defnyddio'r data yna ymhellach wedyn. Cadarnhawyd bod yr adran yn holi'r cwsmeriaid yn gyson am y rhesymau nad oeddent yn hapus gyda'r gwasanaeth ac yn ceisio dysgu gwersi ohono. Ychwanegwyd bod yr Aelodau Cabinet yn cael cyfarfodydd rheoli perfformiad yn gyson ac mae hwnnw'n ffordd o sicrhau bod trafodaeth yn cymryd lle a bod negeseuon yn cyrraedd y Penaethiaid.

Cyfeiriwyd at fesurydd **Eiddo 6 Canran o adeiladau newydd (neu addasiadau) sy'n cael eu cyflawni o fewn yr amserlen a'r gyllideb.** Llongyfarchwyd yr adran ar y cynnydd sylweddol i 100% ar y mesurydd hwn.

Diolchwyd i'r Cyng. Dafydd Meurig am ei waith.

## 14. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS DAI, GOFAL CWSMER A LLYFRGELLOEDD, AMDDIFADEDD A CHYDRADDOLDEB

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Ioan Thomas.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyfeiriodd y Cyng. Ioan Thomas at y prosiect **T7 – Cydymdrechu yn erbyn tlodi.** Nododd bod tlodi yn flaenoriaeth i Llywodraeth Cymru ac mae angen i'r Cyngor gyfarch yr agenda. Nodwyd nad yw'n gwbl gyfforddus bod y Cabinet yn mynd i allu sicrhau ein bod yn deall yr oblygiadau i wahanol adrannau/meysydd portffolio. Yn sgil hynny, mae bwriad i'r Cyng. Thomas drafod gyda'r Aelod Cabinet a'r Swyddog perthnasol er mwyn ystyried beth yn union mae'r adran yn ei wneud i gyfarch yr agenda. Bydd hyn yn caniatau'r Cabinet i sicrhau bod cynlluniau'n cael eu cyflwyno ac yn eu galluogi i fonitro eu llwyddiant.

Wrth gyfeirio at y prosiect **T9 – Strategaeth Cyflenwad Tai** a'r ddarpariaeth ar gyfer unigolion digartref, nododd y Cyng. Ioan Thomas bod y Pwyllgor Craffu perthnasol wedi nodi bod angen ystyriaeth pellach yn y maes ac annog mwy o ddatblygiadau oherwydd mae yno gryn alw am ddarpariaeth.

Nodwyd pryder am y mesurydd **Gofal Cwsmer CYSCW02 Canran y gwalwadau ffôn sy'n cael eu hateb o fewn 15 eiliad ar draws y Cyngor** gan ei fod yn gostwng. Cwestiynwyd a yw'r ffaith bod galwadau allan o swyddfeydd y Cyngor i gyd yn dangos rhif ffôn Galw Gwynedd yn hytrach na rhif ffôn y swyddog a geisiodd gysylltu yn creu problemau. Ychwanegwyd bod angen hyfforddi staff i drosglwyddo eu llinellau ffôn a sicrhau ymateb. Nodowyd bod y gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ond ei bod yn gynamserol adrodd arno.

Diolchwyd i'r Cyng. Ioan Thomas am ei waith.

## 15. ADRODDIAD PERFFORMIAD: AELOD CABINET DROS YR ECONOMI A CHYMUNED

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Mandy Williams-Davies.

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Croesawodd yr Aelodau Cabinet y cyfle a gafwyd yn ddiweddar i gwrdd â'r Athro Dermot Cahill o Brifysgol Bangor gan nodi'r gwerth a gawsant o'r cyflwyniad.

Cyfeiriwyd at y cynllun peilot i ddarparu wi-fi cyhoeddus yn Aberdaron o dan y prosiect **T3 Gwynedd Digidol** gan nodi bod data'n cael ei gofnodi yno ynghylch y math o ddefnyddwyr gwasanaeth a bod hynny yn caniatáu i fusnesau ei ddefnyddio i dargedu cwsmeriaid pan fod angen.

Wrth drafod Gŵyl Rhif 6 2016, pwysleisiwyd yr angen i gofio gwahaniaethu rhwng yr ŵyl a oedd yn llwyddiant mawr a'r trafferthion a ddaeth yn sgil y trefniadau parcio. Nodwyd bod gwyliau o'r fath yn boblogaidd iawn ar hyn o bryd, ond bod angen cadw mewn cof y gallai'r diddordeb ddirywio i'r dyfodol ac felly

bod angen ffocysu ar amrywiaeth eang o ddigwyddiadau.

Wrth drafod y mesurau, croesawyd y nifer o swyddi sydd wedi eu creu gyda chefnogaeth yr adran a chwestiynwyd a oes gan yr adran wybodaeth am natur y swyddi ac ym mha sectorau maen nhw. Nododd y Cyng. Mandy Williams-Davies bod rhai ohonynt yn y maes technoleg ym Mharc Menai. Ychwanegodd bod gostyngiad wedi bod yn y ffigurau o ganlyniad i ddiffyg adnodd o fewn yr adran, ond ei bod yn bwysig ffocysu ar y potensial i greu swyddi rŵan ac ystyried y ffyrdd gorau bosibl o wneud hynny.

Ychwanegodd y Cyng. Mandy Williams-Davies ei bod yn awyddus i edrych ar brofiadau dydd i ddydd y cwsmer a busnesion sydd angen cyngor gan yr adran ac fe fydd yn trafod y posibiliadau ymhellach.

Diolchwyd i'r Cyng. Mandy Williams-Davies am ei gwaith.

## 16. BLAENRAGLEN WAITH CABINET CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd y flaenraglen gan y Cyng. Dyfed Edwards.

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo'r Flaenraglen a gynhwyswyd yn y papurau i'r cyfarfod, yn amodol ar wneud yr addasiadau isod:-

- Cyng. Dyfed Edwards ddim i gyflwyno eitem 'Cynllun Strategol 2017/18 ar 4 Hydref 2016.
- Cyng. Dafydd Meurig ddim i gyflwyno eitem 'Goblygiadau Penderfyniad y Cyngor i gau swyddfeydd Frondeg, Pwllheli a Felinheli' ar 4 Hydref 2016, ond ei ohirio i gyfarfod y Cabinet ar 1 Tachwedd 2016.

Nodwyd bod cais wedi cyrraedd i drafod materion Hamdden yn Harlech ac Ardudwy ond bod trafodaethau ar y ffordd ymlaen yn parhau ar hyn o bryd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 3.50 y.h.

---

**CADEIRYDD**

# ADRODDIAD I'R CABINET

04 Hydref 2016

**Aelod Cabinet:** Y Cynghorydd Mandy Williams-Davies
Aelod Cabinet dros yr Economi a Chymuned

**Pwnc:** GOBLYGIADAU CANLYNIAD REFFERENDWM EWROP I WYNEDD

**Swyddog cyswllt:** Dylan Griffiths,
Rheolwr Strategaeth a Datblygu, Economi a Chymuned
dylanrhysgriffiths@gwynedd.llyw.cymru

---

**Y penderfyniad a geisir**

Fod y Cyngor yn ystyried y goblygiadau i drigolion a sefydliadau Gwynedd yn deillio o benderfyniad y Deyrnas Unedig i adael yr Undeb Ewropeaidd; gan gytuno i fonitro effeithiau'r penderfyniad ar y sir yn barhaus yn y cyfnod i ddod.

---

**Barn yr aelod lleol**

*Ddim yn fater lleol.*

---

**Cyflwyniad**

1. Ar 20 Chwefror 2016 cyhoeddodd Llywodraeth y DU eu bwriad i gynnal refferendwm i benderfynu a ddylai'r DU aros yn neu adael yr Undeb Ewropeaidd.

2. Yn ei gyfarfod ar 12 Mai fe ddatganodd Cyngor Gwynedd ei fod o'r farn y byddai mwy o fudd yn deillio i drigolion Gwynedd o fod yn parhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd (wele http://bit.ly/2caxw5B).

3. Ar 23 Mehefin 2016 pleidleisiodd 51.9% o etholwyr y DU o blaid gadael yr Undeb Ewropeaidd. Roedd 52.5% o etholwyr Cymru o blaid gadael ond roedd mwyafrif sylweddol (58.1%) o etholwyr Gwynedd o blaid aros yn yr Undeb Ewropeaidd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

4. Argymhellir y penderfyniad a nodir uchod yng ngoleuni ystod a sylwedd oblygiadau posibl penderfyniad etholwyr y DU.

5. Gyda'r DU wedi bod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd ers dros ddeugain mlynedd, mae polisïau, rheoliadau a deddfwriaeth Ewrop wedi eu hintegreiddio'n eang i weithgaredd beunyddiol trigolion a sefydliadau Gwynedd o warchod yr amgylchedd i hawliau dynol ac o'r economi i safonau masnach. (Cynhyrchwyd papur ymchwil defnyddiol ar y broses a'r oblygiadau posibl i feysydd polisi sydd wedi eu datganoli i Gymru gan y Cynulliad Cenedlaethol wedi canlyniad y refferendwm - wele http://bit.ly/28RsucG).

6. Ni fydd gwir effaith ac oblygiadau penderfyniad y DU yn hysbys am gryn amser. Hyd yn hyn nid yw Llywodraeth y DU wedi hysbysu Cyngor Ewrop yn ffurfiol o'r bwriad i dynnu'n ôl o'r Undeb; wedi i hyn ddigwydd bydd cyfnod o hyd at 2 mlynedd i negodi cytundeb ar y drefn ar gyfer gadael yr Undeb.

7. I arwain ar y gwaith mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu Ysgrifennydd Gwladol ac Adran Dros Adael yr Undeb Ewropeaidd (http://bit.ly/2aKoyuA).

8. Yng Nghymru, mae'r Prif Weinidog wedi sefydlu tîm o swyddogion o fewn Llywodraeth Cymru ynghyd a chyhoeddi Grŵp Cynghori Arbenigol i sicrhau'r canlyniad gorau i Gymru o'r trafodaethau (wele http://bit.ly/2cQ4pBb). Mae'r Prif Weinidog wedi amlinellu chwe blaenoriaeth:
   - Diogelu swyddi;
   - Rhan lawn i Lywodraeth Cymru mewn trafodaethau am ymadawiad y DU o'r UE;
   - Mynediad o hyd at y farchnad sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau;
   - Diogelu'r cyllid a neilltuwyd i gyllidebau o dan raglenni'r UE tan 2020;
   - Adolygiad hirdymor o'r Grant Bloc oddi wrth Lywodraeth y DU;
   - Perthynas newydd rhwng y Llywodraethau Datganoledig a Llywodraeth y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

9. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd wedi bod yn weithgar yn y cyfnod wedi'r refferendwm. Mae cynrychiolydd o'r Gymdeithas (Cynghorydd Phil Bale, Arweinydd Cyngor Caerdydd a Llefarydd CLlLC dros Faterion Ewrop) yn Aelod o Grŵp Cynghori Arbenigol y Prif Weinidog ac, yn fwyaf diweddar, ymwelodd dirprwyaeth o'r Gymdeithas â Brwsel i helpu i sicrhau bod llywodraeth leol yn cadw ei llais cryf yng nghyd-drafodaethau'r dyfodol i siapio perthynas Cymru ag Ewrop.

**Ystyriaethau perthnasol**

10. Fel yr amlygwyd, mae'r ystod o feysydd all gael eu heffeithio gan y broses o ddadrwymo'r DU o'r Undeb Ewropeaidd yn eang; ond mae'n gwbl ansicr beth fydd sgôp y newid a phryd y bydd yn dod i'r amlwg.

11. Yn sgil hyn nid oes modd, ar hyn o bryd, cyflwyno darlun cyflawn o'r oblygiadau i Wynedd; fodd bynnag, amlygir isod rhai o'r prif feysydd all gael eu heffeithio:

<u>Ansicrwydd cyllidol</u>

12. Bu ansicrwydd sylweddol a nerfusrwydd yn y marchnadoedd ariannol rhyngwladol yn union cyn ac wedi penderfyniad y DU. Fe arweiniodd yr ansicrwydd at gwymp sylweddol yng ngwerth y bunt yn union wedi'r penderfyniad ond mae'r sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r tebygolrwydd o ddirwasgiad wedi cilio am y tro.

13. Er hyn, mae ansicrwydd ac anweddolrwydd y marchnadoedd yn debygol o barhau, sydd yn ei dro'n am effeithio ar gyd-destun gweithredu'r Cyngor a thrigolion a busnesau Gwynedd yn y blynyddoedd i ddod. Gall hyn amharu ar gost benthyg arian, gwerth buddsoddiadau, cyfraddau cyfnewid arian ac yn ei dro cyllidebau'r sector gyhoeddus a pharodrwydd y sector cyhoeddus a busnesau i fuddsoddi.

14. Bydd gofyn i'r Cyngor fonitro a chynllunio ei rhagolygon ariannol gyda golwg barcud ar y cyd-destun allanol yn y cyfnod i ddod.

<u>Deddfwriaeth</u>

15. Nid yw canlyniadau'r refferendwm ohono'i hyn yn cael effaith uniongyrchol ar ddeddfwriaeth. Fodd bynnag mae'r Undeb Ewropeaidd yn hanesyddol wedi gosod y fframwaith polisi ar gyfer ystod eang iawn o feysydd gan gynnwys nifer sydd wedi eu datganoli i Gymru.

16. Mae canran uchel o ddeddfwriaeth y DU (gan gynnwys deddfwriaeth gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru) yn cael ei lunio o dan adain grymoedd o fewn Adran 2(2) Deddf y Gymuned Ewropeaidd 1972 ac mae'n debygol y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei ddiddymu wedi i'r Du adael yr Undeb Ewropeaidd gan arwain at ddarfod y ddeddfwriaeth eilaidd sy'n seiliedig ar y grymoedd hyn os na fydd trefniadau amgen.

17. Mae rhan sylweddol o ddeddfwriaeth Ewrop ar ffurf cyfarwyddebau syn cael eu trosi i ddeddfwriaeth y DU. Fe all y rheoliadau hyn aros fel ac y maent am y tro, ond petai amrywiaeth gydag amser ym meysydd megis ansawdd nwyddau neu gaffael fe all hyn effeithio ar allu busnesau i fasnachu yn Ewrop.

18. Wrth i'r broses o ddatgymalu'r DU o Ewrop fynd yn ei flaen, yn amlwg bydd trafodaeth ynglŷn ag a yw grymoedd am gael eu datganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol neu i San Steffan

Datblygu'r economi

19. Mae'r ansicrwydd ac anweddolrwydd yn ei dro yn debygol o gynyddu'r her wrth ddatblygu economi Gwynedd, gyda chwmnïau yn fwy pwyllog wrth ystyried buddsoddi. Bydd angen i'r Cyngor weithio'n galed gyda'i bartneriaid yn lleol ac yn rhanbarthol - drwy law Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru - i gynnal a datblygu hyder busnesau cynhenid ac i annog a chefnogi mewnfuddsoddiad.

20. Fe allai gadael yr Undeb Ewropeaidd hefyd amharu ar allu'r economi i ddenu a chynnal gweithlu digonol yn arbennig o fewn sectorau megis iechyd, gofal, adeiladu a thwristiaeth sydd yn recriwtio o dramor; gan arwain o bosib at brinder cyflogai o fewn sectorau sy'n bwysig i ffyniant y sir.

21. Yn hanesyddol mae Gwynedd wedi elwa'n sylweddol iawn o raglenni Ewropeaidd i gefnogi'r economi. Ers troad y mileniwm mae dros £302 miliwn wedi ei fuddsoddi yng Ngwynedd gan gynnwys £158 miliwn o arian Ewrop sydd wedi cefnogi cannoedd o fusnesau lleol ac arwain at greu rhai miloedd o swyddi.

22. Yn y cyfnod ariannu presennol (2014 - 2020) mae'r Cyngor ynghlwm â gweithredu'r cynlluniau TRAC (£2.1m gan gynnwys £1.4m o raglen Ewrop) yn y sir sydd yn cefnogi pobl ifanc sydd mewn peryg o ddadrithio o'r gyfundrefn addysg a'r farchnad llafur; Arloesi Gwynedd Wledig (£5.1m gan gynnwys £4.3m o raglen Ewrop) sy'n annog arloesedd gan fusnesau a chymunedau gwledig ac OPUS (£1.5m gan gynnwys £1.2m o raglen Ewrop) fydd yn cefnogi unigolion bregus i baratoi at ddychwelyd i waith. Ceir crynodeb o'r cynlluniau sydd wedi derbyn arian Ewrop o Raglenni 2007 - 2013 a 2014 - 2020 hyd yn hyn yn Atodiad 1.

23. Mae'r sir hefyd yn y broses o dargedu arian sylweddol i weithredu nifer o gynlluniau gan gynnwys cwblhau ailddatblygu canol Caernarfon, denu pobl ifanc i sectorau gwerth uchel a datblygu isadeiledd i sicrhau llwyddiant Canolfan Awyrofod Eryri yn Llanbedr. Mae'r sir hefyd, wrth gwrs, yn elwa o ystod eang o gynlluniau rhanbarthol a chenedlaethol sydd yn derbyn arian Ewrop.

24. Mae'r penderfyniad fod y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi creu ansicrwydd ynglŷn â dyfodol rhaglenni Ewropeaidd yn y cyfnod hyd at 2020. Ar 13 Awst, fe gadarnhaodd Trysorlys Llywodraeth y DU y byddent yn gwarantu unrhyw ymrwymiadau i gynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo cyn Datgan Yr Hydref y Canghellor ac yn cytuno ar drefniadau ar gyfer ymrwymiadau a wneir wedi hynny (wele

http://bit.ly/2b3rqlu ac ymateb Prif Weinidog Cymru yn http://bit.ly/2d2RxrX). Er nad yw'r datganiad yn diwallu'r angen yn llwyr mae'r ymrwymiadau yn lleddfu'r pryderon tymor byr. Rhagwelir y ceir manylion pellach am ddyfodol rhaglenni ariannol Ewrop yn Natganiad Y Canghellor ar 23 Tachwedd.

25. Yn y tymor canolig / hir mae gadael yr Undeb Ewropeaidd yn creu ansicrwydd ynglŷn â'r arian fydd ar gael ar gyfer cynlluniau i ddatblygu'r economi a bydd angen parhau i fonitro'r sefyllfa. Bydd hefyd angen dylanwadu i sicrhau fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cynnal yr un lefel o fuddsoddiad yn datblygu'r economi wledig ac economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, gan gynnwys cydweithio gyda'n partneriaid i wireddu Gweledigaeth ar Gyfer Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Crymu.

Amaeth

26. Mae amaeth yn parhau i fod yn sector allweddol bwysig i Wynedd yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol ac yn economaidd. Mae 1,620 o ffermydd yn y sir sydd yn cwmpasu 188,000 hectar (74% o arwynebedd Gwynedd) ac mae'r diwydiant yn cynrychioli 1.1% o Werth Ychwanegol Crynswth y sir (2014).

27. Mae amaeth yn derbyn cymorth sylweddol o arian Ewrop drwy law'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP). Amcangyfrifir for ffermydd Gwynedd yn derbyn €30 miliwn y flwyddyn o daliadau uniongyrchol drwy law Piler 1 y CAP; yn ychwanegol mae amaeth yn elwa o raglenni megis Cyswllt Ffermio i gefnogi datblygu busnesau amaeth a Glastir sydd yn cynnig taliadau ychwanegol yn gysylltiedig â gwarchodaeth amgylcheddol.

28. O ran taliadau unionyrchol, yn y tymor byr mae'r Trysorlys wedi gwarantu parhad y gyfundrefn bresennol hyd at 2020 ac yn yr un modd mae rhaglenni megis Cyswllt Ffermio bellach wedi eu tanysgrifennu gan Whitehall o ganlyniad i'w datganiad ar 13 Awst. Fodd bynnag, mae cynlluniau megis Glastir eisoes wedi eu heffeithio, gyda Llywodraeth Cymru yn anfodlon arwyddo cytundebau newydd gydag amaethwyr fydd yn mynd y tu hwnt i 2020; mae'r newid yma yn sicr o gael effaith anghyfartal ar y diwydiant yn ardaloedd megis Gwynedd sydd yn gwneud defnydd sylweddol o'r cynllun Glastir.

29. Bydd llawer yn y maes bwyd ac amaeth yn dymuno gweld lleihad yng ngweinyddiaeth a rheoliadau i'r diwydiant o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd, ynghyd â rhyddid pellach i sefydliadau brynu bwyd a diod leol.

30. Yn y tymor canolig / hir, mae ansicrwydd ynglŷn â pharhad a ffurf cymorthdaliadau i'r diwydiant ynghyd â mynediad i'r farchnad sengl ledled Ewrop.

Addysg Uwch

31. Mae sefydliadau addysg uwch yn fuddiolwyr sylweddol o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd ac o ganlyniad i bresenoldeb Prifysgol Bangor yn y sir mae unrhyw oblygiadau i'r sector o adael yr Undeb o bwys i Wynedd.

32. Yn hanesyddol mae'r Brifysgol wedi elwa o gefnogaeth o Gronfeydd Strwythurol Ewrop ar gyfer datblygu ac adnewyddu ei gyfleusterau gan gynnwys datblygiad llwyddiannus y Ganolfan Reolaeth (£12m); ganolfan newydd yr Ysgol Gwyddorau Môr ym Mhorthaethwy (£24m) ac yn fwyaf diweddar adeiladu canolfan Pontio (£47m).

33. Mae'r Brifysgol hefyd yn arwain neu yn bartner gyda phrifysgolion eraill Cymru yn nifer fawr o brosiectau sydd wedi derbyn arian o Gronfeydd Strwythurol Ewrop gan gynnwys cynllun KESS i leoli graddedigion ym musnesau lleol, HPC Cymru sy'n cynnig mynediad i dechnoleg cyfrifiaduro perfformiad uchel a Chanolfan Cymru ar gyfer Newid Ymddygiad.

34. Mae academyddion a myfyrwyr y Brifysgol hefyd yn elwa o fynediad i raglenni ymchwil a datblygu'r Undeb Ewropeaidd - o dan adain Horizon 2020 - sydd yn cynnig cyfleoedd i gydweithio gyda sefydliadau addysg uwch ledled y cyfandir.

35. Yn 2016 yn unig, bydd Prifysgol Bangor yn derbyn £11.6m o incwm o ffynonellau Ewropeaidd amrywiol. Mae'r Brifysgol ynghlwm a dros 30 o brosiectau yn derbyn arian Ewrop ar hyn o bryd, gan gynnwys 21 o brosiectau ymchwil o dan adain agenda Horizon 2020, sydd gyfystyr a tua hanner incwm ymchwil y Brifysgol.

36. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'r Trysorlys bellach wedi cynnig peth sicrwydd yn y tymor byr ar gyfer prosiectau sy'n elwa o arian Ewrop (gan gynnwys y rhaglen Horizon 2020), ond mae'r ansicrwydd yn parhau yn y tymor canolig / hir. Mae risg hefyd y gall gadael yr Undeb Ewropeaidd amharu ar apêl Prifysgolion y DU i fyfyrwyr o dramor.

**Camau nesaf ac amserlen**

Mae'n amlwg fod oblygiadau eang a sylweddol i Wynedd o ganlyniad y refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd; ond hyd nes bydd trafodaethau ffurfiol rhwng Ewrop a Llywodraeth y DU yn cychwyn bydd hyd a lled yr oblygiadau yn aneglur.

Wedi i Lywodraeth y DU hysbysu Cyngor Ewrop yn ffurfiol o'u bwriad i adael yr Undeb Ewropeaidd bydd hyd at 2 mlynedd i negodi cytundeb ar y drefn ar gyfer gadael yr Undeb.

Yn ystod y cyfnod o negodi bydd yn allweddol bwysig fod swyddogion ledled y Cyngor yn monitro'r sefyllfa ac yn effro i oblygiadau unrhyw newid a ddaw. Yn y cyfamser bydd yn allweddol bwysig fod y Cyngor yn parhau i chwarae rhan lawn, drwy law CLILC, yn sicrhau'r gorau i drigolion a busnesau Gwynedd gan ddylanwadu i'r gorau o'n gallu i sicrhau fod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn cynnal yr un lefel o fuddsoddiad yn datblygu'r economi wledig ac economi Gorllewin Cymru a'r Cymoedd; gan gynnwys cydweithio gyda'n partneriaid i wireddu Gweledigaeth ar Gyfer Twf Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

---

**Barn y swyddogion statudol**

Y Prif Weithredwr:

"Yn amlwg, fe fynegodd y Cyngor llawn farn am y budd o aros yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r penderfyniad wedi ei wneud a'r hyn sydd yn bwysig yn awr yw bod y Cyngor yn adnabod unrhyw effeithiau negyddol posib er gwrachod ein trigolion rhagddynt, i'r graddau y mae hynny'n bosib, a hefyd bod y Cyngor yn effro i unrhyw gyfleoedd allai godi yn sgil y newidiadau."

Y Swyddog Monitro:

"Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb"

Y Pennaeth Cyllid:

"Mae rhan 21 o'r adroddiad yn nodi fod Gwynedd wedi elwa o £158m o arian Ewrop ers troad y Mileniwm. Yn sgil refferendwm y Deyrnas Unedig ar aelodaeth Undeb Ewropeaidd a chanlyniad y bleidlais i adael, mae cryn ansicrwydd am barhad cymorth o'r fath.

Tra mai effaith diffyg ariannu ar gymunedau a swyddi yng Ngwynedd yw'r prif bryder, byddaf hefyd yn cynorthwyo'r Pwyllgor Pensiynau i fonitro'r effaith ar amrywiol fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn.

Er i'r farchnad stoc wella ar ôl y gostyngiad gwreiddiol yn syth ar ôl y refferendwm, mae'n anodd rhagweld yr effaith hir dymor. Ymhellach, gwelwyd effaith uniongyrchol ar werth y bunt a chyfraddau llog y Deyrnas Unedig, a chwymp yng ngwerth eiddo."

---

**Atodiadau**

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Cynlluniau Wedi Derbyn Arian Ewrop: Rhaglenni 2007 – 2013 a 2014 – 2020 |

**Ffynonellau gwybodaeth / gwybodaeth gefndirol**

'Y Refferendwm ar Aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd'; adroddiad a chofnod Cyngor Gwynedd, 12 Mai 2016 ' http://bit.ly/2caxw5B

'Briff Ymchwil: Cymru a'r UE: Beth mae'r bleidlais adael yr UE yn ei olygu i Gymru?'; Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 24 Mehefin 2016 http://bit.ly/28RsucG

Gwefan Adran Dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU http://bit.ly/2aKoyuA

Datganiad Llywodraeth Cymru 'Gwaith wedi cychwyn i ddiffinio perthynas Cymru ag Ewrop yn y dyfodol', 09 Awst 2016 http://bit.ly/2cQ4pBb

Llythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU parthed Ariannu Ewropeaidd, 12 Awst 2016 http://bit.ly/2b3rqlu

Ymateb Prif Weinidog Cymru i lythyr Prif Ysgrifennydd y Trysorlys i'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Adael yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth y DU parthed Ariannu Ewropeaidd, 13 Awst 2016 http://bit.ly/2d2RxrX

Atodiad 1

CYNLLUNIAU WEDI DERBYN ARIAN EWROP:
Rhaglenni 2007 – 2013 a 2014 – 2020

*Rhaglenni 2007 – 2013 (gwariant hyd at 2015)*

| Cynllun | Cyllid Ewrop i Wynedd (£M) | Cyfanswm i Wynedd (£M) |
|---|---|---|
| Potensial* (cymorth i bobl ifanc mewn peryg o fod yn dadrithiedig) | 8.1 | 13.5 |
| Partneriaeth Dysgu Gwynedd a Môn* (cefnogi'r gyfundrefn addysg i ymateb i anghenion cyflogwyr) | 1.0 | 0.6 |
| Llwyddo'n Lleol* (annog mentergarwch ymysg pobl ifanc) | 2.1 | 3.1 |
| Pont Briwet (pont newydd ar draws yr Afon Dwyryd) | 9.0 | 19.6 |
| Plas Heli (academi hwylio genedlaethol a chanolfan digwyddiadau ym Mhwllheli) | 4.3 | 8.9 |
| Adfywio Strategol Blaenau Ffestiniog (gwelliannau i amgylchedd ffisegol canol y dref) | 3.1 | 4.5 |
| Prosiect Adfywio Ffisegol Gogledd Orllewin Cymru* (gwelliannau i ganol tref Caernarfon a chanol Dinas Bangor) | 4.2 | 8.4 |
| Llwybr Arfordir Cymru* (llwybr troed cenedlaethol ar hyd yr arfordir) | 2.1 | 2.4 |
| Ein Treftadaeth* (datblygiad twristiaeth yn seiliedig ar | 0.4 | 1.5 |

| Cynllun | Cyllid Ewrop i Wynedd (£M) | Cyfanswm i Wynedd (£M) |
|---|---|---|
| dreftadaeth) | | |
| Canolfan Rhagoriaeth Eryri<br>(datblygiad twristiaeth awyr agored ym Meirionnydd) | 2.1 | 4.0 |
| Twristiaeth Arfordirol*<br>(datblygiad canolfan twristiaeth arfordirol yn Aberdaron) | 1.5 | 3.4 |
| Moroedd Gwyrdd*<br>(gwelliannau i gyfleusterau traethau) | 0.1 | 0.3 |
| Gwelliannau i'r A470<br>(gwelliannau i'r ffordd ym Mlaenau Ffestiniog) | 7.0 | 13.3 |
| Taith i Waith*<br>(cymorth i waith i unigolion gyda heriau iechyd meddwl) | 0.9 | 1.9 |
| Llunio'r Dyfodol*<br>(cefnogaeth i weithwyr Atomfeydd Trawsfynydd a'r Wylfa) | 1.1 | 2.0 |
| Cronfa Fuddsoddi Lleol Gogledd Orllewin Cymru*<br>(cefnogaeth ariannol i fusnesau bach a chanolig) | 1.2 | 2.6 |
| Canolfan Nant Gwrtheyrn<br>(datblygu cyfleusterau a mynediad i'r Ganolfan Iaith) | 2.0 | 2.6 |
| Pontio<br>(canolfan celf ac arloesi Prifysgol Bangor) | 2.0 | 2.6 |
| Canolfan Cymru ar gyfer Newid Ymddygiad<br>(canolfan arbenigol ym Mhrifysgol Bangor) | 1.0 | 1.8 |

| Cynllun | Cyllid Ewrop i Wynedd (£M) | Cyfanswm i Wynedd (£M) |
|---|---|---|
| Canolfan Gongl Meinciau (Canolfan fenter ym mhentref Botwnnog, Pen Llŷn) | 0.7 | 1.7 |
| Cynllun Datblygu Gwledig Cymru* (rhaglen i gefnogi cymunedau a busnesau gwledig) | 5.4 | 7.9 |
| | 59.3 | 106.6 |

* cynllun rhanbarthol

*Rhaglenni 2014 – 2020 (hyd at 19 Medi 2016)*

| Cynllun | Cyllid Ewrop i Wynedd (£M) | Cyfanswm i Wynedd (£M) |
|---|---|---|
| TRAC 11-24* (cymorth i bobl ifanc mewn peryg o fod yn dadrithiedig) | 1.4 | 2.1 |
| OPUS (Cefnogaeth i unigolion bregus baratoi i ddychwelyd i waith) | 1.2 | 1.5 |
| Arloesi Gwynedd Wledig (LEADER) (annog arloesedd gan fusnesau a chymunedau gwledig) | 4.3 | 5.1 |
| | 6.9 | 8.7 |

* cynllun rhanbarthol

**ADRODDIAD I'R CABINET**
{4ydd Hydref 2016)

**Aelod Cabinet: Cynghorydd Mandy Williams-Davies / Cynghorydd Mair Rowlands**

**Pwnc: Menter Harlech & Ardudwy Leisure.**

**Swyddog cyswllt: Sioned E. Williams, Pennaeth Economi a Chymuned**

---

**Y penderfyniad a geisir**
Ymrwymo cyfraniadau ariannol i "Harlech & Ardudwy Leisure" tuag at fenter y pwll nofio drwy –

- ragfarnu llwyddiant cais am gyllideb parhaol ychwanegol o £6,000 o 2017/18 ymlaen fel rhan o becyn ar y cyd gyda'r cynghorau cymuned lleol,
- ofyn i'r Pennaeth Cyllid neilltuo £20,000 yn yr adolygiad ail chwarter o gyllideb 2016/17 er mwyn gwneud taliad pontio un tro yn ystod 2016/17 ar gyfer y cyfnod hyd at 31ain o Fawrth 2017

---

**Barn yr aelod lleol**
Nodwyd y canlynol fel barn y Cynghorydd E. Caerwyn Roberts :

"Rwyf yn cefnogi'r cynnig sydd gerbron i ddarparu cefnogaeth ariannol unwaith ac am byth o £20,000 i'r fenter a chyfraniad blynyddol wedi hynny o £6,000, er mwyn caniatáu i'r fenter hon sefydlu pecyn ariannu ar y cyd gyda'r chwech cyngor cymuned lleol. Bydd cyfraniad y cynghorau cymuned, ynghyd a chyfraniad blynyddol gan Gyngor Gwynedd yn dod a sicrwydd i'r adnodd hwn er lles trigolion tref Harlech ar cyffiniau"

---

**1.Cyflwyniad.**
1.1 Cyflwynir yma gais am gyfraniad arianno l gan Gyngor Gwyned di fenter Harlech and Ardudwy Leisure tuag at gynnal Pwll Nofio Harlech mewn partneriaeth gyda chwech cyngor cymuned lleol.

**2. Cefndir**
2.1 Yn ei gyfarfod ar y 16 o Rhagfyr 2008, penderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd i gynllunio ar gyfer trosglwyddo Pwll Nofio Harlech i Ymddiriedolaeth annibynnol. Rhwng Rhagfyr 2008 a Gorffennaf 2009 cwblhawyd Astudiaeth Opsiynau, a Chynllun Busnes ar gyfer trosglwyddo'r pwll.

2.2 Yn ei gyfarfod ar y 14 o Orffennaf 2009 penderfynodd Bwrdd Cyngor Gwynedd i gymeradwyo trosglwyddiad Pwll Nofio Harlech i Ymddiriedolaeth

Harlech ac Ardudwy. Yn ategol i hynny cymeradwyodd y Bwrdd i wneud gwaith brys (ar gost oddeutu £80,000) i atgyweirio peipiau a system ffiltro dwr y pwll nofio ar gyfer hwyluso’r trosglwyddiad. Trosglwyddwyd y fenter yn derfynol ym mis Rhagfyr 2010.

2.3 Yn y cyfarfod ar y 14 o Orffennaf 2009 cytunodd Bwrdd hefyd i gymeradwyo cefnogaeth ariannol i'r Ymddiriedolaeth hyd at Ebrill 2011. Rhyddhawyd a defnyddiwyd y mwyafrif o’r £220,000 i gwrdd â chostau rhedeg a chyflogaeth y pwll yn ystod y cyfnod rhwng Gorffennaf 2009 ac Ebrill 2011.

2.4 Ers Rhagfyr 2010 - Mawrth 2014 mae’r Ymddiriedolaeth wedi llwyddo i ddenu gwerth £1miliwn o fuddsoddiad cyfalaf i’r fenter ar gyfer gwaith uwchraddio ac ehangu’r cyfleusterau yn y pwll (caffi, wal ddringo) ac adnoddau Refeniw o £300,000 gan y Loteri Fawr i gyfrannu tuag at gostau rhedeg y fenter.

2.5 Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth gais i Gyngor Gwynedd am gefnogaeth ariannol ar ddechrau 2014. Cyflwynwyd eitem frys i Gabinet y Cyngor ar y 29 o Ebrill a penderfynwyd bryd hynny dirprwyo’r hawl i Bennaeth Economi a Chymuned i gefnogi’r fenter gyda thaliad o £21,094 yn y tymor byr er mwyn rhoi amser a chyfle i aelodau’r cabinet dderbyn adroddiad ysgrifenedig i ystyried y mater yn llawn yn y cyfarfod nesaf ar yr 20fed o Fai, 2014.

2.6 Trafodwyd cais Harlech and Ardudwy Lesiure am gefnogaeth ariannol gan Cabinet Cyngor Gwynedd yn ei gyfarfod ar yr 20fed o Fai 2014. Penderfynwyd cefnogi Cwmni Harlech and Ardudwy Leisure Ltd gyda cyfraniad o £135,000 dros y 3 blynedd nesaf, sef:-

£60,000 yn 2014-15 (llai y taliad tymor byr yn 2.5)
£45,000 yn 2015-16
£30,000 yn 2016-17

2.7 Dros y 4 blynedd ddiwethaf mae’r Fenter wedi rhoi ar waith strategaeth ariannol a oedd yn lleihau costau, yn bennaf drwy resymoli staffio a defnydd ynni; a hefyd cynyddu incwm drwy ymgyrch farchnata i ddenu mwy o ddefnyddwyr i’r pwll/wal ddringo ac i’r caffi gan gynnwys targedu ymwelwyr, wedi ehangu ar y gweithgareddau sydd ar gael o’r ganolfan, ac wedi adolygu prisiau ac oriau agor yn gyson. Yn ategol i hyn mae’r fenter wedi rhoi ymgyrch godi arian ar waith sydd yn cynnwys loteri cymunedol, rhoddion cyfeillion, nawdd gan fusnesau a rhaglen o ddigwyddiadau cymunedol megis Roc Ardudwy a Nosweithiau Themâu yn y Caffi.

**3. Y Sefyllfa Bresennol.**

3.1 Mae’r fenter ar ei phumed blwyddyn yn masnachu, ac erbyn hyn mae patrymau a thueddiadau defnydd y fenter yn eithaf cyson. Mae perfformiad hanesyddol a’r rhagolygon ariannol yn dangos fod y fenter yn

costio tua £300,000 y flwyddyn i'w rhedeg gyda costau cyflogaeth ac ynni y prif eitemau gwariant. Daw tua £200,000 o'r incwm ar gyfer hynny o ochr weithredol / fasnachol y fenter, sef y pwll nofio, wal ddringo a'r caffi; daw'r £100,000 arall o'r gweithgareddau codi arian a denu grantiau.

3.2 Mae cyfraniad ariannol y Cyngor, er yn lleihau yn flynyddol, wedi bod yn allweddol i'r incwm a ddaw o grantiau a chodi arian. Mae'r pecyn cefnogaeth ariannol gan y Cyngor yn dod i ben gyda blwyddyn ariannol y fenter sef diwedd Tachwedd 2016.

3.3 Yn rhan o'r adolygiadau rheolaidd sydd wedi bod rhwng y Cyngor a'r Fenter daeth yn amlwg yn nechrau 2016 nad oedd y fenter yn gallu bod yn hunangynhaliol ar incwm masnachol y fenter yn unig, a bod ei dibyniaeth ar grantiau a chodi arian yn fater o risg.

3.4 Mae'r fenter wedi adnabod fod angen codi £106,000 yn flynyddol drwy ymgyrchoedd codi arian a grantiau er mwyn cynnal y fenter. Mae Cyfarwyddwyr y fenter eisoes wedi ymrwymo i barhau i godi £50,000 eu hunain drwy ymgyrchoedd codi arian penodol ond bod angen sicrhau y £56,000 arall drwy ffrwd mwy sefydlog a thymor hir.

3.5 Mae'r fenter yn wynebu cau ar ddiwedd Tachwedd 2016 pe na bai modd dod i drefniant sefydlog o ran ariannu.

3.6 Pe bai'r Fenter yn cau byddai'n arwain at :-

- Colli 17 o swyddi (llawn amser a rhan amser) mewn ardal sydd heb lawer o gyfleon cyflogaeth
- Amddifadu trigolion o 55,000 o sesiynau defnyddwyr y flwyddyn
- Colli 13,750 o sesiynau defnyddwyr yn ystod chwech wythnos gwyliau'r haf
- Amddifadu defnyddwyr o'r 5,000 o sesiynau gynhelir ar y wal ddringo
- Colli darpariaeth dysgu nofio ar gyfer disgyblion cynradd pum ysgol gynradd ardal arfordir Ardudwy (Talsarnau i Abermaw)
- Amddifadu 13,750 o sesiynau defnyddwyr yn flynyddol ar gyfer rhai sydd dros 60 oed
- Colli adnodd gymunedol yn y dref, a all arwain at adeilad segur arall yn Harlech.
- Colli adnodd tywydd gwael mewn ardal sy'n ddibynnol ar y diwydiant ymwelwyr
- Colli adnodd gwella iechyd a lles ar gyfer trigolion lleol, yn enwedig y grwpiau oedran hyn, a rhieni gyda phlant ifanc o dan 5 oed.

3.7 Mae'r fenter, gyda chefnogaeth swyddogion Cyngor Gwynedd, wedi cydweithio ar gynllun i'w gyflwyno i gynghorau cymuned yr ardal a Chyngor Gwynedd ar gyfer cyfrannu tuag at gynnal y fenter i'r tymor hir.

**4. Y Cynllun.**

4.1 Mae'r fenter gyda chefnogaeth swyddogion o'r Cyngor wedi datblygu cynllun fyddai'n codi £56,000 y flwyddyn drwy becyn o gyfraniadau gan y Cynghorau Cymuned lleol drwy gynyddu'r praesept.

4.2 Mae'r fenter wedi bod yn cyflwyno'r cynnig, yn edrych ar opsiynau ac yn cynnal trafodaethau lleol gyda'r cynghorau cymuned canlynol Abermaw, Dyffryn Ardudwy a Talybont, Harlech, Llanbedr, Llanfair a Talsarnau rhwng Ebrill – Awst 2016.

4.3 Mae'r model gyllido sydd wedi ei ffafrio gan y cynghorau cymuned hyd yn hyn fel a ganlyn:

| **Cyngor** | **Swm** |
|---|---|
| Abermaw | £ 6,711 |
| Dyffryn Ardudwy | £ 9,742 |
| Harlech | £18,424 |
| Llanbedr | £ 3,799 |
| Llanfair | £ 7,544 |
| Talsarnau | £ 3,772 |
| Gwynedd | £ 6,000 |
| **Cyfanswm** | **£55,992** |

4.4 Gellir gweld dadansoddiad o'r cynnydd hwn mewn praesept yn y dadansoddiad yn atodiad 1, a dangosir y cymunedau hynny sy'n rhan o'r cynllun mewn coch ar y map yn atodiad 2.

4.5 Mae'r chwech cyngor cymuned wedi datgan parodrwydd i symud ymlaen yn ddibynnol ar dderbyn yr un ymateb gan weddill y cynghorau. Bydd pob cyngor yn cyflwyno'r eitem am benderfyniad ffurfiol i'r cynghorau unigol ym mis Medi a Hydref 2016.

4.6 Mae'r pecyn gyda'r cynghorau cymuned hefyd yn ddibynnol ar gyfraniad o £6,000 y flwyddyn gan Gyngor Gwynedd i'w cefnogi.

4.7 Pe bai'r cynghorau cymuned yn cytuno byddai'r trefniant yn weithredol o'r 1af o Ebrill 2017.

4.8 Gyda cyfraniad presennol Cyngor Gwynedd yn dod i ben ddiwedd Tachwedd 2016, ac mae diffyg yn y gyllideb o £20,000 er mwyn caniatáu'r i'r fenter fasnachu hyd nes daw'r cynllun praesept i rym ar ddechrau Ebrill 2017. Byddai angen cyfraniad unwaith ac a byth o £20,000 ar y fenter ar gyfer pontio y cyfnod o Rhagfyr 2016 – Mawrth 2017.

**5. Casgliadau / Argymhellion.**

5.1 Ymrwymo cyfraniadau ariannol i "Harlech & Ardudwy Leisure" tuag at fenter y pwll nofio drwy –

- ragfarnu llwyddiant cais am gyllideb parhaol ychwanegol o £6,000 o 2017/18 ymlaen fel rhan o becyn ar y cyd gyda'r cynghorau cymuned lleol,
- ofyn i'r Pennaeth Cyllid neilltuo £20,000 yn yr adolygiad ail chwarter o gyllideb 2016/17 er mwyn gwneud taliad pontio un tro yn ystod 2016/17 ar gyfer y cyfnod hyd at 31ain o Fawrth 2017

**6. Ystyriaethau Perthnasol.**

**6.1 Prif Risgiau**

Y prif risg i lwyddiant y cynllun hwn yw gallu'r fenter i barhau i gynnal y lefel defnydd ac yn ei sgil y ffrydiau incwm i'w cynnal. Mae cynllun busnes a rhagolygon y fenter ar gyfer y cyfnod o 2016-17 ymlaen wedi ei selio ar dueddiadau'r 4 blynedd ddiwethaf. Mae'r pecyn ariannol hwn ar y cyd gyda'r cynghorau cymuned yn allweddol i wireddu'r cynllun busnes hwnnw.

**7. Camau nesaf ac amserlen**

| | |
|---|---|
| Y chwe Cyngor Cymuned yn cymeradwyo eu cynigion yn derfynol yng nghyfarfodydd mis Medi | Medi 2016 |
| Cabinet / Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd yn penderfynu ar gefnogi'r pecyn cyllido | Hydref 2016 |
| Taliad unwaith ac am byth cario trosodd o £20,000 gan Gyngor Gwynedd i Hamdden Harlech ac Ardudwy | Tachwedd 2016 |
| Cynnydd praesept y chwech cyngor cymuned yn cael ei hysbysu i Gyngor Gwynedd | Ionawr 2017 |
| Taliad cyntaf o'r cynllun praesept yn cael ei wneud gan y cynghorau cymuned a chyngor Gwynedd (50% o'r cyfanswm) | Ebrill 2017 |
| Ail daliad o'r cynllun praesept yn cael ei wneud gan y cynghorau cymuned a chyngor Gwynedd | Hydref 2017 |

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:** "Mae hwn yn enghraifft dda o gymuned leol yn cymryd cyfrifoldeb dros adnodd lle na all y Cyngor wneud hynny, ac yn cael cymorth gan gynghorau lleol i wneud hynny. Mae'n rhaid i'r cyngor annog y fath feddylfryd ar draws y sir, ac mae'r cyfraniad gymharol fychan y gofynnir amdano o'i gymharu gyda'r ffrydiau incwm eraill yn ffordd o ddangos y byddwn yn hyblyg wrth geisio hybu datblygiadau o'r fath. Mae'r £20,000 unwaith ac am byth yn gyllid sydd ei angen i sicrhau fod modd gwireddu'r fenter. Dwi'n credu felly fod hwn yn becyn y

gellir ei gymeradwyo gan gymryd y bydd y cabinet yn fodlon cymeradwyo’r £6,000 parhaol fel rhan o fidiau cyllidol y flwyddyn nesaf.”

**Y Swyddog Monitro:** “Mae’r adroddiad yn argymell cyfraniad at fframwaith ariannu refeniw ar gyfer cynnal Pwll Nofio Harlech I’r dyfodol. Bydd angen sicrhau fod y trefniadau i ddod a’r cynigion yma yn weithredol yn cynnwys elfen o ffurfioldeb digonol i sicrhau yr amryw ymrwymiadau.”

**Y Swyddog Cyllid:** “Yn amodol ar i’r 6 Cyngor Cymuned gyfrannu yn unol â’r model gyllido amlinellir yn rhan 4.3 o’r adroddiad, bydd y cynllun yma’n gwireddu mwyafrif yr arbediad gwreiddiol.  Felly, pe bai’r Cabinet o blaid, yna byddwn yn cydweithredu i’w ariannu yn unol â’r penderfyniad a geisir."


---

**Atodiad 1 – Dadansoddiad o’r Cynllun Praesept**
**Atodiad 2 – Map o gymunedau’r Cynllun Praesept**

Atodiad 1 - Dadansoddiad o'r Cynllun Praesept

| Rhannu'r gost rhwng y 6 Cyngor Cymuned perthnasol | Sylfaen Drethiannol / Tax Base 2016/17 | Praesept Cyngor Cymuned 2016/17 | 'Band D' Cyfatebol y Cyngor Cymuned | Swm Cyfraniad | Cyfradd Treth ychwanegol / additional Tax Rate (Band D) | Cynnydd Treth perthnasol (%) | Cyngor |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bermo | 1,085.90 | 52,000 | 47.89 | £6,711 | £6.18 | 12.91% | Abermaw |
| Dyffryn Ardudwy | 788.20 | 20,000 | 25.37 | £9,742 | £12.36 | 48.71% | Dyffryn Ardudwy |
| Harlech | 745.00 | 17,000 | 22.82 | £18,424 | £24.73 | 108.38% | Harlech |
| Llanbedr | 307.34 | 11,000 | 35.79 | £3,799 | £12.36 | 34.54% | Llanbedr |
| Llanfair | 305.07 | 7,000 | 22.95 | £7,544 | £24.73 | 107.77% | Llanfair |
| Talsarnau | 305.16 | 10,000 | 32.77 | £3,772 | £12.36 | 37.72% | Talsarnau |
| | | | | £6,000 | | | Gwynedd |
| | | | | £55,992 | | | Cyfanswm |

# Cymunedau - Gwynedd - Communities




1 Aber
2 Aberdaron
3 Aberdyfi (Aberdovey)
4 Arthog
5 Bala
6 Bangor
7 Abermaw (Barmouth)
8 Beddgelert
9 Bethesda
10 Betws Garmon
11 Bontnewydd
12 Botwnnog
13 Brithdir & Llanfachreth
14 Bryn-Crug
15 Buan
16 Caernarfon
17 Clynnog
18 Corris
19 Criccieth
20 Dolbenmaen
21 Dolgellau
22 Dyffryn Ardudwy
23 Ffestiniog
24 Ganllwyd
25 Harlech
26 Llanaelhaearn
27 Llanbedr
28 Llanbedrog
29 Llanberis
30 Llanddeiniolen
31 Llandderfel
32 Llandwrog
33 Llandygai
34 Llanegryn
35 Llanelltyd
36 Llanengan
37 Llanfair
38 Llanfihangel-y-Pennant
39 Llanfrothen
40 Llangelynin
41 Llangywer
42 Llanllechid
43 Llanllyfni
44 Llannor
45 Llanrug
46 Llanuwchllyn
47 Llanwnda
48 Llanycil
49 Llanystumdwy
50 Maentwrog
51 Mawddwy
52 Nefyn
53 Pennal
54 Penrhyndeudraeth
55 Pentir
56 Pistyll
57 Porthmadog
58 Pwllheli
59 Talsarnau
60 Trawsfynydd
61 Tudweiliog
62 Tywyn
63 Waunfawr
64 Y Felinheli

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

1:500,000

© Crown copyright and database rights 2012 Ordnance Survey 100023387
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2012 Arolwg Ordnans 100023387

# Eitem 8

**CABINET CYNGOR GWYNEDD**

**Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Hydref 2016** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorwyr Ioan Thomas, W Gareth Roberts, Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro**<br>**Geraint Owen Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol**<br>**Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiadau Cwynion a Gwella Gwasanaeth y Cyngor** |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiadau.

## 2 CEFNDIR

Y Drefn Gwynion Gorfforaethol

2.1 O dan Drefn Gwynion Gorfforaethol newydd y Cyngor mae'n ofynnol cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cabinet, yn crisialu'r gwersi a ddysgwyd dros y cyfnod hwn ac yn dangos sut y maent wedi cyfrannu at wella'r ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflwyno.

Trefn Gwynion Gwasanaethau Cymdeithasol

2.2 Mae gan y Cyngor hefyd drefn gwynion benodol i ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r Gwasanaethau Cymdeithasol.  O dan y drefn hon mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir i ac ymdrinnir â chwynion o fewn y gwasanaeth. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd.

Yr Ombwdsmon

2.3 Os bydd achwynydd yn parhau'n anfodlon, ar ôl dilyn trefniadau cwynion y Cyngor  gall gyfeirio'r mater at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a all ymchwilio i'r gŵyn os yw'n teimlo bod hynny'n briodol.  Yn ogystal â chyhoeddi Adroddiad Blynyddol bydd yr Ombwdsmon yn anfon Llythyr Blynyddol unigol at bob awdurdod.

2.4 Teimlir, drwy edrych ar y tair elfen yma gyda'i gilydd, y gellir cynnig darlun i aelodau o'r sefyllfa ar draws y Cyngor o'r modd yr ymdrinnir â chwynion a sut y dysgir gwersi wrthynt er mwyn gwella gwasanaethau. Penderfynwyd felly y byddai briodol eu cyflwyno gyda'i gilydd i'r Cabinet.

Cyflwynir tair dogfen at sylw'r Cabinet sef

- Adroddiad Blynyddol ar y Drefn Gwynion Gorfforaethol 2015/16
- Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16
- Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2015/16

---

**Barn yr aelod lleol**

Ddim yn fater lleol.

---

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae sawl pwyslais sydd ynghlwm ag unrhyw drefniadau cwynion. Yn gyntaf, mae angen i'r broses o dderbyn adborth a gwrando ar gwynion i fod yn un hawdd ond hefyd, dylai'r pwyslais fod ar geisio datrys materion a dysgu gwersi trwy, ymysg pethau eraill, edrych am batrymau arwyddocaol o ran cwynion. Mae'r adroddiadau sydd gerbron yn cynnig darlun o sut y mae'r Cyngor yn gwneud hynny.

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiadau yma yn rhoi cyfle i'r Cabinet gael troslwg o berfformiad a sicrwydd ynglyn a threfniadau ymateb i gwynion yr Awdurdod.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 -** Adroddiad Blynyddol ar y Drefn Gwynion Gorfforaethol 2015/16

**Atodiad 2** - Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol 2015/16

**Atodiad 3** - Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2015/16

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **CABINET** |
| **Dyddiad :** | **4 Hydref 2016** |
| **Teitl :** | **Adroddiad Blynyddol ar Drefn Gwynion y Cyngor** |
| **Awdur :** | **Cyng. Ioan Thomas** |
| **Swyddogion Cyswllt** | **Iwan Evans, Swyddog Monitro**<br>**Geraint Owen Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |

**Cefndir**

1.1 Dyma'r adroddiad blynyddol cyntaf ers i Drefn Gwynion y Cyngor ddod yn weithredol ar 1 Ebrill 2015. Pwrpas yr adroddiad felly yw cymryd trosolwg ar weithrediad trefn gwynion gorfforaethol y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016.

1.2 Mae'r drefn a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn cyd-fynd â'r Polisi Enghreifftiol ar Gwynion a Phryderon, a'r Canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, ac a luniwyd dan oruchwyliaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae i hyn y fantais ei fod yn gyson gyda threfniadau cwynion cyrff cyhoeddus eraill gan wneud cyflwyno cwyn yn haws i'r cyhoedd ar draws sefydliadau cyhoeddus.

1.3 Fe fabwysiadwyd y drefn gan y Cabinet gyda'r amcanion canlynol:

- Dod â buddiant penodol i'r dinesydd drwy ganolbwyntio ar y datrysiad yn hytrach na'r broses. Bydd yn caniatáu ymdrin yn gyflymach â chwynion, gan ddiddymu un cam o'r drefn bresennol sydd yn eithaf llafurus a hir wyntog.

- Caniatáu cydlynu cwynion sydd yn cwmpasu mwy nag un adran yn well, a hefyd cydlynu cwynion sy'n cynnwys asiantaethau neu bartneriaid allanol.

- Drwy sefydlu bas-data canolog, cynhwysfawr, bydd modd cymryd trosolwg o'r patrwm cwynion a dysgu gwersi fel sefydliad.

- Rhagwelir y bydd y drefn yn cyd-fynd yn well hefo diwylliant newydd y Cyngor o rymuso staff i wneud penderfyniadau a chyflawni un o ffrydiau gwaith prosiect "Ffordd Gwynedd"

**2. Y Drefn**

2.1 Diffinnir cwyn fel:

- mynegiad o anfodlonrwydd neu bryder
- naill ar bapur neu ar lafar neu drwy unrhyw ffordd arall o gyfathrebu

- fe'i gwneir gan un neu ragor o'r cyhoedd
- mae ynglŷn â'r ffordd y mae'r Cyngor wedi gweithredu neu heb weithredu
- neu mae ynglŷn â safon y gwasanaeth a ddarparwyd
- ac mae angen ymateb iddi.

Nid cwyn yw:

- cais cychwynnol am wasanaeth megis rhoi gwybod am olau stryd diffygiol
- apêl yn erbyn penderfyniad sydd 'wedi cael ei wneud yn briodol
- ffordd o geisio newid deddfwriaeth neu benderfyniad polisi sydd 'wedi cael ei wneud yn briodol'
- ffordd i grwpiau/mudiadau lobïo geisio hyrwyddo achos.

Nid yw'r drefn hon yn berthnasol i ddefnyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, gan fod trefn statudol ar eu cyfer hwy. Mae ysgolion hefyd yn gweithredu eu trefniadau cwynion eu hunain.

2.2 Mae dau gam i'r drefn newydd, sef:

**Datrys Anffurfiol**

2.3 Mae'r cam hwn yn cynnig y cyfle i achwynydd gysylltu'n anffurfiol yn y man lle caiff y gwasanaeth ei gyflwyno i geisio datrys cwynion un ai pan fydd y pryder yn codi neu'n fuan iawn wedyn. Y syniad creiddiol yma yw bod ymdrin â chwynion yn rhan annatod o ddarparu gwasanaeth ac anogir staff i ystyried bob tro os gellir datrys y gŵyn 'yn y fan a'r lle'.

2.4 Nod y drefn yw darparu system sy'n syml, yn hyblyg ac yn rhoi pwyslais ar gael y canlyniad mwyaf priodol i unigolion a gwasanaethau. Mae'r trefniadau yn caniatáu i'r Cyngor ddelio mewn ffordd lawer mwy rhagweithiol â phryderon drwy ganolbwyntio ar anghenion pobl, sef datrys y broblem ac nid ar y broses gwyno ei hun

**Ymchwiliad ffurfiol**.

2.5 Os nad yw'n bosib datrys y gŵyn yn anffurfiol gall yr achwynydd ei chyfeirio am ymchwiliad ffurfiol. *"Ymchwilio unwaith, ymchwilio'n dda"* yw egwyddor y cam hwn o'r broses. Mae'r pwyslais yn cael ei roi ar un ymchwiliad i ddelio'n drylwyr â'r pryderon a godwyd. Fel rheol cynhelir ymchwiliad gan swyddog o fewn yr adran sydd ar lefel ddigon uchel, ac sy'n annibynnol o ffynhonnell y gŵyn. O bryd i'w gilydd ni fydd hyn yn briodol ac ymchwilir i'r gwyn gan swyddog sy'n annibynnol o'r adran dan sylw. Yn wahanol i ddatrysiadau anffurfiol fe gofnodir pob cwyn ffurfiol yn ganolog.

2.6 Gall achwynydd fynd â'r gŵyn at yr Ombwdsmon os yw'n anfodlon gydag ymateb ffurfiol y Cyngor.

2.7 Fel rhan o'r drefn newydd, sefydlwyd Tîm Cydlynu Cwynion. Mae'r tîm yn cynnwys Swyddog Gwella Gwasanaeth, a leolir yn yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ac sydd yn gyfrwng i eirioli er mwyn sicrhau ateb i achwynwyr ac i sicrhau ein bod yn dysgu'n briodol

o’r cwynion a geir. Mae ganddi’r cyfrifoldeb dros gydlynu ymateb i bob cwyn na chaiff ei datrys ar y cam anffurfiol, derbyn cwynion dros y ffôn a thrwy wefan y Cyngor a rhoi cymorth i achwynwyr a gwasanaethau. Hefyd yn y tîm mae ac Uwch Gyfreithiwr yn yr Uned Gyfreithiol, sy'n gyfrifol am benderfynu ar ymchwiliadau yn yr achosion mwyaf cymhleth a rhoi cefnogaeth arbenigol i’r Swyddog Gwella Gwasanaeth..

2.8 Y Swyddog Monitro sydd yn gyfrifol am y Drefn Gwynion a sicrhau ei bod yn cael ei gweithredu’n briodol.

2.9 Mae pwyntiau cyswllt hefyd wedi eu sefydlu ymhob adran a chyfeirir cwynion gan Galw Gwynedd a’r Swyddog Gwella Gwasanaeth atynt er mwyn eu cyfeirio at y swyddogion priodol am sylw.

**3. Dysgu Gwersi**

3.1 Un o’r prif resymau dros gyflwyno’r drefn newydd oedd i alluogi’r Cyngor i ddefnyddio gwybodaeth am gwynion i wella'r ffordd y mae yn cyflwyno gwasanaethau ac i wneud hynny'n fwy effeithiol**.** Drwy sefydlu bas-data canolog, cynhwysfawr, mae modd cymryd trosolwg o'r patrwm cwynion a dysgu gwersi fel sefydliad.

3.2 Cyflwynir adroddiadau trosolwg i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Aelod Cabinet er mwyn sicrhau gwelliant parhaus.

3.3 Yn ogystal â hyn, sefydlwyd trefn sy’n golygu y bydd y Swyddog Gwella Gwasanaeth yn darparu Ffurflen Gwella Gwasanaeth i adran os yw o’r farn fod ymchwiliad i gŵyn wedi adnabod lle i wella gweithdrefnau er mwyn darparu gwell gwasanaeth. Bydd hi hefyd yn monitro cynnydd i sicrhau bod y camau’n cael eu gweithredu.

3.4 **Adolygiad o’r broses** - Mae cyfarfodydd adolygu ar y gweill efo’r gwasanaethau i weld a ydynt angen cymorth neu hyfforddiant parthed unrhyw agwedd o ddelio a chwynion, ac i dderbyn adborth ynglŷn ag effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses.

3.5 **Codi Ymwybyddiaeth** - Yn dilyn sylwadau a dderbyniwyd gan y Swyddog Gwella Gwasanaethau, rydym yn edrych ar ffyrdd o hybu’r drefn gwynion ymhellach i’r cyhoedd drwy, er enghraifft, safle we’r Cyngor, llenyddiaeth addas a neges yn Newyddion Gwynedd.

Er mwyn sicrhau gwell ymwybyddiaeth o’r drefn ymysg staff y Cyngor rydym yn y broses o greu a chytuno tudalennau addas ar fewnrwyd y Cyngor. Yn ogystal ag egluro’r drefn, bwriedir rhannu ymarferion da a dathlu llwyddiannau ar y tudalennau hyn gan gynnwys astudiaethau achos.

Mae gwaith ar y gweill i Bwyntiau Cyswllt Cwynion Adrannol ymweld â Galw Gwynedd i eistedd fewn ar alwadau ffôn. Drwy hyn byddant yn gweld sut mae Galw Gwynedd yn gweithio a chael cyfle i drafod gwelliannau i’w gwasanaethau yng ngoleuni profiadau’r staff yn Galw Gwynedd.

**4. Perfformiad**

4.1 Cofnodir pob cwyn ffurfiol yn ganolog ac isod ceir y ffigyrau ar gyfer y **niferoedd** o ymchwiliadau ffurfiol i gwynion yn ystod y flwyddyn.

**<u>Ymchwiliadau Ffurfiol 2015/16</u>**

| | |
|---|---|
| Chwarter 1 | 28 |
| Chwarter 2 | 22 |
| Chwarter 3 | 15 |
| Chwarter 4 | 16 |
| **Cyfanswm** | **81** |

**<u>Datrysiadau Anffurfiol 2015/16</u>**

Anogir achwynwyr i gysylltu'n uniongyrchol gyda'r darparwr gwasanaeth yn y gyntaf i geisio cael datrysiad anffurfiol. Nid oes rhaid cofnodi pob cwyn neu broblem sy'n cael ei datrys yn anffurfiol, ac ni fyddai'n ymarferol gwneud hynny heb greu sustem adrodd benodol. Ni ellir felly adrodd yn gynhwysfawr ar y niferoedd. Serch hynny, bydd y Swyddog Gwella Gwasanaeth yn cofnodi'r rhai anfonir ati hi yn y lle cyntaf yn hytrach nag at y gwasanaethau a dyma'r ffigyrau a geir isod.

| | |
|---|---|
| Chwarter 1 | 42 |
| Chwarter 2 | 34 |
| Chwarter 3 | 33 |
| Chwarter 4 | 25 |

**Cyfanswm = 134**

4.2 Gellir dadansoddi'r nifer o gwynion ffurfiol fesul gwasanaeth fel a ganlyn:

| Gwasanaeth | Nifer y Cwynion ffurfiol |
|---|---|
| Cynllunio | 9 |
| Priffyrdd | 6 |
| Gwastraff | 12 |
| Bwrdeistrefol | 1 |
| Hamdden | 4 |
| Democratiaeth | 0 |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol *(tu allan i'r drefn statudol gwasanaethau cymdeithasol)* | 1 |
| Ymgynghoriaeth | 4 |
| Refeniw | 2 |
| Tai | 4 |
| Parcio | 7 |
| Trafnidiaeth | 4 |
| Eiddo | 2 |
| Trwyddedu | 5 |
| Etholiadau | 0 |
| Addysg | 2 |
| Budd-daliadau | 2 |
| Archwilio | 0 |
| Cefnffyrdd | 2 |
| Gwarchod y Cyhoedd | 5 |
| Datblygu'r Economi | 0 |
| Cofrestru | 3 |
| Cyswllt Cwsmer | 1 |
| Iaith | 1 |
| Incwm | 1 |
| Cyfreithiol | 1 |
| Morwrol | 2 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | 0 |

4.3 Dylid nodi nad yw'r nifer o gwynion y mae gwasanaeth yn ei dderbyn yn angenrheidiol yn arwydd o safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, ac na ellir ystyried y canlyniadau hyn ar ben eu hunain. Mae natur y gwasanaethau a ddarperir yn dylanwadu'n drwm ar y canlyniadau. Ymysg y ffactorau a all gael effaith ar y ffigyrau yw'r nifer o gysylltiadau uniongyrchol a geir gyda chwsmeriaid, proffil cyhoeddus y gwasanaeth neu os oes gan unigolyn ffyrdd ffurfiol eraill i unioni cam neu gyflwyno apêl. Fel sylw cyffredinol i osod cyd-destun rhaid dwyn mewn cof y nifer o gysylltiadau darparu gwasanaeth sydd rhwng y Gwasanaethau'r Cyngor a'r cyhoedd yn ddyddiol o'u cymharu â nifer cwynion.

4.4 Mae gwaith yn mynd rhagddo serch hynny,  i ddatblygu ffyrdd o ddadansoddi ymhellach natur y cwynion a dderbynnir er mwyn cael gwybodaeth fwy ystyrlon ynglŷn â safon y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd.

4.5 O dan y drefn newydd gellir monitro **amseroedd ymchwilio ac ymateb** i gwynion ffurfiol. Y targed i  ymateb yn ffurfiol yw 20 diwrnod gwaith.  Os na fydd hyn yn ymarferol, e.e. os yw'n gŵyn yn arbennig o gymhleth, eglurir y sefyllfa wrth yr  achwynydd.

| | **Dan 20 diwrnod** | **Dros 20 diwrnod** |
|---|---|---|
| Chwarter 1 | 21 | 7 |
| Chwarter 2 | 18 | 4 |
| Chwarter 3 | 12 | 3 |
| Chwarter 4 | 14 | 2 |
| **Cyfanswm** | **65** | **16** |

4.6 Gwelir felly bod 80% o ymchwiliadau wedi eu cwblhau o fewn yr amser targed dros y flwyddyn.  Er ei bod yn rhy gynnar i ddod i farn bendant, mae'r tuedd cyffredinol a welir uchod yn awgrymu bod y perfformiad o safbwynt ymateb yn brydlon yn gwella.

**5. Achosion Ombwdsmon**

5.1 Gall achwynydd gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon os nad yw'n fodlon gydag ymateb ffurfiol y cyngor.  Ceir crynodeb o'r ystadegau o adroddiadau blynyddol yr Ombwdsmon isod:

| | **2015/16** | **2014/15** |
|---|---|---|
| **Dim Ymchwiliad** | **23** | **24** |
| **Setliadau** | **4** | **3** |
| **Adroddiadau** | **2** | **1** |
| **Cyfanswm achosion a gaewyd** | **29** | **33** |

**6. Cynlluniau Gwella Gwasanaeth**

6.1 I gynorthwyo'r cyngor i ddysgu o gwynion sefydlwyd trefn lle bydd y Swyddog Gwella Gwasanaeth yn darparu Ffurflen Gwella Gwasanaeth i adran os yw o'r farn fod ymchwiliad i gŵyn wedi adnabod lle i wella gweithdrefnau er mwyn darparu gwell gwasanaeth. Bydd hi hefyd yn monitro cynnydd i sicrhau bod y camau'n cael eu gweithredu.

6.2 Dyma enghreifftiau o'r Cynlluniau a weithredwyd:

| Maes | Crynodeb o'r Gŵyn | Gwelliant i'r Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Cynllunio a Galw Gwynedd | Anhapus gyda'r drefn lle mae'n rhaid darparu gwybodaeth i Galw Gwynedd yn hytrach na medru cysylltu â'r Gwasanaeth Cynllunio. | Adolygiad o'r drefn yn cael ei gynnal yn sgil sawl cwyn am y drefn hon |
| Priffyrdd | Achwynydd yn teimlo nad oedd yn cael gwybod beth oedd yn digwydd gyda'i chwyn | Sefydlu gwell trefniadau ar gyfer diweddaru cwsmeriaid. |
| Gwastraff | Wrth ymchwilio i gŵyn am ddiffyg casglu biniau darganfuwyd bod yr unigolyn wedi cwyno sawl gwaith am yr un broblem. | Sefydlu trefn ar y system gyfrifiadurol rheoli cyswllt cwsmeriaid, i adnabod pan fydd unigolyn wedi cwyno sawl gwaith am yr un mater. |
| Cofrestru (Priodasau) | Dogfennaeth anghyflawn ac anghywir wedi ei gynnwys mewn pecyn seremonïau i gwpwl. | Adolygiad gan swyddog annibynnol o'r gwasanaeth o'r holl ddogfennaeth seremonïau.<br><br>Diwygiwyd y drefn goruchwyliaeth o fewn y gwasanaeth i sicrhau ansawdd ac adnabod gofynion hyfforddiant. |
| Cofrestru (Priodasau) | Methwyd cael mynediad i safle priodas. | Adolygu rhestrau cysylltiadau argyfwng.<br>Sefydlu trefn newydd o gadarnhau trefniadau ymlaen llaw gyda pherchnogion adeiladau.<br>Trefnu hyfforddiant priodol. |

| | | |
|---|---|---|
| Incwm | Rhybudd terfynol wedi ei anfon er bod yr unigolyn wedi talu'r anfoneb. | Sefydlu trefniant i wirio'r sefyllfa cyn anfon rhybudd o'r fath ac o dderbyn cadarnhad wrth wasanaethau eraill am daliadau sydd wedi eu derbyn. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Unigolyn yn methu talu am drwydded drwy 'chip and pin' yn Siop Gwynedd. | Roedd y broses o drefnu i ganiatáu taliad o'r fath eisoes wedi cychwyn ond ffurfiolwyd hyn drwy gynllun gwella gwasanaeth. |
| Gwarchod y Cyhoedd | Unigolyn yn parhau i dderbyn biliau busnes arall ynghyd â rhai ei hun er hysbysu'r gwasanaeth. | Y sefyllfa benodol wedi ei chywiro a chryfhau trefniadau i sicrhau nad yw'n sefyllfa sy'n codi eto. |
| Hamdden | Unigolion wedi cwyno nad oeddynt wedi cael gwybod am newidiadau yn y drefn ar gyfer talu am wersi nofio a gymnasteg. | Diwygiwyd geiriad y llythyrau safonol a anfonir. Rhoddwyd ad-daliad i'r cwsmeriaid a effeithiwyd gan y diffygion yn y cyfathrebu gwreiddiol. |

**7. Cyngor ac Arweiniad**

7.1 Mae gwaith wedi ei wneud ar gyflwyno'r drefn gan gynnig arweiniad a chyngor i adrannau. Hyd yn hyn, yn ogystal â'r cyngor a roddir ar achosion unigol, mae'r canlynol wedi ei gyflawni:

- Ymwelodd y Tîm Cydlynu Cwynion â phob tîm rheoli adrannol i gyflwyno'r drefn newydd
- Cynhaliwyd cyfarfod o bwyntiau cyswllt adrannol.
- Rhoddwyd cyflwyniad i'r Grŵp Uwch Reolwyr
- Cynhyrchwyd canllawiau ac arweiniad i staff - taflen ar ymarfer da wrth ymdrin ag achwynwyr, templedi ymateb enghreifftiol, arweiniad ar safon ymatebion

7.2 Bydd y gwaith yma'n parhau ac mae'r gweithgareddau canlynol eisoes ar y gweill:

- Cynnal cyfarfodydd gydag adrannau i gasglu adborth am weithrediad y drefn er mwyn ei gwella
- Adnabod lle mae angen datblygu sgiliau gofal cwsmer a threfnu hyfforddiant priodol
- Codi ymwybyddiaeth o'r drefn a'i hybu ymysg staff drwy ddefnyddio mewnrwyd y Cyngor
- Codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r drefn drwy'r Safle We a Newyddion Gwynedd

**8. Adborth gan achwynwyr**

8.1 Yn ogystal â derbyn sylwadau gan achwynwyr am safon y gwasanaeth a dderbyniwyd neu'r ffordd a ddeliwyd â'u cwynion, bydd y Swyddog Gwella Gwasanaeth hefyd yn cysylltu â sampl o achwynwyr i'w holi am eu profiad o ddefnyddio'r drefn.

8.2 Dyma enghreifftiau o'r ymatebion a gafwyd:

*"Mae'n bleser cael adrodd bod fy mhrofiad cyfan o ddod â'r broblem i sylw Cyngor Gwynedd a'r holl gamau dilynol wedi bod yn wych. Mae'r wefan newydd yn bleser i'w defnyddio; roedd yr ymateb yn gyflym, yn uniongyrchol ac yn gwrtais; cymerwyd camau yn gyflym, ac roedd y canlyniad terfynol yn rhesymegol ac yn rhesymol"* (Gwasanaeth Gwastraff)

*"Diolch am y diweddariad a'r newyddion positif – hyderaf y croesawir y newyddion...bod y Cyngor yn barod i ymdrin â'r mater hwn"*

*"Diolch yn fawr am sortio'r mater mor gyflym"* (Gwastraff)

*"Diolch am eich ymateb fore heddiw, rwyf wedi fy syfrdanu wrth weld pa mor gyflym yr ydych wedi ymchwilio i'r mater hwn."* (Swyddog Gwella Gwasanaeth, Gwasanaeth Gwastraff)

Yr achwynydd yn gwerthfawrogi galwad ffôn gan y swyddog a'i lythyr yn cadarnhau'r sgwrs. Yn llawer hapusach gyda'r sefyllfa ac am ddiolch i'r swyddog. (Tai)

Achwynydd yn ffonio i ddiolch am gysylltu ag ef ac ymdrin â'r mater mor sydyn a phroffesiynol (Safonau Masnachol, Swyddog gwella Gwasanaeth)

*"Diolch i'r adran goleuo stryd am gynnal gwasanaeth mor dda. "* (Bwrdeistrefol)

*"Diolch yn fawr am eich ymateb cyflym ac am ystyried fy nghwyn mewn ffordd mor sympathetig...Diolch i chi am gymryd diddordeb"* (Bwrdeistrefol)

*"Llongyfarchiadau i bawb gymerodd y drafferth i ateb mor brydlon i'm cwyn...buaswn yn ddiolchgar petai chwi yn medru anfon fy niolchiadau am yr ymatebiad ac am gynnwys yr atebion gan bawb.."* (Hamdden)

## 9. Casgliadau

9.1 Bu 2015/16 yn flwyddyn o sefydlu'r drefn newydd, gan barhau i'w datblygu wrth sicrhau ar yr un pryd bod cwynion unigol yn cael y sylw priodol.

9.2 Gan nad oedd trefn gofnodi gorfforaethol yn bodoli o dan y drefn gwynion flaenorol ni ellir edrych ar ffigyrau cymharol. Ni ellir 'chwaith dynnu gormod o gasgliadau o ffigyrau un flwyddyn yn unig. Serch hynny, gellir gweld wrth yr ystadegau chwarterol bod nifer y cwynion ffurfiol wedi bod yn lleihau. Mae'n debygol bod y pwyslais ar ymdrin â chwynion yn unol ag egwyddor y drefn o geisio datrysiad anffurfiol wedi cyfrannu at hyn. Hefyd ni ellir diystyru'r gwaith dyddiol sydd yn cael ei wneud gan y Tîm i hyrwyddo datrys cwynion fel rhan bwysig o ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'r dinesydd a chreu diwylliant sydd yn cynnal hyn.

9.3 Mae'r patrwm o amser ymateb hefyd yn galonogol rydym yn bendant o'r farn bod dyfodiad y Swyddog Gwella Gwasanaeth wedi cyfrannu'n helaeth at hyn. Nid oedd y swyddogaeth yma yn bodoli yn flaenorol. Mae'r ffaith bod swyddog penodol mewn lle sy'n sicrhau bod adrannau yn ymateb yn brydlon i gwynion, sy'n medru cynghori aelodau o'r cyhoedd a swyddogion ar weithrediad y drefn, ac adnabod cyfleoedd i ddatrys cwynion yn brydlon ac anffurfiol wedi profi'n fuddiol. Gwelwyd hefyd leihau'r amser a gymerir i ddarparu gwybodaeth i'r Ombwdsmon a'r gallu i ddarparu gwybodaeth fwy cyflawn mewn ymateb i ymholiadau gan ei swyddogion.

9.4 Bydd y gwaith o gynnig arweiniad a chymorth i wasanaethau yn parhau, gyda'r pwyslais ar sicrhau diwylliant lle bydd staff yn cael eu grymuso i ddatrys cwynion a chymryd cyfrifoldeb amdanynt.

9.5 Byddwn hefyd yn parhau gyda'r gwaith o ddatblygu dulliau o gasglu a dadansoddi gwybodaeth i alluogi'r cyngor i ddysgu gwersi wrth gwynion, gan gynnwys yr arfer da a adnabyddir o fewn y cyngor, er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn y modd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u darparu.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **27 Medi, 2016** |
| **TEITL YR EITEM** | **Adroddiad Blynyddol ar ymdrin â chwynion gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ar gyfer 2015-2016** |
| **PWRPAS** | **Cyflwyno trosolwg o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2015-16** |
| **AWDUR** | **Margaret Kenealy Jones, Rheolwr Cefnogi Gweithlu** |
| | |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Yn unol â Rheoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru)2014 a'r Rheoliadau Gweithdrefn Sylwadau (Cymru) 2014 ddaeth i rym ar 1 Awst, 2014, mae'n ofynnol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol gynhyrchu adroddiad blynyddol ar y modd ymchwilir i ac ymdrinnir â chwynion o fewn y gwasanaeth. Caiff yr adroddiad ei gynhyrchu gan y Swyddogion Gofal Cwsmer ar ran Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth ar y niferoedd a'r rhesymau dros y cwynion a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn ac i gynnwys datrysiad y rheiny gan y ddwy Adran - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hefyd yn cynnwys crynodeb o'r gwersi a ddysgwyd a'r camau a gymerwyd o ran y cwynion a dderbyniwyd.

## 2. Cyd-destun

2.1 Trwy gydol y flwyddyn y Swyddogion Gofal Cwsmer yn yr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth sy'n ymdrin â chwynion.

## 3. Hwylustod y Drefn Gwyno

3.1 Pan mae person yn cysylltu â Swyddog Gofal Cwsmer mae’n ymwneud ag anfodlonrwydd â gwasanaeth yr Adran ac mae’r dewis i wneud cwyn yn ddewis olaf gan amlaf ganddynt. Mae'r tîm yn canolbwyntio ar sicrhau hwylustod i'r Drefn Gwyno fel bod pobl yn ymwybodol o'u hawl i gael gwrandawiad. I'r diben hwn, caiff gwybodaeth ynglŷn â'r drefn gwyno gryn gyhoeddusrwydd ac mae ar gael mewn amrywiaeth o fformatau e.e. taflenni, ar-lein a fersiwn "hawdd i'w ddarllen". Mae'r holl wybodaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg fel bod yr achwynydd yn medru dewis yr iaith sydd orau ganddo ef/ganddi hi. Mae trefniadau amgen megis braille neu ieithoedd eraill ar gael. Mae eiriolaeth neu gefnogaeth arall ar gael i'r achwynydd yn ei h/iaith ddethol er mwyn cynorthwyo wrth i'r Drefn Gwyno fynd rhagddi. Mae taflenni gwybodaeth yn cael eu diwygio a'u diweddaru'n barhaus gan yr Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth.

| Iaith ddethol yr Achwynydd i wneud ymholiad/cwyn yn ystod 2015/2016 | | | |
|---|---|---|---|
| | **Cymraeg** | **Saesneg** | **Cyfanswm Cwynion** |
| Ymholiadau a Chwyn Anffurfiol | 53 | 94 | **147** |
| Cam 1 | 22 | 27 | **49** |
| Cam 2 | 0 | 0 | **0** |
| Ombwdsmon | 0 | 1 | **1** |
| Cwyn Corfforaethol | 4 | 2 | **6** |

## 4. Materion a gofnodwyd fel Ymholiadau

4.1 Y nod yw ymateb i bob cwyn gyda thegwch, didueddrwydd a pharch fel bod yr unigolyn yn hyderus y bydd ei gwyn yn derbyn ymdriniaeth broffesiynol a hynny mewn modd positif yn hytrach na negyddol. Yn aml, pan mae'r unigolyn yn dewis peidio â dilyn y Drefn Gwyno fe ymdrinnir â'r mater fel ymholiad neu gwyn anffurfiol. Enghraifft arall o hyn fyddai llythyr gan Aelod Seneddol neu Gynghorydd lleol sy'n dymuno mynegi anfodlonrwydd neu sydd angen ateb penodol i gwestiwn.

4.2 Trwy ymateb yn bositif yn ystod y camau cynnar hyn gall rhai materion gael eu datrys yn effeithiol heb fod angen y Drefn Gwyno am fod dewis i ymdrin ag unrhyw gamddealltwriaeth neu ymateb i ymholiadau. Heb os, dyma'r canlyniad gorau i bawb.

| **TABL 1.** | **Ymholiadau a Chwynion Anffurfiol a dderbyniwyd 2015-2016** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Oedolion* | *Darparwr* | *Plant a Theuluoedd* | *Busnes* | *Tai* | *Darparwr Allanol* | *Traws wasanaeth* | **Cyfanswm** |
| *Cyfreithwyr* | 6 | | 5 | 2 | | | 1 | 14 |
| *Ombwdsmon* | | | 1 | | | | | 1 |
| *Aelodau lleol* | 7 | 1 | | 1 | | | | 9 |
| *Aelodau Seneddol neu Aelodau Cynulliad* | 12 | 2 | 7 | 2 | 1 | 1 | | 25 |
| *Defnyddwyr* | 7 | | 3 | | | 1 | | 11 |
| *Perthynas* | 26 | 8 | 19 | 4 | | 1 | | 58 |
| *Y Cyhoedd* | 9 | 1 | 5 | 1 | | 2 | 1 | 19 |
| *Gofalwr Maeth* | | | 1 | | | | | |
| *Asiant Arall* | 7 | | | | | | | 7 |
| *Ymgeiswyr Mannau Parcio Anabl* | 1 | | | | | | | 1 |
| *Siroedd eraill* | | | | | | | | |
| *Gweithiwr Cymdeithasol* | | | | | | | | |
| *Comisiynydd Pobl Hŷn* | | | | | | | | |
| *Comisiynydd yr Iaith* | | | | | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *Gymraeg* | | | | | | | | |
| *Comisiynydd Gwybodaeth* | | | | | | | | |
| *Darparwr* | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **76** | **12** | **41** | **10** | **1** | **5** | **2** | **147** |

## 5. Cam 1 - Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol - Datrysiad Lleol

5.1 Gwneir pob ymdrech i ddatrys y gŵyn fel bod yr achwynydd a'r Gwasanaeth yn fodlon. Yn amlwg, datrysiad yw'r canlyniad gorau i bawb a gellir cyflawni hyn trwy fuddsoddi amser ac ymdrech yn gynnar. Os yw'r achwynydd, fodd bynnag, yn penderfynu gwneud cwyn ffurfiol, y drefn arferol yw cysylltu dros y ffôn neu wyneb yn wyneb â'r achwynwyr neu gynrychiolydd er mwyn ceisio datrys y mater. Dros y blynyddoedd, mae'r Swyddogion Gofal Cwsmer wedi llwyddo i sefydlu cysylltiadau gweithio clos gyda'r timau, rheolwyr a'r adain gyfreithiol fel modd o drafod a datrys materion a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y nifer fechan o gwynion sy'n cyrraedd Cam 2 yn y Drefn Gwyno.

## 6. Cam 2 - Trefn Gwyno Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol - Ymchwiliad Ffurfiol

6.1 Trwy ddilyn yr egwyddor o ganolbwyntio ar ddatrysiad buan a lleol yn llwyddiannus ac ar ymdrin â materion yn gyflym ac effeithiol, mae'r angen i gyrraedd Cam 2 - Ymchwiliad Ffurfiol o'r Drefn Gwyno er mwyn datrys anghydfod/anawsterau/materion wedi gostwng. Deallir fod Gwynedd yn ennill y blaen ar hyn ledled gogledd Cymru sy'n adlewyrchiad o ymroddiad y Swyddogion Gofal Cwsmer i'r mater hwn.

## 7. Cwyn wedi ei throsglwyddo i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus

7.1 Os nad yw cwyn yn cael ei datrys yng Ngham 2 yna mae gan yr achwynydd hawl i gwyno i Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus dros Gymru neu Gomisiynydd yr Iaith Gymraeg neu'r Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn dibynnu ar natur y gŵyn.

7.2 Cafwyd 2 ymchwiliad Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd yr ymchwiliad cyntaf yn ystod ail chwarter y flwyddyn am yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Cynhaliwyd trafodaethau rhwng yr Ombwdsmon a nifer o Reolwyr perthnasol yn yr Adran ar y ffôn; yn dilyn hyn, penderfynodd na fyddai'n archwilio'r cwyn. Roedd yr ail ymholiad yn ymwneud â'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Ar ôl darparu tystiolaeth bellach i'r Ombwdsmon ynglŷn â'r gŵyn, penderfynodd yr Ombwdsmon i archwilio elfennau penodol o'r gŵyn. Nid yw canlyniad ymchwiliad yr Ombwdsmon wedi'i dderbyn eto.

| TABL 2 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 2015-2016 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Oedolion* | *Darparwr* | *Plant a Theuluoedd* | *Busnes* | *Tai* | *Darparwr Allanol* | *Traws wasanaeth* | **Cyfanswm** |
| *Cam 1* | 18 | 9 | 14 | 4 | | 1 | 3 | 49 |
| *Cam 2* | | | | | | | | |
| *Ombwdsmon* | 1 | | | | | | | 1 |
| **Cyfanswm** | **19** | **9** | **14** | **4** | | **1** | **3** | **50** |

## 8. Ymlyniad at Amserlen Ymateb y Drefn Gwyno Statudol

8.1 Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i ddarparu gwybodaeth ar y modd y mae'n archwilio ac ymdrin â chwynion o fewn yr amserlen a nodwyd yn y Canllaw a'r Rheoliadau.

**TABL 3 Trefn Gwyno Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol Perfformiad Ymateb 2015-2016**

| **Cam 1** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *Cwynion a dderbyniwyd cyn pen 12 mis i'r digwyddiad* | *Cwynion a dderbyniwyd 12 mis ar ôl y digwyddiad* | *Wedi'i gydnabod o fewn 2 ddiwrnod* | *Trafodaeth i gael ei ddatrys cyn pen 10 diwrnod* | *Penderfyniad wedi ei gyhoeddi pen 5 diwrnod* | *Amser ymateb wedi'i ymestyn* | *Cyfartaledd dyddiau wedi eu hymestyn* |
| 49 | 0 | 49 | 38 | 42 | 11 | 10 |

| **Cam 2** | | | |
|---|---|---|---|
| ***Nifer a gydnabuwyd mewn 5 diwrnod*** | *Nifer o ymatebion a dderbyniwyd mewn 25 diwrnod gwaith* | *Nifer wedi'u gohirio dan amgylchiadau eithriadol* | *Nifer a gyflawnwyd mewn 6 mis* |
| 0 | 0 | 0 | 0 |

## 9. Trefn Gwyno Cyngor Gwynedd

9.1 Ymdrinnir â rhai materion sydd y tu hwnt i orchwyl Trefn Gwyno'r Gwasanaethau Cymdeithasol o dan Bolisi Cwynion Corfforaethol Gwynedd. Mae gwaith arall yr Adran yn rheswm am y cwynion hyn e.e. materion Tai. Nid yw holl gwynion yn cyrraedd sylw'r Swyddogion Gofal Cwsmer gan y bydd rhai, efallai, wedi eu cyfeirio at y gwasanaeth yn uniongyrchol.

9.2 Dyma enghreifftiau o gwynion cyffredinol:- cymydog yn cwyno am y modd y mae darparwr gofal wedi parcio ei g/char; aelod o'r cyhoedd yn cwyno am benderfyniad y Gwasanaeth Tai sy'n dweud nad ydynt yn gymwys am gartref cymdeithasol; perchennog tŷ preifat yn gofyn am gyngor ar wres canolog a thrwsio boeler.

| TABL 4 Trefn Gwyno Gorfforaethol - Cwynion a dderbyniwyd 2015-2016 | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | *Oedolion* | *Darparwr* | *Plant a Theuluoedd* | *Busnes* | *Tai* | *Darparwr Allanol* | *Traws wasanaeth* | **Cyfanswm** |
| | | | | | | | | |
| *Cam 1* | 2 | | 1 | 2 | 1 | | | **6** |
| *Cam 2* | | | | | | | | |
| *Ombwdsmon* | | | | | | | | |
| **Cyfanswm** | **2** | | **1** | **2** | **1** | | | **6** |

## 10. Dysgu Gwersi ac Adnabod Tueddiadau - gweler Atodiad 1

10.1 Cyflwynir adroddiad chwarterol i gyflwyno'r modd yr ymdrinnir â chwynion i Dîm Rheoli'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ac i Bennaeth yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd. Mae hwn yn gyfle i ddadansoddi pob cwyn ac i drafod a dysgu er mwyn gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig ganddynt.

10.2 Mae'r ddau Dîm Rheoli'n cynnwys y gwersi a ddysgwyd yn eu cynlluniau gwaith diwygiedig ac fe gaiff unrhyw anghenion hyfforddiant eu hadnabod.

10.3 **Tueddiadau Cwyno - Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

10.3A **Disgwyliadau Rheini** – Mae patrwm blynyddoedd blaenorol wedi parhau, sef cwynion yn deillio o'r gwahaniaeth rhwng disgwyliadau rhieni a'r hyn mae'r Gwasanaeth yn ei ddarparu o fewn ei gyfrifoldebau. Gan amlaf, mae hyn yn codi ym maes amddiffyn plant ble mae anfodlonrwydd o ran gweithrediad a phenderfyniad gan y Gwasanaeth o ran achosion eu plant. Mae hyn wedyn yn arwain at gwynion am aelodau unigol o staff sy'n cynrychioli'r Gwasanaeth. Yn aml, mae'r cwynion hyn hefyd yn cynnwys cwyn am agwedd y gweithiwr ond mae'r ymchwiliadau i'r cwynion gan amlaf yn canfod bod y Gweithiwr a'r Gwasanaeth wedi gweithredu'n briodol ac yn unol â deddfwriaeth.

> *<u>Enghraifft</u>* - Tad wedi cysylltu trwy lythyr nad oedd yn fodlon bod ei ferch wedi cael ymweliad gan Weithiwr Cymdeithasol heb ei ganiatâd ef. Nododd hefyd fod y Gwasanaeth wedi ei labelu ef mewn llythyr fel person oedd yn beryglus i'w ferch. Roedd y tad am i'r wybodaeth hon gael ei newid a'i dileu ar unwaith. Ymatebodd y Gwasanaeth gan egluro'r sefyllfa'n llwyr i'r tad; bod ganddynt hawl i ymweld â'i ferch yn ddiarwybod iddo ef os oedd angen gwneud asesiad diduedd. Edrychodd y Gwasanaeth ar y system hefyd ac ni ellid canfod unrhyw wybodaeth wedi'i gofnodi fod y tad yn berson peryglus i'w ferch. Yn dilyn yr eglurhad cyflawn hwn roedd y tad yn fodlon ac yn deall y rhesymau dros yr ymweliad. Caewyd y gŵyn.

10.3b **Achwynwyr** - Yn ystod y flwyddyn hon rydym wedi derbyn nifer o gwynion gan yr un unigolion. Bydd yr unigolion dan sylw yn derbyn ymateb ac yn dychwelyd mewn rhyw bythefnos gyda mater ychydig yn wahanol y maent yn dymuno i ni ymdrin ag ef. Byddant hefyd yn cysylltu, trwy ddulliau eraill, er enghraifft, Gyfreithiwr neu'r Aelod Seneddol Lleol.

> *<u>Enghraifft</u>* - Mae rhiant wedi cysylltu'n uniongyrchol ynglŷn â'r nifer o

oriau o waith cefnogol mae ei mab yn ei dderbyn. Am ei bod yn anfodlon gyda'r ymateb, cysylltodd â'i Chyfreithiwr a'i AS Lleol. Yn yr achos hwn, am mai dim ond yn ddiweddar oedd y Gwasanaeth wedi cael Mynediad at y plentyn dan sylw, nid oeddent wedi medru cynhyrchu asesiad anghenion cynhwysfawr ac felly roedd yr oriau a gytunwyd arnynt yn ystod cyfnod yr haf yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwyd gan y rhiant yn uniongyrchol. Mae'r Gwasanaeth wrthi'n gweithio gyda'r teulu i gyflawni asesiad cynhwysfawr o anghenion y plentyn er mwyn canfod faint o gefnogaeth sydd ei angen. Mae hwn wedi ei gau fel cwyn a bellach yn fater gweithredol sy'n cael ei fonitro gan Uwch-reolwyr.

10.3c **Darpariaeth Gwasanaeth** - Yn ystod y flwyddyn hon rydym wedi derbyn nifer o gwynion ynglŷn â'r Ddarpariaeth Gwasanaeth. Rhieni'n anfodlon nad ydynt yn derbyn unrhyw gefnogaeth gan yr Adran.

*Enghraifft* - Rhiant yn cwyno nad yw'n derbyn unrhyw gefnogaeth gan yr Adran, y rhiant wedi cael cyfarfod gyda'r Rheolwr Gwasanaeth a'r Seicolegydd Clinigol i drafod y gŵyn. Yn anffodus, yn yr achos hwn nid oedd y plentyn yn diwallu'r meini prawf i dderbyn y Gwasanaeth, ac mae'r gŵyn wedi ei chau. Enghraifft arall yw tad yn cwyno nad yw'r Gwasanaeth wedi canfod lleoliad addas ar gyfer ei ferch. Roedd y rhiant dan sylw wedi cael cyfarfod gyda'r Uwch Rheolwr Gweithredol - Adnoddau, y Gweithiwr Cymdeithasol a chynrychiolydd o'r Adran Addysg. Yn ystod y cyfarfod hwn, roedd y rhiant yn medru trafod ei holl bryderon ac roedd y Gwasanaeth yn medru rhoi ymateb iddo yn y fan a'r lle. Roedd wedi bod yn anodd canfod lleoliad maeth addas oedd yn medru diwallu anghenion ei ferch yn llwyr. Yn ystod y cyfarfod roedd y Gwasanaeth yn medru rhoi gwybod i'r tad bod lleoliad addas wedi ei adnabod. Ar ôl y cyfarfod, roedd y rhiant yn fodlon gyda'r casgliad a chaewyd y gŵyn.

10.4 **Tuedd Cwynion - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant**

10.4a **Diffyg darpariaeth Gofal Cartref yn ardal De Meirionnydd -** Yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod chwarteri 1 i 3, derbyniasom nifer o gwynion ac ymholiadau gan Ddefnyddwyr Gwasanaeth, Perthnasau ac Aelodau Lleol/Aelodau Seneddol ynglŷn â'r anawsterau oedd rhai defnyddwyr gwasanaeth wedi eu cael wrth ganfod darpariaeth Gofal Cartref yn ardal De Meirionnydd. Roedd ardal Tywyn yn hynod broblemus ac roedd yn cynnwys anawsterau honedig o ran rhyddhau'r cleifion o Ysbyty Tywyn yn hwyr oherwydd diffyg argaeledd Gofal yn y Cartref.

*Enghraifft* **–** Ar ddiwedd chwarter 3, roedd yr ymholiadau a'r cwynion a dderbyniwyd ynglŷn â'r mater hwn yn ddigon difrifol i gael eu trosglwyddo i'r Uwch Reolwr Busnes yn ystod cyfarfod o’r Tîm Rheoli’r Adran. Ers diwedd chwarter 3, nid ydym wedi derbyn unrhyw gwynion nac ymholiadau pellach ar y mater o ran Gofal Cwsmer.

10.4b **Materion Cyfathrebu ac Ymgysylltu yn yr Adran** - Derbyniwyd nifer o ymholiadau a chwynion gan deuluoedd ac Aelod Seneddol Lleol defnyddwyr

gwasanaeth sy'n mynychu'r Gweithdy Manton. Roeddent yn cwyno am y modd y cafodd y penderfyniad i roi'r gorau i ddefnyddio'r safle presennol ei gyfleu iddynt ac am y diffyg ymgysylltu gyda'r Defnyddwyr Gwasanaeth a'u teuluoedd. Derbyniwyd nifer o gwynion hefyd o ran y newidiadau a wnaed i becynnau gofal unigol gafodd eu hasesu gan y Tîm Anabledd Dysgu, ac am y cyfathrebu gwael wrth egluro sut daethpwyd i'r penderfyniadau hyn. Roedd cwynion gan amlaf yn ymwneud â'r gostyngiad mewn oriau wythnosol i ddefnyddwyr gwasanaeth unigol a'r modd yr oedd y newidiadau hyn wedi cael eu hasesu. I ymateb mae'r Adran wrthi'n cynnal adolygiad ar hyn o bryd am y ffordd y mae'r Adran yn cysylltu â rhanddeiliaid am newidiadau sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth.

10.4c **Pryderon ynglŷn â gofal mewn Cartrefi Gofal dan reolaeth yr Uned Ddarparu -** Derbyniwyd nifer o bryderon a chwynion, gan berthnasau Defnyddwyr Gwasanaeth gan amlaf, ynglŷn â rhai agweddau o'r gofal a ddarperir mewn sefydliadau dan reolaeth yr Uned Ddarparu. Cynyddodd nifer y cwynion yn y maes hwn yn ystod 2015/16, gyda 9 chŵyn wedi'u derbyn o'i gymharu â 4 yn ystod 2014/15.

> *<u>Enghraifft</u> - Cwynodd perthynas bod y Defnyddiwr Gwasanaeth heb gael ei meddyginiaeth gywir pan oedd yn derbyn gofal ysbaid mewn un o gartrefi gofal y Cyngor. Ni sylweddolodd ar hyn nes i'r Defnyddiwr Gwasanaeth ddychwelyd adref a'r berthynas yn gwirio ei meddyginiaeth. Cychwynnodd yr Uwch Reolwyr ar ymchwiliad mewnol i'r digwyddiad ar unwaith. Canlyniad hyn oedd i'r gweithdrefnau ar gyfer cofnodi a gweinyddu meddyginiaeth yn y cartref gael eu hadolygu a rhybuddiwyd y staff oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad o ran eu hymddygiad i'r dyfodol. Derbyniodd y berthynas ymateb ysgrifenedig i'w g/chwyn, oedd yn cynnwys ymddiheuriad llawn ac eglurhad am amodau ehangach y digwyddiad. Roedd y llythyr hefyd yn cynnwys manylion yr ymchwiliad dilynol ac yn rhoi sicrhad i'r achwynydd fod camau wedi eu cymryd i sicrhau y byddai digwyddiad o'r fath yn llai tebygol o ddigwydd eto.*

## 11. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth i Staff

11.1 Rhan bwysig o ddyletswydd Gofal Cwsmer yw darparu hyfforddiant i staff o ran y Drefn Gwyno fel bod staff yn llwyr ymwybodol o'r drefn ac yn hyderus ynglŷn â'u rôl nhw ynddo. Er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant bydd darpariaeth yn symud o'r sesiwn gweithdy traddodiadol i Fodiwl e-ddysgu. Dylai hyn hwyluso pethau a lleihau'r costau sy'n gysylltiedig â chynnal sesiynau traddodiadol. Y gobaith yw cyflwyno hyn yn ystod misoedd yr haf.

## 12. Dyletswyddau Eraill

12.1 Mae'r Uned Gofal Cwsmer a Gwybodaeth nid yn unig yn ymdrin â chwynion ac ymholiadau ond hefyd gyda cheisiadau am wybodaeth yn unol â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998. Caiff y ceisiadau hyn eu gwneud gan yr Heddlu, Cyfreithwyr, Awdurdodau Lleol yn ogystal ag

unigolion. Yn unol â'r Deddfau hyn mae amserlenni penodol i lynu atynt. Mewn nifer o achosion mae amgylchiadau'r ceisiadau hyn yn ymwneud â gwybodaeth o ran gwaith plant sy'n cymryd llawer iawn o amser. Mae penderfynu pa wybodaeth sy'n briodol i gael ei ryddhau yn waith sy'n gofyn am fedrusrwydd a gall fod yn her emosiynol ar brydiau. Mae swyddogaeth yr Uned o ran ymdrin â cheisiadau am wybodaeth, fel amlinellwyd uchod, yn gofyn i staff dreulio oriau maith ar rai o'r ceisiadau mwy cymhleth yr ydym yn eu derbyn. Mae hyn yn golygu bod nifer sylweddol o oriau staff yn cael eu defnyddio i sicrhau bod y ceisiadau am wybodaeth yn cael eu hateb ymhen yr amser penodedig.

| TABL 5. Cais am wybodaeth yn ystod 2015-16 | |
|---|---|
| Ceisiadau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 | **184** |
| Ceisiadau Deddf Diogelu Data 1998 | **171** |

## 13. Mynegi Diolch - gweler Atodiad 2

13.1 Mae hefyd yn bwysig cydnabod a chofnodi'r diolchiadau sydd wedi eu derbyn gan ein defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd.

**TABL 6. Mynegi Diolch yn ystod 2015-2016**

| *Oedolion* | *Darparwr* | *Plant a Theuluoedd* | *Busnes* | *Tai* | *Darparwr Allanol* | *Traws wasanaeth* | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 25 | 46 | 94 | 2 | 0 | 1 | 0 | **168** |

## 14. Cynllun Gwaith ar gyfer 2016-2017

14.1 Creu a chyflwyno cwrs rhagarweiniol ar y Drefn Gwyno ar gyfer staff ar bob lefel gan ddefnyddio'r Modiwl e-ddysgu a pharhau i gynnig hyfforddiant trwy ddulliau arferol i'r sawl sydd heb D.G. Ymgysylltu â'r sector breifat a'u diweddaru trwy'r Fforwm Partneriaeth ar y Cyd ynglŷn â'r datblygiad hwn.

14.2 Adolygu pob taflen wybodaeth a Pholisi i sicrhau ymlyniad â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 a Strategaeth Mwy na Geiriau a pharhau i ddatblygu fersiynau Hawdd i'w Darllen.

14.3 Datblygu tudalen Facebook ar gyfer y Gwasanaeth Maethu a Rhieni Maeth er mwyn gwella cyfathrebu.

14.4 Datblygu a gwella gwybodaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ar wefan y Cyngor.

14.5 Datblygu'r system TG RESPOND i wella'r modd caiff y gwersi a ddysgwyd eu monitro a'u rhoi ar waith yn dilyn cwyn.

14.6 Parhau i wella Cylchlythyr Newyddion yr Adran i staff a dechrau cynnwys diweddariadau ar y Drefn Gwyno, Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth.

ATODIAD 1 – ENGHREIFFTIAU O GWYNION A SYLWADAU YN YSTOD 2015/16

| Cyf | Disgrifiad byr | Categori | Cam | Uned / Tîm | Deilliannau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | | | |
| GC/2975-15 | Rhiant eisiau cwyno am nad oedd y Gwasanaeth wedi cysylltu â hi fel addawyd. Hefyd eisiau achwyn nad oedd yn mynd i dderbyn gwasanaeth am nad oedd ei mab yn bodloni'r meini prawf. | Darpariaeth Gwasanaeth Perfformiad Staff | Cwyn Cam 1 | Gwasanaeth Derwen | Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Gwasanaeth, y Bwrdd Iechyd, a'r achwynydd i drafod yr holl faterion. Olynwyd hyn gan lythyr i gadarnhau'r hyn a drafodwyd ac mae'r Rheolwr Gwasanaeth yn cadw llygad ar y sefyllfa. Y gŵyn wedi ei chau. Barn y Tîm Rheoli yw bod gan rieni yn aml farn gref o ran hawl i wasanaeth ac felly bod ganddynt ddisgwyliadau mawr. Mae'n ddealladwy eu bod efallai eisiau cwyno pan nad yw eu disgwyliad yn cael ei fodloni. |
| GC/2587-15 | Rhiant eisiau gwneud cwyn swyddogol ynglŷn ag ymddygiad ac agwedd y Gweithiwr Cymdeithasol. Teimlo bod y Gweithiwr Cymdeithasol yn codi ei llais yn ddianghenraid. | Perfformiad Staff | Cwyn Cam 1 | Tîm Plant | Ceisiodd yr Arweinydd Tîm gysylltu â'r rhiant ar sawl achlysur i geisio trafod ei chŵyn. Yn anffodus, nid oedd wedi llwyddo i gysylltu â hi dros y ffôn; felly anfonodd yr Uwch Reolwr lythyr yn llwyr egluro'r sefyllfa. Mae'r Rheolwr Tîm wedi mynd ar ôl hyn ac yn deall fod y rhiant yn gweithio'n dda gyda'r Gweithiwr Cymdeithasol erbyn hyn.<br>Barn y Tîm Rheoli yw ei bod yn medru bod yn anodd ymateb i'r mathau hyn o gwynion am fod gwahaniaeth rhwng yr hyn y mae'r rhiant yn credu sydd wedi digwydd ac adroddiadau'r gweithiwr cymdeithasol. |
| GC/2640-15 | Tad wedi cysylltu i wneud cwyn yn erbyn Gweithiwr Cymdeithasol. Ddim yn teimlo ei fod ef yn cael yr holl wybodaeth a bod y fam yn derbyn yr holl wybodaeth. Hefyd yn teimlo nad yw'r Gweithiwr Cymdeithasol yn gweld pethau o'i safbwynt o ac yn teimlo bod ei blant yn dioddef o'r herwydd. | Perfformiad Staff | Cwyn Cam 1 | Tîm Derbyn | Cysylltodd y Rheolwr Tîm â'r tad ar y ffôn, gwrandawodd ar ei bryderon a chafwyd trafodaeth hir. Deallodd y tad fod y Gwasanaeth yn ystyried ei safbwynt o ac roedd yn fodlon ar ôl cael y sgwrs. Nid oedd yn dymuno mynd â'i gŵyn ymhellach. Anfonodd y Gwasanaeth lythyr ato'n cadarnhau'r drafodaeth ar y ffôn er mwyn cau'r gŵyn.<br>Gallai'r Tîm Rheoli weld bod y gŵyn hon yn pwysleisio'r pwysigrwydd o rannu gwybodaeth gyda'r ddau riant a'r anawsterau a'r heriau sy'n wynebu gweithwyr cymdeithasol wrth reoli rhieni pan fônt wedi gwahanu a'r modd y mae hyn yn effeithio eu plant. |
| GC/3027-15 | Rhiant eisiau gwneud cwyn swyddogol yn erbyn Gweithiwr Cymdeithasol. Ddim yn teimlo fod y Gweithiwr Cymdeithasol yn gwneud ei gwaith; teimlo bod ei | Perfformiad Staff | Cam 1 | Tîm 16+ | Trafododd y Gweithiwr Cymdeithasol y mater gyda'r teulu. Eglurodd ei bod yn drwm ei chlyw mewn un glust, canlyniad hyn yw ei bod yn codi ei llais ar brydiau heb sylweddoli. Roedd y teulu'n fodlon yn dilyn yr eglurhad hwn ac fe ddatryswyd y gŵyn.<br>Gallai'r Tîm Rheoli weld fod cyfathrebu'n elfen annatod o'r gwaith. |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | llais yn ymosodol iawn a'i bod yn codi ei llais. | | | | Yn arbennig mewn achosion cymhleth ble mae unigolion yn bryderus ac yn anghytuno, o bosib, gyda'r ymyriadau. |
| GC/2917-15 | Gwnaed y gŵyn hon trwy eiriolwr; unigolyn ifanc ar fin geni babi oedd yr achwynydd. Roedd eisiau cwyno ynglŷn â chynhadledd achos diweddar; nid oedd y Gweithiwr Cymdeithasol wedi rhoi gwybod iddi am ddyddiad ac amser y gynhadledd mewn da bryd. Hefyd, dim ond awr cyn y cyfarfod oedd yr adroddiad ar gael i'w ddarllen. | Perfformiad Staff Darpariaeth Gwasanaeth | Cwyn Cam 1 | Tîm Plant | Gan fod yr achwynydd yn dynesu at ddiwedd ei beichiogrwydd, dywedodd y Rheolwr Tîm y byddai'n ymweld â hi unwaith oedd y babi wedi ei eni i drafod ei chwyn. Sgwrsiodd y Rheolwr Tîm â'r achwynydd a chanfod ei bod yn fodlon ac nad oedd eisiau mynd ati gyda'i chŵyn o gwbl.<br>Anfonodd y Rheolwr Tîm lythyr at yr achwynydd trwy'r gwasanaeth eirioli yn cadarnhau y byddem yn cau'r gŵyn ond, gan nodi, pe byddai'n dymuno ail-agor ei chŵyn yn y dyfodol y byddai'r Rheolwr Tîm yn fwy na bodlon ymweld â hi i drafod y materion gyda hi'n uniongyrchol.<br>***Gallai'r Tîm Rheoli weld pwysigrwydd sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn gyfarwydd â'r AWCPP (Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan) o ran cynadledda achos, disgwyliadau ac amserlenni a bod yn ymwybodol o ardrawiad penderfyniadau ar unigolion.*** |
| GC/2741-15 | Person Ifanc eisiau gwneud cŵyn. Teimlai fod celwyddau'n cael ei ddweud wrtho o hyd o ran pa mor hir fyddai'n rhaid iddo aros cyn symud lleoliad. Roedd am i'r Gweithwyr Cymdeithasol ddweud y gwir wrtho o'r cychwyn. | Perfformiad Staff | Cam 1 | Tîm Plant | Anfonwyd llythyr ar ei union i'r person ifanc gan yr Uwch Reolwr Gweithredol yn egluro'r sefyllfa'n llwyr iddo. Yn y llythyr, nodwyd fod croeso iddo gysylltu â'i Weithiwr Cymdeithasol unrhyw bryd os oedd cwestiynau ganddo.<br>Gallai'r Tîm Rheoli weld budd sicrhau bod y Plant a Phobl Ifanc yn teimlo fod llwybr iddynt i fynegi eu pryderon a sicrhau bod y Plant a Phobl Ifanc yn rhan weithredol o bob agwedd o gynllunio eu gofal, a'u bod, ar yr un pryd, yn realistig ynglŷn â beth sy'n bosib. |
| GC/2297-15 | Gwnaeth y Person Ifanc mewn gofal gŵyn trwy ei eiriolwr. Roedd eisiau parhau i fyw yng Ngwynedd fel bod modd iddo annog cyswllt gyda'i deulu a'i gyfeillion yn yr ardal. | Darpariaeth Gwasanaeth | Cam 1 | Tîm Plant | Anfonwyd llythyr at y person ifanc trwy'r eiriolwr yn egluro'r sefyllfa gyfredol. Roedd yn sefyllfa anodd iawn ac roedd gan yr Adran ddyletswydd i wneud penderfyniad er pennaf les yr unigolyn. Roedd yr Adran yn mynd i drefnu i'r Rheolwr Tîm ymweld â'r unigolyn yn ei leoliad; fodd bynnag, cysylltodd yr eiriolwr â'r Adran yn datgan bod y person ifanc yn fodlon yn y lleoliad ac nad oedd yn dymuno cwyno ymhellach. Felly, caewyd y gŵyn.<br>Teimlai'r Tîm Rheoli fod rôl y Swyddog Adolygu Annibynnol yn allweddol i sicrhau fod pawb yn gweithio tuag at yr un amcanion a |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | gellid gweld hyn yn yr achos hwn. |
| **Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** | | | | | |
| GC/2531-15 | Person Hŷn am fynegi ei farn nad oedd y gwasanaeth gofal yn y cartref yr oedd wedi ei dderbyn gan ein Darparwr Mewnol yn cyrraedd y safonau disgwyliedig. O ganlyniad, gwnaed cais i ddiddymu'r ffioedd am y gwasanaeth. | Perfformiad Staff / Arianol | Cam 1 | Darparwr Uned / Uned Incwm a Llesiant | Anfonwyd llythyr at yr achwynydd gan y Rheolwr Gwasanaeth yn egluro safbwynt yr Adran nad oedd y gwasanaeth a dderbyniodd islaw'r safonau a bod tâl yn ddyledus. Ymwelodd y Swyddog Gofal Cwsmer ac Uwch Weithiwr Cymdeithasol â'r achwynydd ar ei gais ef er mwyn trafod y mater ymhellach. Derbyniwyd tâl cyflawn yn dilyn yr eglurhad a roddwyd yn y cyfarfod. |
| GC/2734-15 | Teulu Person Hŷn wedi gwneud cwyn am ddamwain honedig a ddigwyddodd yng nghartref y Person Hŷn pan oedd gofalwr y Darparwr Mewnol yn bresennol. O ganlyniad i'r digwyddiad, anfonwyd y Person Hŷn i'r ysbyty am gyfnod estynedig ac mae bellach yn byw mewn cartref nyrsio. Y teulu'n gofyn i'r Person Hŷn beidio â chyfrannu'n ariannol tuag at gostau ei ofal yn y cartref nyrsio am eu bod hwy o'r farn fod bai ar y Cyngor ac y byddai'n dal gartref petai'r digwyddiad heb ddigwydd. | Perfformiad Staff | Cam 1 | Uned Ddarparu | Cafwyd ymchwiliad i'r mater gan Dîm Iechyd a Diogelwch y Cyngor ac maent hwy wedi casglu na ellir pennu union amgylchiadau'r digwyddiad. Felly, ni all y Cyngor dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am y digwyddiad. Llythyr wedi ei anfon at yr achwynydd i egluro safbwynt y Cyngor. |
| GC/2939-15 | Achwynodd teulu'r Defnyddiwr Gwasanaeth sy'n mynychu Gweithdy Manton yng Nghaernarfon, am y modd y dewisodd yr Adran gyfleu'r penderfyniad i gau'r adeilad presennol wrth y teuluoedd | Cyfathrebu | Cam 1 | Tîm Anableddau Dysgu (Oedolion) | Llythyr wedi ei anfon gan Bennaeth y Gwasanaeth i egluro'r amgylchiadau a arweiniodd at ddod â defnydd yr adeilad Manton i ben ac i ymddiheuro am y modd y cafodd y penderfyniad ei gyfathrebu.<br><br>Mae adolygiad pwysig, a gweithredu canlynol, am y modd y mae'r Adran yn cysylltu â rhanddeiliaid am newidiadau sylweddol yn |

Tud. 56

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | perthnasol. | | | | narpariaeth y gwasanaeth ar droed ac yn mynd rhagddo ar hyn o bryd. |
| GC/2656-15 | Person Hŷn o Dde Meirionnydd eisiau cwyno fod y cynnydd yn yr oriau o ddarpariaeth gofal yn y cartref heb eu gweithredu oherwydd diffyg slotiau amser o ganlyniad i brinder staff. | Darpariaeth Gwasanaeth | Cam 1 | Tîm Pobl Hŷn / Comisiynu | Llythyr wedi ei anfon gan Uwch Reolwr Busnes i egluro fod darpariaeth gofal yn y cartref yn ardal ddaearyddol y Person Hŷn yn brin ac i sicrhau bod ei hachos hi wedi'i flaenoriaethu. |
| GC/2977-15 | Aelod o'r teulu eisiau cwyno ar ran ei rhiant am asesiad anghenion a wnaeth y Swyddog Galluogi. O ganlyniad i'r asesiad, penderfynwyd nad oedd y rhiant yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer gosod lifft gadair a bod gwybodaeth anghywir wedi ei rhoi ynglŷn ag amodau cymhwyso Lwfans Gweini. | Mynediad at wasanaethau | Cam 1 | Tîm Pobl Hŷn | Llythyr gan y Rheolwr Ardal i egluro sut daeth y Swyddog Galluogi i'r casgliad am yr anghenion cyfredol yn ei hasesiad. Hefyd, ymddiheurodd am y wybodaeth anghywir a roddwyd ynglŷn â'r amodau cymhwyso am Lwfans Gweini. |
| GC/2984-15 | Cwynodd gofalwr teuluol ar ran Person Hŷn oedd wedi derbyn gofal ysbaid yn ddiweddar ym Mhlas Pengwaith. Canfu'r gofalwr pan ddychwelodd y Person Hŷn adref nad oedd ei holl feddyginiaeth wedi ei roi iddi pan oedd yn derbyn y gofal ysbaid. | Ansawdd y Gwasanaeth | Cam 1 | Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd (Oedolion) | Am fod y digwyddiad yn ymwneud â gweithdrefnau rhoi meddyginiaeth, cychwynnwyd ymchwiliad POVA. Argymhellodd yr ymchwiliad bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud â rhoi meddyginiaeth i breswylwyr parhaol a defnyddwyr gofal ysbaid yn cael eu hadolygu a'u cryfhau fel bod tebygolrwydd o ddigwyddiadau tebyg yn gostwng. Anfonwyd llythyr gan yr Uwch Weithiwr i ymddiheuro am y digwyddiad ac i egluro bod y gweithdrefnau meddyginiaeth wedi eu hadolygu a'u diwygio. |

# ATODIAD 2 – ENGHREIFFTIAU O WERTHFAWROGI YN YSTOD 2015/16

| Cyf | Disgrifiad byr | Categori | Uned / Tîm |
|---|---|---|---|
| GC/3046-15 | Llongyfarchiadau i Dîm Plant Arfon ar ennill y Wobr Bositif yng Ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau ym mis Mawrth 2016 | Cymeradwyaeth/Clod | Tîm Plant Arfon |
| GC/3048-15 | Llongyfarchiadau i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ar ennill y Wobr Gweithio fel Tîm yng ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau ym mis Mawrth 2016. | Cymeradwyaeth/Clod | Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid |
| GC/3047-15 | Llongyfarchiadau i David Owen, Uwch Weithiwr Cymdeithasol ar ennill y Wobr Parch yng Ngwobrau'r Cyngor ar ei Orau ym mis Mawrth 2016. | Cymeradwyaeth/Clod | Tîm 16+ |
| GC/3088-15 | "Ga i ddweud bod yr holl weithwyr cefnogol wedi bod yn annwyl iawn gydag XXXX ac wedi ei gael i fwyta ac yfed yn dda. Mae Ceri wedi bod yn wych! Diolch." | Diolchgarwch | Gwasanaeth Derwen |
| GC/2410-15 | "Chi yw'r Gweithiwr Cymdeithasol gorau i ni ei gael erioed" (gan blentyn gydag anabledd corfforol am ei Weithiwr Cymdeithasol sy'n gweithio i Wasanaeth Derwen) | Diolchgarwch | Gwasanaeth Derwen |
| GC/2586-15 | "Mae gennym berthynas dda yn ein gwaith gyda'n Gweithiwr Cymdeithasol; mae'r berthynas yn seiliedig ar gyfathrebu agored a didwyll" | Diolchgarwch | Tîm Maethu |
| GC/2684-15 | "Hapus iawn gyda'r gefnogaeth rydym yn ei chael gan ein tîm maethu" | Diolchgarwch | Tîm Maethu |
| GC/2355-15 | "Just a quick word to share with you that XXXX's parents were singing the praises of Shelby Hughes (support worker) when I visited them. They said that Shelby was fantastic with XXX and understands his way and needs and is also excellent with things such as discipline and keeping him safe." | Diolchgarwch | Gwasanaeth Derwen |
| GC/2473-15 | "Rwy'n teimlo bod gen i fwy o egni ac yn teimlo'n iachach yn gorfforol ac emosiynol rŵan o'i gymharu â chynt. Rwyf wedi cael awgrymiadau/cefnogaeth i ymdrin â phethau'n well. Wyddwn i ddim bod unrhyw un o'r gwasanaethau yma'n bodoli. Rwy'n ddiolchgar iawn am yr holl gymorth rwyf wedi ei dderbyn a fydd arna i ddim ofn gofyn am help eto. Rwy'n teimlo bod y gefnogaeth yn dreiddgar, o gymorth ac yn rhoi sicrwydd." | Diolchgarwch | Gyda'n Gilydd |
| GC/2474-15 | "Better relationship with the eldest daughter. We play a lot and have fun and it's not a strain. I thought I'd never be able to cope with the girls on my own, but by now I feel a sense of achievement / proud of myself." | Diolchgarwch | Gyda'n Gilydd |
| GC/2475-15 | "I've struggled a lot with how I am, but I've had really good help. Help and moving house has made a big difference. Thank you. Each of us feels better. We're on the way to being able to cope on our own." | Gwerthfawrogi | Gyda'n Gilydd |
| GC/2689-15 | "Dwi ddim yn gwybod beth fyddwn i wedi ei wneud heb XXXX mae hi fel angel warcheidiol i | Gwerthfawrogi | Gyda'n Gilydd |

# ATODIAD 2 – ENGHREIFFTIAU O WERTHFAWROGI YN YSTOD 2015/16

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mi. Mi hoffwn i gael help tebyg pan ydw i'n symud fel fy mod yn gwybod beth sydd yna i'm cefnogi i." | | |
| GC/2687-15 | "Rydym yn fodlon iawn gyda'r gefnogaeth rydym yn ei gael gan Cairn. Mae'n gefnogol iawn ac yn ymweld yn aml. Mae wedi bod yn flaengar iawn wrth roi unrhyw gefnogaeth oedd ei hangen arnom a threfnu cyrsiau ac ati. Mae wedi sicrhau ein bod wedi bod yn brydlon efo'n hanghenion maethu" | Gwerthfawrogi | Tîm Maethu |
| GC/2905-15 | "Rwyf bob amser wedi teimlo cefnogaeth gan yr holl dîm maethu. Does yr un aelod wedi fy ngadael i lawr, ac rwyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael fy ngwerthfawrogi." | Gwerthfawrogi | Tîm Maethu |
| GC/3057-15 | "We have a vvery good working relationship, I always have complete faith in that I can turn to her any time with a concern be it big or small. She is extremely supportive and always takes an interest in us as a family and how the placements affect us. I can pick up the phone any time of the day or email and she gets back to me every time. This is true of the Fostering Team as a whole as well." | Gwerthfawrogi | Tîm Maethu |
| GC/2403-15 | "I Gina, Mel a Sharron a phawb yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd,<br>Rwyf wedi cymryd llawer gormod o amser cyn ysgrifennu hwn! Ac yn ddiweddar, gwnaethpwyd fi'n ymwybodol o'r nifer o gwynion gwirion mae adrannau fel eich un chi'n eu derbyn, felly roeddem eisiau diolch i chi am y blynyddoedd o gefnogaeth a roesoch i'n teulu ni. Hebddo, wn i ddim sut fydden ni wedi dod trwy bethau fel gwnaethom ni. Nid yw bywyd bob amser yn dilyn y drefn, ond heb eich help chi i gyd (yn arbennig felly, chi Gina) mae wedi golygu bod ail gydio yn y darnau ac ail gychwyn ein bywydau gyda'n gilydd wedi bod gymaint haws ar waetha'r anawsterau ar y pryd. Dydi diolch ddim yn llwyddo i gyfleu popeth! Dymunwn y gorau i chi." | Gwerthfawrogi | Tîm Plant Meirionnydd |
| GC/2493-15 | "Poppy, hoffwn ddweud diolch yn fawr i ti am gydnabod yr e-byst a anfonais atat. Rwy'n gwybod bod gweithwyr cymdeithasol yn hynod o brysur ond roeddwn eisiau i ti wybod fy mod yn gwerthfawrogi dy ymateb yn fawr, rwyt bob amser yn ateb hyd yn oed er mwyn diolch am y wybodaeth" | Gwerthfawrogi | Tîm Plant Arfon |
| GC/2678-15 | Derbyniodd Sianed H Jones, Heidi Rylance and Rachel Wood ganmoliaeth a diolch gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd | Gwerthfawrogi | Tîm Plant Arfon |
| GC/2680-15 | Rhoddwyd diolch i'w Gweithiwr Cymdeithasol, Sarah Bradnick, gan y plant am yr holl waith a wnaeth gyda nhw | Gwerthfawrogi | Tîm Plant Arfon |
| GC/3041-15 | "Rwyf mor falch am y canlyniad i XXXX. Rwyf eisiau cydnabod pob ymdrech ac ymrwymiad gennych chi, y Tîm Trothwy Gofal a'r asiantaethau Iechyd sydd wedi gweithio'n ddiflino gyda'r teulu i wireddu hyn. Trwy gydol y gweithgareddau hyn rwyf wedi teimlo bod pawb wedi bod yn gefnogol ac yn gweithio tuag at sefyllfa well i'r teulu ac nid yn gadael i hanes ei ailadrodd ei hun. Mae wedi bod yn braf i'w weld ac rwy'n gobeithio bydd y teulu'n medru llwyddo yn y dyfodol. Diolch yn fawr, mae wedi bod yn bleser gweithio ochr yn ochr â chi a phawb arall fu'n ymwneud â hyn." | Gwerthfawrogi | Tîm Plant Arfon<br>Tîm Trothwy Gofal |
| GC/2380-15 | Diolchwyd i'r Swyddog Galluogi gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth am ddarparu rhestr gyflawn o asiantaethau gofal yn y cartref | Gwerthfawrogi | Tîm Pobl Hŷn Arfon |

ATODIAD 2 – ENGHREIFFTIAU O WERTHFAWROGI YN YSTOD 2015/16



| | | | |
|---|---|---|---|
| GC/2394-15 | Therapydd Galwedigaethol wedi derbyn llythyr diolch gan Ddefnyddiwr Gwasanaeth oedd wedi cael cawod newydd yn dilyn ei hymyrraeth hi | Gwerthfawrogi | Tîm Pobl Hŷn Arfon (Therapi Galwedigaethol) |
| GC/2397-15 | Defnyddiwr Gwasanaeth yn canmol gwaith y tîm gofal cartref o'r Uned Ddarparu ac yn nodi fod y staff yn mynd y tu hwnt i'r hyn sy'n ddisgwyliedig yn ei chynllun hi. | Gwerthfawrogi | Uned Ddarparu (Arfon) |
| GC/2487-15 | Defnyddiwr Gwasanaeth wedi cysylltu â'r Uned Gofal Cwsmer i fynegi ei gwerthfawrogiad am y gefnogaeth a dderbyniodd gan ei Gweithiwr Cymdeithasol a'r Therapydd Galwedigaethol ar ôl iddi ddod adref o'r ysbyty. | Gwerthfawrogi | Tîm Pobl Hŷn (Dwyfor) |
| GC/2574-15 | Defnyddiwr Gwasanaeth yn mynegi ei ddiolch am y gwasanaeth a dderbyniodd gan staff Uned Ddarparu'r Cyngor. Arbennig o hapus i adrodd ei fod yn medru cadw ei urddas bob amser wrth dderbyn y gwasanaeth. | Gwerthfawrogi | Uned Ddarparu (Dwyfor) |
| GC/2609-15 | Aelod teulu'n cysylltu â'r Uned Gofal Cwsmer i fynegi gwerthfawrogiad y teulu am y gofal a roddwyd i'w ddiweddar fam gan yr Uned Ddarparu | Gwerthfawrogi | Uned Ddarparu (Meirionnydd) |
| GC/2726-15 | Dear Dilwyn,<br><br>I would like to send you a quick note to sincerely thank you and all the staff at Canolfan Gwystl for the support you have shown the students who came to you recently on work experience.<br><br>Some of the young people venturing out on work experiences often have very low self-confidence and are anxious when attending placements for the first time. The support they have received from you has been very valuable and a big step forward in their personal and professional development.<br><br>I was able to spend some time in the company of staff and service users at Gwystl this week and honestly, I have enjoyed taking part in the activities and seeing the valuable work and service you offer. More importanly, the student in your care benefited greatly from the experience and has developed significantly during her time with you.<br><br>Thank you very much for your time and dedication, Dilwyn. I sincerely hope we can send you more students to share experiences in future<br><br>Yours sincerely,<br><br>Coordinator and Tutor for the Extended Btec Diploma Course in Health and Social Care | Gwerthfawrogi | Tîm Anableddau Dysgu (Dwyfor) |
| GC/2878-15 | "Helo Selwyn.<br><br>Nodyn byr i ddiolch i chi, xxx a xxxx am y gefnogaeth aruthrol yr ydych oll wedi ei rhoi i ni | Gwerthfawrogi | Tîm Anableddau Dysgu (Meirionnydd) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | trwy gydol y flwyddyn hon. Heboch chi ni allem ni wneud ein gwaith!!!<br><br>A fyddwch cystal â dymuno Nadolig Llawen a blwyddyn newydd ddedwydd, ddiogel a llewyrchus i bawb.<br><br>Gary a phawb." | | |
| GC/2933-15 | Dear Aled<br><br>I would like to convey my thanks to all the staff at Plas Ogwen, and the home carers who work in my ward, for their wonderful care of the elderly in the area throughout the year, and, especially during the severe weather we've experienced of late. Their work is greatly appreciated by all, and we are grateful for them.<br><br>Thank you very much, and a happy new year to you and all the staff | Gwerthfawrogi | Uned Ddarparu (Gofal Preswyl a Dydd) |
| GC/3021-15 | Good afternoon,<br><br>Miss XXXXX contacted me on Monday to convey her appreciation of a service she has received from the Provider Unit. The word she used to describe it was 'excellent' and she wanted to name Olwen, Debbie and Jean in particular.<br><br>Miss XXXXX wanted me to convery her appreciation to them.<br><br>Thank you. | Gwerthfawrogi | Uned Ddarparu (Arfon) |
| GC/3068-15 | Ysgrifennaf ar ran fy rhieni [cyfeiriad wedi'i olygu]<br><br>Mae fy nhad yn dioddef o salwch gwywo cyhyr, sy'n golygu ei fod yn gaeth i gadair ac yn medru defnyddio un law yn unig, ac mae dementia a chlefyd Alzheimer ar fy mam. Fel gallwch ddychmygu, nid yw bywyd yn rhwydd iddynt.<br><br>Ond mae eu baich wedi ei ysgafnhau gan y gofalwyr ardderchog sy'n ymweld â nhw deirgwaith y dydd ac yn edrych ar eu hôl. Meddai fy nhad: "Mae'r gofalwyr yn ddieithriad yn gymwynasgar, yn siriol, bob amser â gwên, ac yn optimistig. Maent wedi rhoi modd i mi fyw, pan oedd pethau'n edrych yn ddu iawn.<br><br>"Mae ein gofalwyr xxx, xxxx, xxx, xxxxx, xxxx, xxxx a xxxxxx bob amser yn broffesiynol iawn ac nid oes dim yn ormod o drafferth iddynt. Maen nhw fel angylion i mi a'm gwraig.<br><br>"Hoffwn i chi ddangos yr e-bost hwn i'r is-reolwyr, y gofalwyr a Chynhgorwyr Gwynedd hyd | Gwerthfawrogi | Uned Ddarparu (Arfon) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | yn oed, dylech fod yn falch iawn o'ch staff ardderchog. Maen nhw'n arwyr i ni a hoffem ddiolch iddynt o waelod calon am eu gofal rhagorol." | | |

Ein cyf: NB/LG/MM

lucy.geen@ombudsman-wales.org.uk

matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk

28 Gorfennaf 2016

**Anfonwyd drwy e-bost**

Annwyl Mr Williams

**Llythyr Blynyddol 2015/16**

Yn dilyn cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2015/16) i chi ar gyfer **Cyngor Gwynedd**.

Ar y cyfan, mae baich achosion fy swyddfa wedi cynyddu 4% eleni, ond rwy'n falch o ddweud bod nifer y cwynion cyrff cyhoeddus wedi gostwng yr un maint hefyd; dyma'r eildro yn unig mewn degawd i hyn ddigwydd. Ond, gyda siom, y GIG yng Nghymru oedd yr unig sector yn fy awdurdodaeth a welodd gynnydd yn nifer y cwynion, sy'n cyfrif erbyn hyn am dros dreian o gyfanswm y cwynion corff cyhoeddus. Mae hyn yn gynnydd o 51% dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn ystod 2015/16 cawsom 906 o gwynion yn erbyn awdurdodau lleol, sy'n is na'r 938 a gawfwyd y flwyddyn flaenorol.

Wrth gyfeirio at ganlyniadau, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y datrysiadau cynnar a setliadau gwirfoddol a gafwyd gydag awdurdodau lleol mewn 81 o achosion yn 2015/16 o'i gymharu â 58 yn 2014/15. Rwyf wedi ymroi i sicrhau, lle y bo'n bosibl, y bydd cyrff o bob sector yn datrys cwynion cyn gynted ag y bo'n bosibl ac mor effeithiol â phosibl, ac felly rwyf yn hapus â'r ystadegau hyn.

Dim ond un adroddiad budd y cyhoedd y mae fy swyddfa wedi'i gyhoeddi yn erbyn awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a fu – yr un fath â 2014/15. Roedd hyn yn ymwneud â methiannau ynghylch methiant cyngor i fynd ati'n briodol i ystyried, asesu a chanfod anghenion addysgol arbennig disgybl mewn ysgol gynradd.

Ar draws yr holl gyrff cyhoeddus, ar ôl iechyd (36%), yr ail faes sy’n denu'r nifer fwyaf o gwynion yw tai (13%), ac wedyn Cynllunio a Rheoli Adeiladu (10%), a Gwasanaethau Cymdeithasol (9%).

Gwelwyd cynnydd o 19% yn nifer y cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad o'i gymharu â 2014/15 (274 yn 2015/16 yn erbyn 231). Mae’n siom gweld y cynnydd hwn, er bod hyn bron yn gyfan gwbl wedi'i briodoli i gynghorau cymuned lle gwelwyd cynnydd o 49%.

Y llynedd cyflwynais brawf lles y cyhoedd ar gyfer cwynion yn ymwneud â'r cod ymddygiad, ac rwy’n falch o ddweud bod hyn wedi helpu fy swyddfa i ddelio â'r cwynion hyn yn effeithiol.

Rwyf yn gwbl ymwybodol ein bod yn y cyfnod sy’n arwain at etholiadau lleol a bod cynnydd i’w weld, yn hanesyddol, yn nifer y cwynion yn ymwneud â’r Cod Ymddygiad yn erbyn aelodau awdurdodau lleol. Rwyf wedi siarad o’r blaen am gwynion blinderus a byddwn yn cael fy siomi’n fawr pe byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y cwynion am faterion dibwys yn ystod y 12 mis nesaf pan mae fy swyddfa’n delio â materion o bryder go iawn ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn fy awdurdodaeth.

Yn fwy cyffredinol, mae fy swyddfa’n gweithio mewn sawl ffordd i “wyrdroi’r duedd” o gwyno yn erbyn cefndir o gyni ariannol a phoblogaeth sy’n mynd yn hŷn.

Yn ystod y flwyddyn a fu, cyflwynais newidiadau staffio yn fy swyddfa. Un o’r newidiadau allweddol yn eu plith oedd sicrhau gwell swyddogaethau i sawl aelod o staff ymchwilio a oedd yn cynnwys dyletswyddau ‘swyddog gwelliant’. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar arfer gorau, datblygiad diwylliannol y gorfforaeth, a dod â chylchoedd o wasanaethu gwael i ben. Er ei bod hi’n dal yn ddyddiau cynnar o ran y trefniadau newydd, mae’r cynnydd sydd wedi'i wneud wedi fy mhlesio’n fawr iawn.


Er bod parch mawr gartref a thramor i’r cynllun ombwdsmon yng Nghymru, rwy’n teimlo’n gryf y dylem sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd..

Rwy’n falch dros ben bod Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a bod Bil drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cymru) wedi deillio o hyn. Rwy’n awyddus yn awr i weld y Pumed Cynulliad yn bwrw ymlaen â'r bil hwn a’i gyflwyno fel deddfwriaeth cyn gynted ag y bo hynny’n bosibl yn ymarferol.

Isod, mae'r daflen ffeithiau’n rhoi dadansoddiad o’r data am gwynion sy’n ymwneud â’ch awdurdod lleol ynghyd â nodiadau esboniadol.

Mae'r ohebiaeth hon wedi cael ei hanfon at Arweinydd y Cyngor i’w hystyried gan y cabinet. Hefyd, byddaf yn anfon copi i’r swyddog cyswllt yn eich sefydliad gan bwysleisio eto bwysigrwydd y rôl hon. Yn olaf, bydd copi o’r holl lythyrau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

**Yn gywir**



Nick Bennett

Ombwdsmon

## Taflen ffeithiau

Am yr ail flwyddyn yn olynol, gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion a gyrhaeddodd fy swyddfa am eich awdurdod lleol (gostyngiad o 44%). Yn debyg i'r llynedd, ym meysydd Cynllunio a Rheoli Adeiladu, a Ffyrdd a Thrafnidiaeth y cafwyd y nifer fwyaf o gwynion, er mae'r nifer wedi gostwng rhywfaint. Ymchwiliodd fy swyddfa i fwy o gwynion nag yn 2014/15, ond cyhoeddwyd yr un nifer o adroddiadau cadarnhau. Mae'n bryder i mi fod yr amser ymateb ar gyfer darparu gwybodaeth, mewn mwy na dwy ran o dair o'r achosion, yn fwy na phedair wythnos, er gwaethaf y ffaith fy mod wedi tynnu sylw at hyn fel pryder yn llythyr blynyddol 2014/15.

**A) Cymharu cwynion a gyrhaeddodd fy swyddfa â chyfartaledd, wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth**

Cafodd fy swyddfa **25** o gwynion i gyd yn erbyn **Cyngor Gwynedd** yn ystod 2015-16 o'i gymharu â chyfartaledd o **35** ar gyfer awdurdodau lleol.

**B) Cymharu cwynion yn ôl categori pwnc â chyfartaledd awdurdod lleol**

| Pwnc | 2015/16 Gwynedd | 2015/16 Cyfartaledd Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 2 | 3 |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 1 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 0 | 5 |
| Cyfleusterau cymunedol, adloniant a hamdden | 0 | 1 |
| Delio â chwynion | 2 | 2 |
| Addysg | 3 | 2 |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 2 | 4 |
| Cyllid a Threth | 1 | 2 |
| Iechyd | 0 | 0 |
| Tai | 2 | 5 |
| Cynllunio a rheoli adeiladu | 6 | 9 |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 5 | 3 |
| Amaethyddiaeth a Physgodfeydd | 0 | 0 |
| Darparwyr Gofal Annibynnol | 1 | 0 |
| Eraill Amrywiol | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | **25** | **40** |


**C) Cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan fy swyddfa**

| | **2015/16 Gwynedd** | **2015/16 Cyfartaledd Awdurdod Lleol** |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt | 3 | 2 |

**D) Cymharu canlyniadau cwynion â chanlyniadau cyfartalog, wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth**

| **Canlyniadau Cwynion** | **2015/16 Gwynedd** | **2015/16 Cyfartaledd awdurdod lleol** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i awdurdodaeth | 7 | 5 |
| Cynamserol | 4 | 12 |
| Achosion 'eraill' wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 11 | 14 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 1 | 0 |
| Ateb cyflym / Setliad gwirfoddol | 4 | 3 |
| Adran 16 – Wedi'i gadarnhau – yn gyfan gwbl neu'n rhannol | 0 | 0 |
| Adroddiad arall – Wedi'i gadarnhau - yn gyfan gwbl neu'n rhannol | 1 | 1 |
| Adroddiad arall – heb ei gadarnhau | 1 | 1 |
| Tynnwyd yn ôl | 0 | 0 |

**E) Cymharu amseroedd ymateb i geisiadau am wybodaeth â chyfartaledd Awdurdod Lleol ac amseroedd ymateb cyfartalog Cymru Gyfan, 2015/16 (%)**




**F) Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad**

Cafwyd **chwe** chŵyn i gyd yn ymwneud â'r cod ymddygiad yn erbyn aelodau **Cyngor Gwynedd** yn ystod 2015/16. Ym mhob un o'r chwe achos, penderfynwyd peidio ag ymchwilio.

**G) Crynodebau**

**Coflyfr 21**

201500094

**Coflyfr 22**

201501820

201501780

**Coflyfr 23**

201408366

**Coflyfr 24**

201501468

## Atodiad

### Nodiadau esboniadol

Mae adran A yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a gyrhaeddodd fy swyddfa yn ystod 2015/16, â'r cyfartaledd ar gyfer Awdurdodau Lleol (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran B yn darparu dadansoddiad o nifer y cwynion am y Cyngor a gyrhaeddodd fy swyddfa yn ystod 2015/16, â'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn ystod yr un cyfnod. Mae'r ffigurau wedi'u cyflwyno yn ôl categorïau pwnc.

Mae adran C yn darparu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a oedd yn destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn ystod 2015/16, â'r cyfartaledd ar gyfer Awdurdodau Lleol (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran D yn cymharu canlyniadau'r cwynion ar gyfer y Cyngor yn ystod 2015/16, â'r canlyniadau ar gyfartaledd (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Gelwir adroddiadau Budd y Cyhoedd a gyhoeddir o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn adroddiadau 'Adran 16'.

Mae Adran E yn cymharu amseroedd ymateb y Cyngor yn ystod 2015/16 â chyfartaledd yr amseroedd ymateb ar gyfer pob Awdurdod Lleol, a phob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Mae'r graff yn mesur yr amser rhwng y dyddiad yr oedd fy swyddfa wedi anfon llythyr 'cychwyn ymchwiliad', a'r dyddiad yr oedd fy swyddfa wedi derbyn ymateb llawn i'r llythyr hwnnw gan y corff cyhoeddus.

Mae Adran F yn darparu dadansoddiad o'r holl gwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr yn ystod 2015/16.

Yn olaf, mae adran G yn cynnwys y crynodebau sy'n ymwneud â'r Cyngor sy'n ymddangos yng Nghoflyfr yr Ombwdsmon yn ystod 2015/16.

### Adborth

Rydym yn croesawu eich adborth ar y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys yng nghrynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon unrhyw adborth neu ymholiadau at lucy.geen@ombudsman-wales.org.uk neu matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk

Ein cyf: NB/LG/MM

lucy.geen@ombudsman-wales.org.uk

matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk

28 Gorfennaf 2016

**Anfonwyd drwy e-bost**

Annwyl Mr Williams

**Llythyr Blynyddol 2015/16**

Yn dilyn cyhoeddi fy Adroddiad Blynyddol yn ddiweddar, mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Llythyr Blynyddol (2015/16) i chi ar gyfer **Cyngor Gwynedd**.

Ar y cyfan, mae baich achosion fy swyddfa wedi cynyddu 4% eleni, ond rwy'n falch o ddweud bod nifer y cwynion cyrff cyhoeddus wedi gostwng yr un maint hefyd; dyma'r eildro yn unig mewn degawd i hyn ddigwydd. Ond, gyda siom, y GIG yng Nghymru oedd yr unig sector yn fy awdurdodaeth a welodd gynnydd yn nifer y cwynion, sy'n cyfrif erbyn hyn am dros dreian o gyfanswm y cwynion corff cyhoeddus. Mae hyn yn gynnydd o 51% dros y pum mlynedd diwethaf.

Yn ystod 2015/16 cawsom 906 o gwynion yn erbyn awdurdodau lleol, sy'n is na'r 938 a gawfwyd y flwyddyn flaenorol.

Wrth gyfeirio at ganlyniadau, gwelwyd cynnydd mawr yn nifer y datrysiadau cynnar a setliadau gwirfoddol a gafwyd gydag awdurdodau lleol mewn 81 o achosion yn 2015/16 o'i gymharu â 58 yn 2014/15. Rwyf wedi ymroi i sicrhau, lle y bo'n bosibl, y bydd cyrff o bob sector yn datrys cwynion cyn gynted ag y bo'n bosibl ac mor effeithiol â phosibl, ac felly rwyf yn hapus â'r ystadegau hyn.

Dim ond un adroddiad budd y cyhoedd y mae fy swyddfa wedi'i gyhoeddi yn erbyn awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn a fu – yr un fath â 2014/15. Roedd hyn yn ymwneud â methiannau ynghylch methiant cyngor i fynd ati'n briodol i ystyried, asesu a chanfod anghenion addysgol arbennig disgybl mewn ysgol gynradd.

Ar draws yr holl gyrff cyhoeddus, ar ôl iechyd (36%), yr ail  faes sy'n denu'r nifer fwyaf  o gwynion yw tai (13%), ac wedyn Cynllunio a Rheoli Adeiladu (10%), a Gwasanaethau Cymdeithasol (9%).

Gwelwyd cynnydd o 19% yn nifer y cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad o'i gymharu â 2014/15 (274 yn 2015/16 yn erbyn 231). Mae'n siom gweld y cynnydd hwn, er bod hyn bron yn gyfan gwbl wedi'i briodoli i gynghorau cymuned lle gwelwyd cynnydd o 49%.

Y llynedd cyflwynais brawf lles y cyhoedd ar gyfer cwynion yn ymwneud â'r cod ymddygiad, ac rwy'n falch o ddweud bod hyn wedi helpu fy swyddfa i ddelio â'r cwynion hyn yn effeithiol.

Rwyf yn gwbl ymwybodol ein bod yn y cyfnod sy'n arwain at etholiadau lleol a bod cynnydd i'w weld, yn hanesyddol, yn nifer y cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad yn erbyn aelodau awdurdodau lleol. Rwyf wedi siarad o'r blaen am gwynion blinderus a byddwn yn cael fy siomi'n fawr pe byddwn yn gweld cynnydd yn nifer y cwynion am faterion dibwys yn ystod y 12 mis nesaf pan mae fy swyddfa'n delio â materion o bryder go iawn ar draws y gwasanaethau cyhoeddus yn fy awdurdodaeth.

Yn fwy cyffredinol, mae fy swyddfa'n gweithio mewn sawl ffordd i "wyrdroi'r duedd" o gwyno yn erbyn cefndir o gyni ariannol a phoblogaeth sy'n mynd yn hŷn.

Yn ystod y flwyddyn a fu, cyflwynais newidiadau staffio yn fy swyddfa. Un o'r newidiadau allweddol yn eu plith oedd sicrhau gwell swyddogaethau i sawl aelod o staff ymchwilio a oedd yn cynnwys dyletswyddau 'swyddog gwelliant'. Mae hyn yn rhoi mwy o bwyslais ar arfer gorau, datblygiad diwylliannol y gorfforaeth, a dod â chylchoedd o wasanaethu gwael i ben. Er ei bod hi'n dal yn ddyddiau cynnar o ran y trefniadau newydd, mae'r cynnydd sydd wedi'i wneud wedi fy mhlesio'n fawr iawn.

Er bod parch mawr gartref a thramor i'r cynllun ombwdsmon yng Nghymru, rwy'n teimlo'n gryf y dylem sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn canolbwyntio ar y dinesydd..

Rwy'n falch dros ben bod Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cytuno i gynnal ymchwiliad i bwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a bod Bil drafft Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (Cymru) wedi deillio o hyn. Rwy'n awyddus yn awr i weld y Pumed Cynulliad yn bwrw ymlaen â'r bil hwn a'i gyflwyno fel deddfwriaeth cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl yn ymarferol.

Isod, mae'r daflen ffeithiau'n rhoi dadansoddiad o'r data am gwynion sy'n ymwneud â'ch awdurdod lleol ynghyd â nodiadau esboniadol.

Mae'r ohebiaeth hon wedi cael ei hanfon at Arweinydd y Cyngor i’w hystyried gan y cabinet. Hefyd, byddaf yn anfon copi i’r swyddog cyswllt yn eich sefydliad gan bwysleisio eto bwysigrwydd y rôl hon. Yn olaf, bydd copi o’r holl lythyrau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan.

**Yn gywir**



Nick Bennett

Ombwdsmon

**Taflen ffeithiau**

Am yr ail flwyddyn yn olynol, gwelwyd gostyngiad yn nifer y cwynion a gyrhaeddodd fy swyddfa am eich awdurdod lleol (gostyngiad o 44%). Yn debyg i'r llynedd, ym meysydd Cynllunio a Rheoli Adeiladu, a Ffyrdd a Thrafnidiaeth y cafwyd y nifer fwyaf o gwynion, er mae'r nifer wedi gostwng rhywfaint. Ymchwiliodd fy swyddfa i fwy o gwynion nag yn 2014/15, ond cyhoeddwyd yr un nifer o adroddiadau cadarnhau.

**A) Cymharu cwynion a gyrhaeddodd fy swyddfa â chyfartaledd, wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth**

Cafodd fy swyddfa **25** o gwynion i gyd yn erbyn **Cyngor Gwynedd** yn ystod 2015-16 o'i gymharu â chyfartaledd o **35** ar gyfer awdurdodau lleol.

**B) Cymharu cwynion yn ôl categori pwnc â chyfartaledd awdurdod lleol**

| **Pwnc** | **2015/16 Gwynedd** | **2015/16 Cyfartaledd Awdurdod Lleol** |
|---|---|---|
| Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion | 2 | 3 |
| Gweinyddu Budd-daliadau | 0 | 1 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Plant | 0 | 5 |
| Cyfleusterau cymunedol, adloniant a hamdden | 0 | 1 |
| Delio â chwynion | 2 | 2 |
| Addysg | 3 | 2 |
| Yr Amgylchedd ac Iechyd yr Amgylchedd | 2 | 4 |
| Cyllid a Threth | 1 | 2 |
| Iechyd | 0 | 0 |
| Tai | 2 | 5 |
| Cynllunio a rheoli adeiladu | 6 | 9 |
| Ffyrdd a Thrafnidiaeth | 5 | 3 |
| Amaethyddiaeth a Physgodfeydd | 0 | 0 |
| Darparwyr Gofal Annibynnol | 1 | 0 |
| Eraill Amrywiol | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | **25** | **40** |


**C) Cwynion yr ymchwiliwyd iddynt gan fy swyddfa**

| | 2015/16 Gwynedd | 2015/16 Cyfartaledd Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Nifer y cwynion yr ymchwiliwyd iddynt | 3 | 2 |

**D) Cymharu canlyniadau cwynion â chanlyniadau cyfartalog, wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth**

| **Canlyniadau Cwynion** | **2015/16 Gwynedd** | **2015/16 Cyfartaledd awdurdod lleol** |
|---|---|---|
| Tu hwnt i awdurdodaeth | 7 | 5 |
| Cynamserol | 4 | 12 |
| Achosion 'eraill' wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 11 | 14 |
| Terfynwyd yr ymchwiliad | 1 | 0 |
| Ateb cyflym / Setliad gwirfoddol | 4 | 3 |
| Adran 16 – Wedi'i gadarnhau – yn gyfan gwbl neu'n rhannol | 0 | 0 |
| Adroddiad arall – Wedi'i gadarnhau - yn gyfan gwbl neu'n rhannol | 1 | 1 |
| Adroddiad arall – heb ei gadarnhau | 1 | 1 |
| Tynnwyd yn ôl | 0 | 0 |

**E) Cymharu amseroedd ymateb i geisiadau am wybodaeth â chyfartaledd Awdurdod Lleol ac amseroedd ymateb cyfartalog Cymru Gyfan, 2015/16 (%)**




**F) Cwynion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad**

Cafwyd **chwe** chŵyn i gyd yn ymwneud â'r cod ymddygiad yn erbyn aelodau **Cyngor Gwynedd** yn ystod 2015/16. Ym mhob un o'r chwe achos, penderfynwyd peidio ag ymchwilio.

**G) Crynodebau**

**Coflyfr 21**

201500094

**Coflyfr 22**

201501820

201501780

**Coflyfr 23**

201408366

**Coflyfr 24**

201501468

**Atodiad**

**Nodiadau esboniadol**

Mae adran A yn cymharu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a gyrhaeddodd fy swyddfa yn ystod 2015/16, â'r cyfartaledd ar gyfer Awdurdodau Lleol (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran B yn darparu dadansoddiad o nifer y cwynion am y Cyngor a gyrhaeddodd fy swyddfa yn ystod 2015/16, â'r cyfartaledd ar gyfer yr Awdurdod Lleol yn ystod yr un cyfnod. Mae'r ffigurau wedi'u cyflwyno yn ôl categorïau pwnc.

Mae adran C yn darparu nifer y cwynion yn erbyn y Cyngor a oedd yn destun ymchwiliad gan fy swyddfa yn ystod 2015/16, â'r cyfartaledd ar gyfer Awdurdodau Lleol (wedi'i addasu ar gyfer dosbarthiad y boblogaeth) yn ystod yr un cyfnod.

Mae adran D yn cymharu canlyniadau'r cwynion ar gyfer y Cyngor yn ystod 2015/16, â'r canlyniadau ar gyfartaledd (wedi'u haddasu ar gyfer dosbarthiad poblogaeth) yn ystod yr un cyfnod. Gelwir adroddiadau Budd y Cyhoedd a gyhoeddir o dan adran 16 o Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 yn adroddiadau 'Adran 16'.

Mae Adran E yn cymharu amseroedd ymateb y Cyngor yn ystod 2015/16 â chyfartaledd yr amseroedd ymateb ar gyfer pob Awdurdod Lleol, a phob corff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod. Mae'r graff yn mesur yr amser rhwng y dyddiad yr oedd fy swyddfa wedi anfon llythyr 'cychwyn ymchwiliad', a'r dyddiad yr oedd fy swyddfa wedi derbyn ymateb llawn i'r llythyr hwnnw gan y corff cyhoeddus.

Mae Adran F yn darparu dadansoddiad o'r holl gwynion Cod Ymddygiad a dderbyniwyd yn erbyn Cynghorwyr yn ystod 2015/16.

Yn olaf, mae adran G yn cynnwys y crynodebau sy'n ymwneud â'r Cyngor sy'n ymddangos yng Nghoflyfr yr Ombwdsmon yn ystod 2015/16.

**Adborth**

Rydym yn croesawu eich adborth ar y wybodaeth amgaeedig, gan gynnwys awgrymiadau am unrhyw wybodaeth i'w chynnwys yng nghrynodebau blynyddol y dyfodol. Dylid anfon unrhyw adborth neu ymholiadau at lucy.geen@ombudsman-wales.org.uk neu matthew.aplin@ombudsman-wales.org.uk

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Hydref 2016** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Roberts** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679 468** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Adroddiad Perfformiad Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aleod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich hatgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafaodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tim Rheoli ynghyd a'r Tim Arweinyddiaeth.

1.3 Rwy'n gyfforddus gyda perfformiad yr Adran ar y cyfan ond byddwn yn tynnu eich sylw i'r materion canlynol:

**Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed -** Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai i'r gymuned am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio'n sylweddol. Mae'r mesur yn nodi nifer y bobl fesul 1,000 o'r boblogaeth ble mae oedi wedi bod wrth drosglwyddo. Ceir gwybodaeth bellach yn 4.9.6 isod.



**Cyswllt:**
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

2. **Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

3. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

4. **RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

4.1. **Prosiectau'r Cynllun Strategol**

4.1.1. Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar brosiectau'r Cynllun Strategol 2016-17.

4.2. **G1 Her Gofal -** ***Ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn glir o'r her sy'n ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithio'n gymunedol.***

4.2.1 Cychwynnodd y Rheolwr Llesiant yn ei rôl newydd ar 1af o Orffennaf 2016. Dros yr wythnosau cyntaf mae pwyslais wedi ei roi ar sefydlu cysylltiadau ar lefel lleol ymysg staff, partneriaid a darparwyr ynghyd â grwpiau penodol. Bydd y wybodaeth a gesglir a'r trafodaethau yma ynghyd â gwersi a ddysgwyd gan awdurdodau eraill, yn bwydo i mewn i raglen waith ddrafft Llesiant erbyn diwedd mis Medi. Bydd y rhaglen yn gosod blaenoriaethau ac amserlen ac yn adrodd ar yr anghenion capasiti ac adnoddau ar gyfer cyflawni amcanion llesiant y Cyngor.

4.2.2 Mae'r rhaglen o godi ymwybyddiaeth aelodau, staff, darparwyr a phartneriaid yn parhau gyda phwyslais ar gynnal sesiynau penodol gyda gwahanol grwpiau. Cynhaliwyd sesiwn ar rôl aelodau ym mharatoad yr Asesiad Anghenion ym Mhrenteg yn ddiweddar a digwyddiad hyfforddi yn ymwneud â rôl cynghorwyr yn gweithredu gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ym Mhorthmadog ers hynny. Mae trefniadau hefyd yn eu lle ar gyfer ymgysylltu gyda grwpiau sydd â diddordeb mewn meysydd penodol e.e. Anableddau Dysgu.

4.2.3 Mae y gwaith ar y cynllun wedi arafu rhywfaint gan fod y swyddog arweiniol bellach ar absenoldeb mamolaeth. Mae llenwi'r rôl hon wedi ei ddal yn ôl hyd nes y bydd yn glir sut y bydd y rhaglen Her Gofal yn cael ei integreiddio gyda'r rhaglen waith Llesiant. Mae darn o waith amlwg i'w wneud yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn sicrhau plethiad y rhaglenni gwaith hyn a'i gilydd, yn ogystal hefyd dylid ystyried y rhaglen waith 'Heneiddio'n Dda' sydd wedi ei gyflwyno i'r Comisiynydd Pobl Hyn yn ddiweddar.

4.3. **G2 Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion -** ***Ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio.***

4.3.1 Erbyn hyn mae'r cysyniad o weithio yn integredig ar lefel lleol yng Ngwynedd, hynny yw, ehangu trefniadau Ffordd Gwynedd yn Eifionydd i weddill y Sir wedi cael sêl bendith trwy drefniadau'r Bwrdd Iechyd. Bydd rhoi trefniadau llywodraethu parhaol yn eu lle yn cymryd rhai misoedd ond mae cytundeb i

weithredu ar sail interim er manteisio ar rai o'r buddion yn y tymor byr. Bydd y camau cyntaf yn cynnwys ehangu gwaith Alltwen i Ogledd Meirionnydd ac Ardal De Meirionnydd gydag Ardal Llŷn ac Arfon i ddilyn wedi hynny.

4.3.2 Hyderir y byddwn wedi penodi Arweinyddion Ardal erbyn diwedd y flwyddyn galendr, gyda rhaglen i anwytho staff yn y ffordd newydd o weithio yn dilyn yn fuan wedi hynny. Bwriedir defnyddio sgiliau ac arbenigedd y Tîm Craidd i hyfforddi a mentora staff yn ystod y cyfnod o ehangu i'r Sir gyfan.

4.3.3 Gellir cadarnhau bod data hyd yma, o gymharu â'r un cyfnod blwyddyn ddiwethaf, yn dangos gostyngiad ym mhecynnau gofal traddodiadol yn ardal Eifionydd. Mae arwyddion addawol dechreuol hefyd i'w gweld yng Ngogledd a De Meirionnydd.

4.4. **G3 Ail-strwythuro Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant -** ***Sicrhau fod strwythur staffio'r adran yn addas ar gyfer y dyfodol.***

4.4.1 Nid yw'r sefyllfa wedi newid yn sylweddol ers y tro diwethaf i mi adrodd. Fodd bynnag, yn dilyn trafodaethau a hwyluswyd gan y Cyfarwyddwr Statudol, mae trefniadau ar y gweill i addasu rhywfaint ar y rhaniad gwaith rhwng yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant a'r Adran Plant a Theuluoedd. Y nod yw cwblhau'r addasiadau yma yn ystod yr Hydref.

4.4.2 Yn ychwanegol i hyn, mewn ymateb i sylwadau'r Arolygaeth Gofal a Gwaith Cymdeithasol Cymru fel rheoleiddwyr, a barn y Panel Strategol Diogelu, mae trefniadau ar y gweill i sefydlu Tîm Diogelu a Sicrwydd Ansawdd at ei gilydd i un gwasanaeth o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Credir y bydd hyn yn fodd i dynnu elfennau cysylltiedig at ei gilydd mewn ymdrech i sicrhau cysondeb ar draws yr Adran a gosod llwybrau cyfeirio penodol ar gyfer gweithwyr rheng flaen.

4.4.3 Y nod yw datblygu strwythur sydd â ffocws ar faterion diogelu a sicrwydd ansawdd. Bydd hyn yn fodd i blethu materion ansawdd a diogelu o ran datblygu gwasanaethau ac ymarfer diogel ac ymateb i faterion sydd yn codi yn sgil adnabod themâu o fewn gwaith gweithredol e.e. addasu trefn awdit yn sgil dysgu gwersi o gwynion. Bydd adroddiadau ar ddatblygiad y Tîm a chostau ei sefydlu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn fuan.

4.5. **G4 Tai Gofal Ychwanegol –** ***Adeiladau Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog.***

4.5.1 Ers i mi adrodd i chi y tro diwethaf mae gwaith dymchwel yr adeiladau wedi ei gyflawni, ac mae gwaith yn digwydd i glirio'r safle a pharatoi'r tir ar gyfer sylfaen y datblygiad.

4.6. **G5 Frondeg –** ***Sicrhau eglurder ar safle Frondeg a phenderfynu ar y ffordd ymlaen.***

4.6.1 Yn dilyn ymgysylltu, mae briff wedi ei ddatblygu ar y cyd gyda'r prif fudd-ddeiliaid. Bydd yr Adran Eiddo yn cysylltu gyda Grŵp Cynefin i gynnal trafodaeth ddechreuol ynglŷn â'r briff yn fuan.

4.7. **G6 Darpariaeth fewnol –** ***Penderfynu ar sut rydan ni'n rhedeg y Gwasanaeth Darparu (sy'n darparu gwasanaethau gofal) a gweithredu ar hynny.***

4.7.1 Adroddiad 'Achos Strategol Model Darparu Gofal' yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 20.09.16. Bydd ail adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r un

cyfarfod, fydd yn cynnig cynlluniau effeithlonrwydd newydd o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant.

4.8. **G7 Capasiti a Chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac Iechyd – *Ymateb i'r problemau presennol sydd yn bodoli o ran darpariaethau gofal ac iechyd o fewn y maes pobl hyn yn benodol.***

4.8.1 *Model Gofal Newydd* - Bwriedir datblygu Cartref Preswyl Llys Cadfan er mwyn gallu cynnig mwy o gefnogaeth nyrsio, fydd yn caniatáu unigolion i aros yn y cartref preswyl yn hirach ac osgoi mynediad i gartref nyrsio. Mae cyfarfod dechreuol wedi ei gynnal rhwng swyddogion Gwynedd, Môn, y Bwrdd Iechyd a'r Arolygaeth Gofal ac rydym yn disgwyl am gytundeb mewn egwyddor i'r model newydd sydd wedi ei gyflwyno iddynt. Mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn manylu ar sut fydda'r model dan sylw yn gweithio a bydd hynny'n digwydd yn ystod y misoedd nesaf.

4.8.2 *Gofalwyr* – Mae gwaith yn mynd rhagddo i weld os yw ein trefniadau a'n sefyllfa gyfredol yn addas o ystyried disgwyliadau'r ddeddf. Er bod gwaith yn rhanbarthol ar y gweill, a bydd hynny yn cydfarnu at ein dealltwriaeth o'r sefyllfa, byddwn yn gofyn am farn swyddogion proffesiynol, gofalwyr yng Ngwynedd a phencampwyr y maes er mwyn ystyried os yw ein trefniadau yn addas. Bydd y gwaith yma yn ein galluogi i benderfynu os oes sail i gomisiynu prosiect penodol.

4.8.3 Mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn gyrru elfennau'r 'Gweithlu' yn ei blaen. Bwriedir ystyried yr agweddau isod yn benodol:

- *Ymateb i'r sefyllfa gyfredol yn y modd mwyaf effeithiol trwy geisio sicrhau ein bod yn llenwi swyddi gwag yn y maes Gofal ac Iechyd.*
- *Dylanwadu, pwyso a chyfrannu i ddatblygiadau cenedlaethol a rhanbarthol o ran ystyried dulliau gwahanol o ddiwallu anghenion pobl.*

4.9. **Perfformiad**

4.9.1 Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

4.9.2 Mae trefniadau mewn lle bellach er mwyn gallu adrodd ar y mesur **'OED023 Canran o Bobl Hyn a Phobl sydd ag Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy'**, sy'n mesur pwrpas gwasanaethau Pobl Hyn ac Oedolion gydag Anableddau Corfforol. Mae'r ffordd newydd o weithio sy'n cael ei yrru gan y Ddeddf newydd, a hefyd Prosiect G2 uchod, yn rhoi'r ffocws ar gyflawni'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn. Ar hyn o bryd nid oes cysondeb o ran y data sydd tu cefn i'r mesur hwn, ond mae gwaith yn mynd rhagddo er mwyn hyfforddi a chefnogi gweithwyr i ddod yn gyfarwydd gyda'r trefniadau newydd. Dros y misoedd nesaf rwy'n gobeithio y byddwn yn dechrau adrodd o ddifrif a gallu defnyddio'r mesur hwn i ddysgu a gwella'n barhaus.

4.9.3 Fel rhan o ofynion y ddeddf newydd mae holiadur yn cael ei anfon allan i dros 1,600 o ddefnyddwyr er mwyn cael dealltwriaeth o'r bobl hynny sy'n nodi eu bod yn 'gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt'. Bydd y mesur **HOL/001** yn adrodd ar ganlyniad hyn a bydd y gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau wedi ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.9.4 Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo o ran datblygu mesurau sy'n mesur pwrpas ar gyfer y gwasanaethau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl.

4.9.5 Hyd nes y bydd y byddaf mewn sefyllfa i adrodd yn llawn ar y mesurau uchod, byddaf yn parhau i adrodd ar weddill y mesurau sydd wedi eu cynnwys yn ail ran ***Atodaid 1***. Mae perfformiad y mesurau hyn yn unol a'r disgwyl.

4.9.6 Er hyn hoffwn dynnu sylw'r Cabinet at un mesur yn benodol sy'n parhau i beri pryder: **SCA/001** - **Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed -** Mae'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo o ysbytai am resymau gofal cymdeithasol wedi dirywio'n sylweddol y llynedd - cynnydd o 1.05 yn 2014/15 i 2.45 yn 2015/16. Mae'r perfformiad y mesur hwn yn parhau i beri pryder (cyfradd o 2.1 hyd at Fis Gorffennaf). Pe byddai'r perfformiad yn parhau'r un fath am weddill y flwyddyn rhagwelir y byddwn yn perfformio yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru - amcan perfformiad o 6.2 o gymharu â chanolrif Cymru (4.9) yn 15/16. Byddai hyn yn ostyngiad sylweddol mewn perfformiad o gymharu â 2014/15. Mae gwaith yn mynd rhagddo i geisio ymateb yn ymarferol i'r sefyllfa yn y tymor byr ond ni ellir anwybyddu'r argyfwng cenedlaethol sy'n bodoli o ran capasiti a chynaliadwyedd swyddi yn y maes iechyd a gofal. Mae'r prosiect G7 wedi ei gomisiynu er mwyn ceisio ymateb i'r her dan sylw.

4.10 **Sefyllfa Ariannol/ Arbedion**

4.10.1 Mae'r her o gyflawni arbedion yn parhau eto eleni ond mae'n ddyddiau cynnar i allu rhagweld a fydd yr adran yn llwyddo i wireddu cynlluniau arbedion 2016/17. Credaf fod angen gwneud cynnydd sylweddol ar nifer o'r cynlluniau yn y misoedd nesaf os am lwyddo i wneud hynny a chadw o fewn gyllideb. Gallaf gadarnhau fod 80% o doriadau disgwyliedig yn 2016/17 yn barod wedi eu gwneud.

4.10.2 Cymeradwyodd y Cabinet ar y 7fed o Fehefin drosglwyddiadau cyllidol o fewn yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant sydd wedi rhoi gwell adlewyrchiad o'r gofynion a'r galw cyfredol sydd ar wasanaethau. Mae'r trosglwyddiadau cyllidol yn galluogi'r adran i wireddu rhai o gynlluniau arbedion 2015/16.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

5.1 Dim i'w nodi

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

6.1. Dim i'w nodi

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**

Mae'n dda gweld adroddiadau o gynnydd mewn nifer o feysydd. Yn amlwg, mae meysydd fel yr Her Gofal (G1) a Gweithio'n Integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion (G2) yn bethau tymor hwy o ran gweld eu canlyniadau ond mae cadw at y cerrig milltir yn bwysicach oherwydd hynny.

Mae'r adroddiad ei hun hefyd yn cydnabod dau bryder. Mae un ar y Mesurydd Trosglwyddo o ofal (SCA/001) ac, yn y cyd-destun hwn, efallai y byddai'r Aelod Cabinet a'r Pennaeth yn medru ymhelaethu ar y camau i geisio arfer sefyllfa lle y byddwn, heb ymyrraeth, yn debyg o fod yn waeth na chyfartaledd Cymru. Yn ail, mae cyfeiriad ym mharagraff 4.10 at yr angen i "wneud cynnydd sylweddol ar nifer o'r cynlluniau yn y misoedd nesaf os am lwyddo i wneud hynny a chadw o fewn y gyllideb". Mae'n dda bod yr adroddiad yn adrodd bod 80% o arbedion 2016/17 wedi eu canfod eisoes ond rhaid cadw llygad barcud ar hwn yn rhannol oherwydd maint y symiau sydd dan sylw.

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb

**Y Pennaeth Cyllid:**

Fel nodir yn rhan 4.5.4 o adroddiad yr Aelod Cabinet Adnoddau sydd hefyd ar raglen y cyfarfod hwn, bu llithriad yn rhaglen arbedion yr Adran Oedolion, ond rwy'n gwerthfawrogi fod yr Aelod Cabinet dros Oedolion a'r Adran yn gweithio ar gyfres o gynlluniau amgen sydd wedi lliniaru effaith y llithriad. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar ddatblygiad y cynlluniau hyn er mwyn sicrhau fod yr arbedion yn cael eu cyflawni.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1 - Mesurau Perfformiad

**Dogfennau Cefndirol**

Dim

* = Ffigwr is yn welliant

## Atodiad 1- Mesurau Perfformiad

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gofal – OED23** | Canran o Bobl Hyn a Phobl sydd a Anableddau Corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt hwy. | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gweler sylwadau |
| **Gofal – OED24** | *Outcome Star* yr unigolion | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gweler sylwadau |
| **Gofal – Hol/001** | Pobl sy'n nodi y gallent wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt (holiadur) | Mesur newydd | Mesur newydd | Mesur newydd | Gweler sylwadau |
| **Gofal - SCA/001** | Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75+ oed. * | 1.55 | 1.05 | 2.38 | 2.1 |
| **Gofal - OED003** | Galluogi - Canran o achosion sydd wedi derbyn cyfnod o alluogi sy'n gadael heb becyn gofal. | 54% | 45% | 55% | 53% |
| **Gofal - SCA/002a** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 46 (4.6%) | 45 (4.5%) | 43 (4.3%) | 42 (4.2%) |
| **Gofal - SCA/002a** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) Sy'n cael cymorth i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed a throsodd. * | 79 (7.9%) | 78 (7.8%) | 73 (7.3%) | 73 (7.3%) |
| **Gofal - SCA/002b** | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth. * | 26 (2.6%) | 24 (2.4%) | 23 (2.3%) | 23 (2.3%) |
| **Gofal - SCA/002b** *LLEOL* | Cyfradd y bobl oedrannus (65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth ac | 20 | 18 | 17 | 17 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | eithrio rhai sy'n hunan ariannu. * | (2.0%) | (1.8%) | (1.7%) | (1.7%) |
| **Gofal - SCA/019** | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli | 96% | 100% | 97% | 100% |
| **Gofal - SCA/019** *LLEOL* | O'r atgyfeiriadau amddiffyn oedolion sydd wedi'u cwblhau yn ystod y flwyddyn, y canran lle mae'r perygl wedi'i reoli (gan eithrio'r rhai sydd wedi gwrthod ymyrraeth) | - | - | 99% | 100% |

**Gofal – OED23** – Trefniadau mewn lle i fod yn adrodd ar y mesur hwn ond mae'r wybodaeth sy'n bwydo i mewn i'r mesur hwn yn hollol ddibynnol ar y wybodaeth sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'r mesur OED024 (*Outcome Star* yr unigolion).

**Gofal - OED24 -** Mae datblygiad y mesur hwn yn mynd law yn llaw hefo prif ffrydio'r ffordd newydd o weithio sy'n cael ei yrru gan Brosiect G2 Gweithio'n Integredig.

**Gofal – Hol/001 -** Fel rhan o ofynion y ddeddf newydd mae holiadur yn cael ei anfon allan i dros 1,600 o ddefnyddwyr er mwyn cael dealltwriaeth o'r bobl hynny sy'n nodi eu bod yn 'gallu gwneud yr hyn sy'n bwysig iddynt'. Disgwylir y bydd y gwaith o ddadansoddi'r canlyniadau wedi ei wneud erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Gofal - SCA/001 -** Mae'r perfformiad y mesur hwn yn peri pryder (cyfradd o 2.1 hyd at Fis Gorffennaf). Pe byddai'r perfformiad yn parhau'r un fath am weddill y flwyddyn rhagwelir y byddwn yn perfformio dipyn is na chyfartaledd Cymru - amcan perfformiad o 6.2 o gymharu â chanolrif Cymru (4.9) yn 15/16.

**Gofal - SCA/002a** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r bobl hynny sy'n derbyn gwasanaethau mwy ataliol eu natur e.e. Teleofal a Galluogi. Mae'r mesur yn cynnwys yn unig y gwasanaethau traddodiadol e.e. Gofal Cartref. Er mwyn cael darlun llawn o'r bobl hynny sy'n cael cefnogaeth yn eu cartref, mae fersiwn lleol o'r mesur wedi cael ei greu (**SCA/002a** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/002b** - Mae'r mesur cenedlaethol hwn yn cyfrifo'r 'hunan arianwyr' sydd yn byw yng Nghartrefi Preswyl y Sir. Mae gan Wynedd nifer o gartrefi mewnol o gymharu â gweddill Cymru, ac mae cyfri 'hunan arianwyr' yn gallu drysu'r sefyllfa wrth gymharu'n genedlaethol. Mae fersiwn lleol wedi ei greu ar gyfer eithrio'r 'hunan arianwyr' (**SCA/002b** *LLEOL*).

**Gofal - SCA/019** - Nid yw'r mesur cenedlaethol hwn yn eithrio'r unigolion sydd wedi gwrthod ymyrraeth. Mae fersiwn lleol wedi ei greu sy'n eithrio'r unigolyn sydd wedi gwrthod ymyrraeth (**SCA/019** *LLEOL*) a thybir fod hyn yn rhoi gwell darlun o'r gwir sefyllfa.

# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 4 Hydref, 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Mair Rowlands,<br>Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Plant, Pobl Ifanc a Hamdden |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Plant, Pobl Ifanc a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli ynghyd a'r tîm arweinyddiaeth.

1.3. Ar y cyfan, rwyf yn gyfforddus gyda pherfformiad y meysydd, sy'n awgrymu ein bod ar y trywydd cywir. Er hyn, rwyf yn awyddus i dynnu eich sylw at y mater canlynol:

- **5.3.1 Ffigyrau plant mewn gofal wedi cynyddu 15% o'i gymharu ag adeg yma flwyddyn ddiwethaf -** Mae'r cynnydd yn duedd sy'n cael ei adlewyrchu ar lefel rhanbarthol a chenedlaethol. Rwy'n grediniol byddai'r ffigwr plant mewn gofal yn uwch petai'r pecyn o brosiectau/ gwasanaethau ataliol megis Tîm Trothwy Gofal a Thîm gyda'n gilydd ddim mewn lle.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. P8 Ymyrraeth Gynnar ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd - Gosod cyfeiriad a sefydlu blaenoriaethau ar gyfer agenda ataliol yng Ngwynedd

4.1.1 Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, mae'r Adran Plant a Theuluoedd wedi ffurfio Grŵp Tasg i arwain ar y gwaith a bydd y cyfarfod cyntaf yn cymryd lle ym mis Medi. Y grŵp yma fydd yn gyfrifol am roi cyfeiriad i'r gwaith a llunio cynllun gweithredu.

### 4.2. Fframwaith Ymgysylltu a datblygu Ieuenctid

4.2.1 Er mwyn eich atgoffa, mae'r fframwaith yma yn anelu at leihau'r nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae'r fframwaith yn canolbwyntio ar nodi'r bobl ifanc sy'n fwy tebygol o ymddieithrio; brocera a chydlynu'r cymorth ar eu cyfer yn well, a thracio a symud pobl trwy'r system yn well. Mae ffigwr pobl ifanc NEET (dim mewn addysg, hyfforddiant, na gwaith) Gwynedd yn 16 oed yn 1.8% yn ôl ffigyrau diweddar (Mehefin 2016) o'i gymharu â 5% yn 2012. Mae hyn yn dangos gostyngiad yn y ffigwr dros y 4 mlynedd diwethaf. Teg yw dweud bod nifer o brosiectau Ewrop megis Potensial wedi chwarae rhan fawr yn cael y ffigwr yma i lawr dros y blynyddoedd. Nawr bod Potensial wedi dod i ben, rydym yn gobeithio bod rhaglen TRAC ac AdTrac a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Fframwaith Ymgysylltu yn sicrhau bod y ffigwr yma yn parhau yn isel.

4.2.2 Yn syml, mae'r ffigwr 1.8% yn golygu 24 o bobl ifanc - mae'r ffigwr yma yn cymharu'n ffafriol gyda ffigwr Cymru, sydd yn 4.5%. Y sialens yn ystod y flwyddyn yw parhau i geisio lleihau'r ffigwr, a sicrhau nad yw'r ffigwr yn cynyddu.

4.2.3 Ers i mi adrodd i chi y tro diwethaf, mae'r elfen yma o'r prosiect wedi canolbwyntio ar sefydlu teclyn proffil dysgwyr, sef teclyn sy'n cael ei ddefnyddio i adnabod pobl ifanc sy'n debygol o ymddieithrio. Er bod ffigwr NEET Gwynedd yn ymddangos yn eithaf isel ar hyn o bryd, mae'r teclyn wedi adnabod 430 o bobl ifanc (Blwyddyn 7-11) sydd yng nghategori risg uchel. Mae'r teclyn yn defnyddio dangosyddion caled megis presenoldeb, ymddygiad a chyrhaeddiad i wneud yr asesiad, ac wedyn yn bandio pobl ifanc yn ôl y sgôr '*Immediate Action, Close Watch, No Watch*'. Mae mwyafrif o ddisgyblion Gwynedd yn y categori '*no watch*'. O safbwynt y 430 sydd wedi'i hadnabod yn risg uchel ar hyn o bryd, mae canran wedi eu cyfeirio at brosiect TRAC ac mae ymyraethau penodol yn cael eu llunio er mwyn eu tynnu allan o'r categori yma.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1. Ceir trosolwg o berfformiad mesurau Ieuenctid, Hamdden; a Phlant a Chefnogi Teuluoedd yn **Atodiad 1**.

5.2. Ar y cyfan mae'r mesurau yn perfformio'n dda, gyda rhai meysydd yn perfformio'n dda iawn, sy'n awgrymu ein bod ar y trywydd cywir. Fodd bynnag, mae gwaith pellach angen ei wneud i ddadansoddi rhai o'r mesurau a thrwy hynny wella'r gwasanaeth a gynigir i bobl Gwynedd.

**5.3. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd**

5.3.1 I osod y cyd-destun ar gyfer gwaith Adran Plant a Theuluoedd, rwyf yn awyddus i nodi'r nifer o blant mewn gofal, a'r cynnydd a welir i'r ffigwr yn ystod y flwyddyn. Ar ddiwedd Mehefin 2016, roedd 214 o blant yng ngofal y Cyngor. Mae hyn yn gynnydd o 15% ar y nifer mewn gofal o'i gymharu ag adeg yma flwyddyn ddiwethaf.

| **Plant Mewn Gofal** | **2016/17 (Mehefin)** | **2015/16 (Mehefin)** | **2014/15 (Mehefin)** |
|---|---|---|---|
| Nifer o blant mewn gofal ar ddiwedd y cyfnod | 214 | 186 | 188 |
| Nifer o leoliadau newydd | 22 | 9 | *17* |
| Nifer o blant wedi dod allan o ofal | 15 | 16 | - |
| Nifer o blant wedi eu mabwysiadu | 0 | 5 | - |

5.3.2 Mae'r cynnydd yma yn duedd sy'n cael ei adlewyrchu ar lefel Rhanbarthol a Chenedlaethol. O ddadansoddi'r cynnydd, mae 87% (19/22) yn achosion lle gwnaed cais i'r llys teulu yn dilyn cyfnod lle na welwyd newid mewn ymddygiad rhieni. Mae nifer o'r achosion hyn wedi aros gartref gyda rhiant o dan amodau'r llys tra bod gwaith rhiantu pellach yn cymryd lle o dan gyfarwyddyd y llys. Ni ellir rhagdybio sawl plentyn fydd yn parhau mewn gofal ei riant ar ddiwedd yr achos llys. Dros y cyfnod o flwyddyn mae'r nifer o blant sydd wedi eu lleoli gyda'u rhieni o dan Orchymyn Gofal wedi cynyddu o 27 i 56. Mae'r mathau eraill o leoliadau plant mewn gofal wedi aros yn sefydlog dros yr un cyfnod. Rwy'n grediniol byddai'r ffigwr plant mewn gofal yn uwch petai'r pecyn o brosiectau / gwasanaethau ataliol megis Tîm Trothwy Gofal a Thîm Gyda'n Gilydd ddim mewn lle.

5.3.3 Rwyf hefyd yn awyddus i dynnu sylw at rhai o'r mesurau eraill Adran Plant a Theuluoedd, lle mae perfformiad yn dangos lle i wella:

- **Canran ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn (SCC/025)**. Gwelir bod y canran wedi disgyn mymryn yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 87.7% yn 2014/15 i 86.9% yn 2015/16. Mae'r ffigwr yma yn is na'r ffigwr Cenedlaethol sydd yn 88.1% a'r ffigwr Teulu Gwledig sydd yn 87.98%. Mae'r ffigwr hyd yma ar gyfer y flwyddyn 2016/17 yn 83.4%. Rwyf wedi holi'r Adran am y ffigyrau, a'r hyn sy'n dod yn amlwg yw bod yr ymweliadau yn cymryd lle, ond bod y gweithwyr ddim yn cofnodi ar y ffurflen bwrpasol ar system RAISE. Rwyf eisoes wedi gofyn a oes modd edrych ar ffordd arall o gofnodi, h.y. bod y gweithwyr yn cario iPad neu declyn gyda fo/hi a llenwi'r wybodaeth yn syth ar ôl yr ymweliad. Mae hyn yn codi cwestiwn ynglŷn â'r holl ddogfennau sydd angen eu cwblhau a byddai'n fuddiol cael trafodaeth bellach ar y mater yma.

- Rwyf yn falch o weld cynnydd sylweddol yn y ***canran o blant mewn gofal a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod (SCC/024)***. Ar ddiwedd 2015/16, roedd y perfformiad yn isel iawn ar 37.9%. Rwy'n falch o ddweud bod y ffigwr wedi codi i 72.7% (Gorffennaf 2016). Golygai hyn mai dim ond un plentyn oedd ddim wedi derbyn Cynllun Addysg Bersonol o fewn yr amserlen, ond fe allaf gadarnhau eu bod wedi derbyn eu cynllun erbyn hyn.
- Mae'r gwaith o ddatblygu mesurau sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaethau o fewn yr Adran yn parhau, gyda sesiwn wedi'i gynnal ym mis Mehefin gyda rheolwyr ac uwch reolwyr, gydag amserlen o gwblhau'r broses i ddigwydd erbyn mis Medi. Mae gwaith wedi'i wneud hefyd i addasu'r mesurau Cenedlaethol sy'n ofynnol i'w casglu o Ebrill 2016 yn sgil y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe welwch chi rhai o'r mesurau newydd yma yn **Atodiad 1**.

### 5.4. Gwasanaeth Ieuenctid

5.4.1 O ran mesurau Gwasanaeth Ieuenctid, rwy'n falch o weld bod ***nifer pobl ifanc sy'n derbyn achrediadau trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid*** wedi codi i 2807 yn ystod 2015/16, sy'n gynnydd o 758 ers 2014/15. Mae'r achrediadau yma yn gyfuniad o achrediadau Gwobr Dug Caeredin, Agored Cymru a Phrifysgol Bangor.

### 5.5. Gwasanaeth Hamdden

5.5.1 Gyda mesurau Hamdden, gwelir bod ***nifer yr ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul pen y boblogaeth*** wedi dod i lawr ar gyfer flwyddyn 2015/16, o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt. Y rheswm am hynny yn syml yw bod un canolfan wedi bod ar gau am 6 mis ar gyfer gwaith uwchraddio. Er bod y ffigwr yn dangos gostyngiad, mae perfformiad Gwynedd yn arbennig o dda i'w gymharu gyda gweddill Cymru, gyda Gwynedd yn parhau yn y chwartel uchaf yng Nghymru, gyda dim ond Blaenau Gwent a Wrecsam yn uwch. Yn ogystal, mae gwybodaeth sydd wedi'i gasglu ar nifer yr ymweliadau o Ebrill 2016 hyd yma yn awgrymu bod y ffigyrau yn gyson hefo blynyddoedd blaenorol, ond, rhagwelir gostyngiad yn ystod misoedd yr Haf oherwydd tywydd braf.

5.5.2 Bu gostyngiad yn y ffigwr ***canran o blant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon y Cwricwlwm Cenedlaethol*** i 78% yn 2015/16 o'i gymharu â 82% yn 2014/15. Bu newid i'r prawf nofio ar draws Cymru yn ddiweddar, ac o ganlyniad, roedd y Gwasanaeth Hamdden yn rhagweld y byddai'r ffigwr yn disgyn gan fod y prawf yn fwy heriol. Prif rwystrau ar gyfer gwella'r perfformiad ydi diffyg cyllid gan ysgolion er mwyn danfon plant yn gyson i'r gwersi yn ystod y flwyddyn ysgol, a lleihad yn y grant nofio am ddim sydd yn golygu bod llai o athrawon yn cael eu hyfforddi er mwyn dysgu nofio i'r safon angenrheidiol. Rwyf wedi gofyn i'r Gwasanaeth ystyried yr uchod a gweld os oes modd goresgyn y rhwystrau, a chodi'r ffigwr erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 6. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION

### 6.1. Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd

6.1.1 Mae amryw o gynlluniau 2016/17, gan gynnwys y toriadau, wedi eu gwireddu. Roedd Adolygiad Chwarter Cyntaf y gyllideb refeniw 2016/17 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 12 Gorffennaf yn cyfeirio at y meysydd lleoliadau/maethu a dangos gorwariant posib, gydag elfen o'r gorwariant oherwydd methiant posib i gyflawni'r targed arbedion yn llawn. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Adran, rwy'n ffyddiog fod y rhaglen waith i wireddu'r arbedion mewn lle, a bydd y rhain yn cael eu cyflawni'n llawn. Mae'r gorwariant wedi digwydd o ganlyniad i'r pwysau sylweddol ar y gofyn am y gwasanaeth, a'r nifer o blant mewn gofal yn cynyddu, fel rwyf eisoes wedi nodi o dan bennawd 'mesur perfformiad'. Mae ychydig o achosion risg uchel, ac felly cynlluniau gofal drudfawr, ynghyd a'r nifer uwch na'r arfer am y chwarter wedi dod i ofal am y tro cyntaf (22 achos, gyda 19 yn achos llys). Mae'r crynhoad gwariant am weddill y flwyddyn, felly'n cynnwys y ffactorau hyn yn ogystal â rhagdybiaethau achosion ychwanegol. Rwy'n ffyddiog bod trefniadau mewn lle i adolygu fel rhan o'r cynllun gwireddu.

### 6.2. Adran Economi a Chymuned (Hamdden ac Ieuenctid)

6.2.1 Mae'r Adran Economi a Chymuned hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol, a'r rhagolwg yn addawol iawn ar gyfer arbedion a thoriadau yn ystod 2016/17, ac i raddau, 2017/18 ar wahân i Gynllun HAM4, sef rhedeg cyfleusterau yn fwy effeithiol. Er bod rhaglen waith ar y gweill, mae'r rhagolwg presennol yn awgrymu na fydd modd gwireddu'r cynllun hwn yn llawn o fewn yr amserlen a ragwelwyd yn wreiddiol. Rwyf wedi gofyn i'r Adran ystyried datrysiad ar gyfer hyn cyn gynted â phosib.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Prif Weithredwr:**

"Fel yr wyf wedi ei nodi mewn adroddiadau perfformiad eraill sydd gerbron y Cabinet, mae'n bwysig cydnabod y gwaith da sydd yn cael ei wneud i gyflawni addewidion cyhoeddus y Cyngor hyd yn oed ar adeg pan y mae adnoddau yn crebachu. Yn benodol, yn y maes hwn, mae datblygu'r agenda ataliol yn fwy pwysig nag arfer. Yn amlwg, mae meysydd lle mae lle i wella ac mae rhain yn cael eu cydnabod. Yn olaf mae gweithredu ar yr arbedion sydd wedi eu cytuno, er yn amhleserus tu hwnt yn allweddol a rhaid cadw'r trwyn ar y maen i wireddu'r hyn sydd wedi eri ymrwymo yn y maes hwn."

**ii. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Nodaf yn rhan 6.1 o'r adroddiad fod gorwariant yn yr Adran Plant (fel adroddwyd i'r Cabinet yn yr adolygiad chwarter cyntaf o gyllideb 2016/17 yng Ngorffennaf). Byddaf yn ceisio cynorthwyo'r Adran Plant i reoli'r gyllideb lleoliadau/maethu, tra'n nodi fod y gwariant uwch oherwydd galw anochel o nifer uwch o achosion, yn arbennig rhai risg uchel."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Perfformiad

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.

## ATODIAD 1 – Mesurau Plant a Chefnogi Teuluoedd, Ieuenctid a Hamdden

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2016-17 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | | | | | |
| **IEU05** | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasanaeth Ieuenctid | 2323 | 2049 | 2807 | 647 |
| | **Sylwadau:**<br><br>**IEU - 2015/2016** - 813 o achrediadau Cenedlaethol wedi'i gwblhau trwy'r Gwasanaeth Ieuenctid yn cynnwys Gwobr Dug Caeredin & Agored Cymru. 1,994 achrediad/ tystysgrif lleol yn cynnwys Prifysgol Plant, sef cyfanswm o 2807 o achrediadau. Cynyddiad o 758.<br><br>**2016/2017** – Ebrill 2016 ymlaen - Ar hyn o bryd yn gallu cadarnhau 647 achrediadau - mi fydd ffigyrau cywir cenedlaethol a lleol (Prifysgol Plant) ar gael diwedd Medi – dal yn casglu'r wybodaeth a gwaith pobl ifanc sydd wedi ymgysylltu yn ystod yr Haf. | | | | |
| **Gwasanaeth Hamdden** | | | | | |
| LCS/002b | Nifer o ymweliadau i ganolfannau hamdden fesul 1000 y pen o'r boblogaeth | 1206 | 13,790 | 10,278 | 2,661 |
| DADH.42 | Canran o blant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio | 79% | 82% | 78% | Dim gwybodaeth ar gael cyn Chwarter 3 2016/17 pryd bydd y Gwasanaeth yn cynnal profion nofio am y flwyddyn |
| Ifanc02 | Canran o blant Ysgolion Uwchradd Gwynedd sydd wedi mynychu unrhyw weithgaredd wedi ei drefnu gan Swyddogion Pobl Ifanc Egnïol o leiaf ugain gwaith yn ystod y flwyddyn fel rhan o gynllun 5x60 | 22.57% | 19.16% | Disgwyl canlyniadau gan Chwaraeon Cymru | Targedau'r flwyddyn yn 20% |
| | **Sylwadau:**<br><br>**LCS/002b**: Perfformiad 2015-2016 wedi gostwng yn dilyn i un canolfan fod ar gau am 6 mis ar gyfer gwaith uwchraddio. Gwybodaeth ddiweddaraf eleni (Chwarter 1) yn awgrymu bod y nifer ymweliadau yn gyson a'r blynyddoedd blaenorol ac sy'n agos iawn at y targed. Fodd bynnag, rhagwelir gostyngiad yn ystod misoedd yr haf oherwydd y tywydd braf. | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **DADH.42:**<br>Bu gostyngiad yn y perfformiad ar ddiwedd y flwyddyn academaidd 2015/2016. Hynny yn bennaf oherwydd bod y prawf nofio wedi newid ar draws Gymru. Rhagwelwyd y byddai hynny yn digwydd gan fod y prawf bellach yn fwy heriol i blant ond mae'r gostyngiad yn llai na ragwelwyd. Prif rwystrau ar gyfer gwella'r perfformiad ydi i) diffyg cyllid gan ysgolion er mwyn danfon plant yn gyson i'r gwersi yn ystod y flwyddyn ysgol a ii) lleihad yn y grant nofio am ddim sydd wedi golygu bod llai o athrawon yn cael eu hyfforddi er mwyn dysgu nofio i'r safon angenrheidiol.<br><br>**Ifanc02:**<br>Mae'r gyllideb ar gyfer cynnal gweithgareddau chwaraeon wedi ei leihau unwaith eto eleni gan Chwaraeon Cymru. Bydd cynnal yr un lefel o berfformiad felly yn her ac o ganlyniad nid oes targed rhy uchelgeisiol wedi ei osod. Bydd cynnal yr un lefel o berfformiad yn ganlyniad da o dan yr amgylchiadau. | | | | |
| **Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd** | | | | | |
| Diogelu 7 | Canran o gynadleddau achos lle bu glywed llais/ barn y plenty (ac eithrio plant o dan 7 oed) | 81% | 83% | 85% | 78% |
| LLes PMG1 | Cynllun Trosiannol wedi ei gytuno ar gyfer plant anabl yn 16 oed | 100% | 100% | 100% | 100% |
| Lles PMG 2 | Cynllun llwybr clir wedi ei gytuno ar gyfer plant mewn gofal | 100% | 100% | 100% | 100% |
| PMC33/SCC004 | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn | 4.9% | 6.2% | 7.7% | 1% |
| SCC/041(b) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol sydd wedi cael cynghorydd personol wedi'I ddyrannu iddynt | 100% | 100% | 100% | 100% |
| SCC/024 | Canran y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn a chanddynt Gynllun Addysg Bersonol o fewn 20 diwrnod ysgol I dderbyn gofal neu hymuno ag ysgol newydd yn ystod y flwyddyn | 86.5% | 82.1% | 37.9% | 72.7% |
| SCC/025 | Canran yr ymweliadau statudol a phlant sy'n derbyn gofal oedd yn fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | 83.7% | 89% | 86.9% | 84% |
| SCC/041 (a) | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol, a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | 91.2% | 100% | 100% | 100% |
| Diogelu 1 | Cyfradd y plant a gafodd eu trafod mewn goruchwyliaeth, lle rhoddwyd ystyriaeth i niwed arwyddocaol | 100% | 100% | 100% | 100% |
| BC01 | Asesiad SOGS (Schedule of Growing Skills) 2 oed canran plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol | - | - | 56% | Adrodd yn dymhorol |
| BC02 | Asesiad SOGS 3 oed Canran Plant Dechrau'n Deg yn cyrraedd eu norm neu yn uwch nai norm datblygiadol | - | - | 51% | Adrodd yn dymhorol |
| BC03 | Canran presenoldeb plant sy'n 2 oed yn Dechrau'n Deg | - | - | 83% | Adrodd yn dymhorol |
| BC04 | Nifer o'r pecynnau cymorth uwch rhiantu sy'n arwain at deithio pellter cadarnhaol | - | - | 48% | Adrodd yn dymhorol |
| Diogelu 2 | Cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno I Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau | - | 98% | 97% | 90.3% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| CPS3 | Canran o gynnydd a waned gan deuluoedd yn dilyn ymyrraeth y Tîm o Amgylch y Teulu (ar gyfartaledd) | - | - | 25.3% | 22% |
| SCC021 | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal wedi eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn | - | 93.8% | 90.8% | 89.1% |
| PMC32` | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd â phrofiad o symud ysgol unwaith neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth | 22.8% | 16.10% | 18.1% | 3% |
| | **Sylwadau:**<br><br>**Diogelu 7 -** 105 o blant wedi eu trafod mewn cynadleddau achos (8 cyn-geni wedi eu heithrio). O'r rhain roedd 40 yn 8 oed neu drosodd. 31/40 o blant wedi rhoi barn mewn cynhadledd achos.<br><br>**LlesPMG1** – Cohort yn 0 yn chwarter 1 (dim plentyn anabl mewn gofal ac yn 16 oed)<br><br>**PMC33 (SCC004)** – Dau blentyn wedi bod mewn o leiaf 3 lleoliad yn y cyfnod. 214 o blant mewn gofal ar ddiwedd chwarter 1<br><br>**SCC024 -** 3 plentyn heb gael PEP ar amser. TL wedi cychwyn pecyn 25 awr ddiwedd Ionawr y Pep yn ddyddiedig 11/4/16. KC wedi symud i gartref plant ar 31/3/16 ac wedi cychwyn addysg ddiwedd Mai - yr ysgol ddim wedi cwblhau PEP hyd at 30/6/16. Ceisiadau wedi mynd i'r ysgol ar 26/5/16 a 6/7/16. JS wedi bod yn derbyn addysg gartref cyn symud i Ganolfan Addysg Gyffin yng Nghonwy ar 15/2/16 - yr ysgol wedi cwblhau'r PEP ar 10/5/16<br><br>**SCC025 -** 395 o ymweliadau statudol wedi eu cwblhau ar amser yn y cyfnod. Cafodd 57% o'r ymweliadau hwyr eu gwneud rhwng 1 a 10 diwrnod o'r targed. Roedd 18 o ymweliadau heb gofnodi ar 30/6/16.<br><br>**Diogelu 1 -** hwn wedi ei ymestyn ar draws phob tîm plant erbyn 30/6/16.<br><br>**CSP3 –** addasiad i'r mesurydd hwn ar gyfer chwarter2.<br>Mesurydd newydd - Canran o deuluoedd sydd wedi adrodd 'cynnydd' yn dilyn derbyn gwasanaeth gan TAT (Tîm o Amgylch y Teulu)<br>**SCC021 -** 122 o adolygiadau statudol wedi eu gwneud yn y cyfnod. Cafodd 36% o'r adolygiadau hwyr eu gwneud rhwng 1 a 10 diwrnod o'r targed. 2 adolygiad heb eu cynnal hyd at 30/6/16 wrth fod y rhiant maeth yn yr ysbyty.<br><br>**PMC32 (SCC002) -** 4 o blant wedi symud ysgol yn y cyfnod. Roedd y pedwar wedi symud am resymau positif ac er lles y plant. | | | | |

# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 4 Hydref, 2016 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Thomas,<br>Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Addysg |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau yn yr Adran.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli ynghyd a'r tîm arweinyddiaeth.

1.3. Mae canlyniadau amodol Haf 2016 yn dangos bod perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y cyfnodau allweddol, ond mae lle i wella yn y meysydd penodol:

- **4.1.2 Sector Cynradd** – Mae lle i wella perfformiad Cyfnod Sylfaen gan fod canlyniadau wedi aros statig dros y blynyddoedd diwethaf. Rwyf wedi gofyn i'r Adran i fynd o dan groen y ffigyrau yma yn ystod misoedd nesaf, i ddarganfod y rhwystrau.
- **Sector Uwchradd – Lefel A** – Mae ffigyrau 2016 yn dangos bod 96.2% wedi ennill Lefel A A*-E. Mae'r ffigwr yma yn -1.1% yn is na'r ffigwr Cenedlaethol a'r ffigwr isaf yng Ngogledd Cymru.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**2. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**3. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

**3.1. P1 Gwella a Chysoni Safonau Addysg**

3.1.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau.

3.1.2 Ers y cyfarfod diwethaf, mae'r prosiect wedi cadarnhau'r model newydd o gefnogi'r ysgolion er mwyn cryfhau'r system cefnogi ysgol i ysgol a gwella deilliannau cyfnod allweddol. Bydd yn bosib gweld effaith gweithredu'r model yn y categoreiddio ysgolion sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref.

3.1.3 Mae manyleb mewn lle gyda GwE ar gyfer 2016-17, ac un o'r prif flaenoriaethau yw cael rhaglen o fonitro a chefnogi ysgolion gan weithredu rhaglen gefnogaeth a her ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn y gwahanol gategorïau.

**3.2. P2 Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

3.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

3.2.2 Mae Cabinet Cyngor Gwynedd eisoes wedi cefnogi argymhelliad i ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar yr egwyddorion craidd a fydd yn gosod sylfeini ar gyfer sefydlu cyfundrefn '*Addysg i Bwrpas i Wynedd*'. Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, mae'r prosiect wedi bod yn canolbwyntio ar ddylunio strwythur arweinyddiaeth newydd, a'r cysyniad o '*Ysgol Gwynedd*'.

3.2.3 Wrth ddilyn y dull o '*Ysgol Gwynedd*', mae'n ofynnol gwneud newidiadau o ran trefn reolaethol a llywodraethol ysgolion.

3.2.4 Yn ogystal, mae'r Adran Addysg yn y broses o sefydlu'r swyddfeydd ardal a fydd yn hyrwyddo'r model yma o gydweithio wrth resymoli a rhyddhau penaethiaid i arwain yn effeithiol.

**3.3. Rhaglen Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i'r Dyfodol**

**3.3.1 P3 Ysgol Hafod Lon**

Pwrpas y prosiect yma yw darparu ysgol arbennig i ddisgyblion Meirionnydd a Dwyfor yn dilyn y penderfyniad i gau'r adeilad Ysgol Hafod Lon bresennol.

Mae'r gwaith paratoadol yn ymwneud a phenodi a hyfforddi staff a throsglwyddo disgyblion ar gyfer agor yr ysgol dechrau mis Tachwedd yn parhau.

### 3.3.2 P4 Ysgol Bro Idris

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol cyfrwng Cymraeg 3-16 oed yn nalgylch y Gader.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserol a osodwyd ac mae trafodaethau yn parhau gyda chorff cysgodol Ysgol Bro Idris ar gyfer cytuno'r strwythur staffio a'r trefniadau ar gyfer yr ysgol newydd. Cyhoeddwyd Rhybudd Statudol ar gynnig i gau Ysgol Machreth ar 14 Mehefin. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad yn ystod y cyfnod gwrthwynebu, a phenderfynwyd cau'r ysgol ar 31 Awst, 2016.

### 3.3.3 P5 Ysgol Glancegin

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor.

Nid oes unrhyw beth ychwanegol i'w adrodd ar y prosiect ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, heblaw bod y gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen yn unol â'r amserlen a osodwyd.

### 3.3.4 P6 Dalgylch y Berwyn

Disgwylir y bydd y gwaith o osod yr arwyneb 3G synthetig newydd ar Faes Tegid yn cael ei gwblhau yn yr wythnosau nesaf. Bydd holl ddisgyblion yr ardal yn cael mynediad i'r adnodd arloesol hwn, a fydd yn caniatáu i chwaraeon gael eu cynnal trwy gydol y flwyddyn, beth bynnag fo'r tywydd.

### 3.3.5 P7 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad

Bydd adroddiad yn cael ei chyflwyno i Gabinet Cyngor Gwynedd 13 Medi, 2016 a Phwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn ar y 19 Medi, 2016 yn gofyn cymeradwyaeth i:

- Fabwysiadau un strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn;
- Ymuno mewn partneriaeth ffurfiol efo Cyngor Sir Ynys Môn i weithredu'r Strategaeth a mabwysiadu trefn llywodraethu newydd a fydd yn disodli'r Cydbwyllgor Anghenion Addysgol Arbennig presennol;
- Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad efo'r Pennaeth Cyfreithiol a'r Pennaeth Cyllid i gytuno a chwblhau Cytundeb ffurfiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y bartneriaeth;
- Ac yn yr un modd Cytundeb/Memorandwm o Ddealltwriaeth yn y cyfnod interim er mwyn caniatáu i ni weithredu er mwyn cyrraedd y pwynt yma.

O dderbyn y gymeradwyaeth yma bydd y broses ymgynghori ffurfiol yn cychwyn efo'r gweithlu sydd yn cael eu heffeithio (diwedd Medi).

## 4. MESUR PERFFORMIAD

### 4.1. Canlyniadau Amodol Haf 2016

4.1.1 Rwy'n atodi copi o ganlyniadau amodol Haf 2016 yn ***Atodiad 1***.

4.1.2 Mae'r ffigyrau amodol yn dangos bod perfformiad Gwynedd yn gyffredinol dda ar draws y cyfnodau allweddol. Dyma'r prif negeseuon:

- **Sector Cynradd**: Mae lle i wella perfformiad ***Cyfnod Sylfaen*** gan ei fod wedi aros yn statig ers 2 flynedd. Rwyf wedi gofyn i'r Adran i fynd o dan groen y ffigyrau yma yn ystod y misoedd nesaf, a gweld os oes yna rwystrau.
- Mae perfformiad ***Cyfnod Allweddol 2*** wedi gwella, gyda chynnydd o +0.3% ar ffigwr 2015. Mae perfformiad yn gosod Gwynedd ar 7fed safle yn Genedlaethol.
- **Sector Uwchradd**: Mae canran ***Cyfnod Allweddol 3*** yn llwyddiannus eto eleni (92%), gyda'r perfformiad wedi bod yn uwch na'r meincnod disgwyliedig Cymru ers 2012 ac yn sylweddol uwch na'r ffigwr Cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf. Mae Gwynedd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru am bedair blynedd a gwelir cynnydd eto ar y ffigwr 2016 (+0.7%). Mae'r perfformiad yn parhau i osod Gwynedd ymhlith yr awdurdodau gorau Cymru, yn safle 2 yn 2016.
- Mae'r awdurdod hefyd wedi gweld gwelliant ym mherfformiad ***Cyfnod Allweddol 4.*** Yn 2016, gwelir cynnydd sylweddol o +5.2% yn y ganran sydd wedi llwyddo i groesi trothwy Lefel 2+ (cyfwerth a phump TGAU graddau A i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg a Mathemateg). Mae'r perfformiad yn awgrymu gall Gwynedd fod yn safle 2 o blith holl awdurdodau Cymru
- **Lefel A:** Mae ffigyrau 2016 yn dangos bod ***96.2% wedi ennill Lefel A A*-E***. Mae'r ffigwr yma yn -1.1% yn is na'r ffigwr cenedlaethol a'r ffigwr isaf yng Ngogledd Cymru. Ar y llaw arall, mae'r nifer o bobl ifanc sydd wedi ***ennill A*-A yn 20.2%,*** sy'n rhoi Gwynedd ar y brig yng Ngogledd Cymru. Ymddengys mai'r prif wendid eleni yw'r nifer o raddau U a gafwyd, sef 32. Mae rhai o'r cyrsiau a berfformiodd wanaf eisoes wedi'i dileu oddi ar y cwricwlwm ac ni fyddent yn rhedeg o fis Medi 2016 ymlaen. Mae trefniadau eraill partneriaethol wedi eu gwneud ar gyfer dysgu'r pynciau hyn. Yn ogystal, mae Swyddog Addysg newydd wedi'i phenodi bydd a chyfrifoldeb am y maes ôl-16 o fewn y Sir, ac mae GwE wedi cytuno i gydweithio i wella safonau yn y maes. Bydd hyn yn digwydd ar y cyd gyda chonsortiwm Addysg ôl-16 Gwynedd a Môn.

### 4.2. Presenoldeb

4.2.1 Mae cynnydd rhagorol i'w weld yng nghanran presenoldeb ein hysgolion uwchradd. Gwynedd yw'r awdurdod cyntaf i gyrraedd presenoldeb uwch na 95% ar gyfer ysgolion uwchradd ac arbennig, gyda'r ysgolion uwchradd yn adrodd ar gymedr o 95.16%. Mae 95% yn ein gosod yn gyntaf o ran awdurdodau Cymru. Nid yw'r ffigyrau presenoldeb cynradd wedi'u cyhoeddi, felly gallaf adrodd ar rheiny tro nesaf.

**4.3. Data Arolygiadau Ysgolion**

4.3.1 Atodaf gopi o ddata arolygiadau ysgolion fel ***Atodiad 2***.

4.3.2 Gwelir fod proffil arolygiadau Estyn yn dda iawn ers Hydref 2015, gyda dim un ysgol wedi mynd i gategori statudol Estyn. Yn ystod blwyddyn addysgol 2015-16, bu i Estyn cynnal arolygiad mewn 13 ysgol [12 cynradd ac 1 uwchradd]. Mewn 8 ysgol [61.5%], dyfarnwyd nad oedd angen unrhyw weithredu dilynol; mewn 3 ysgol [23.1%] dyfarnwyd categori dilyniant lleiaf dwys [Monitro Awdurdod]. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, yr angen i wella presenoldeb oedd y prif reswm dros y gweithgarwch dilynol. Mewn 2 ysgol [15.4%] dyfarnwyd yr angen am ymweliad monitro pellach gan Estyn. Ni osodwyd unrhyw ysgol mewn categori statudol.

4.3.3 Atodaf gopi o holl fesurau Adran Addysg fel ***Atodiad 3.*** Gan fod nifer o'r mesurau yn cael eu hadrodd yn flynyddol, disgwylir ffigyrau erbyn mis Rhagfyr 2016.

**5. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL**

5.1. Ers i mi adrodd i chi tro diwethaf, fe welir bod rhywfaint o gynnydd o ran cynllun Ffordd Gwynedd – Uned Gyflogau a Chontractau yn 2016-17, ac mae arbedion sylweddol yn cael eu rhagweld gyda chynllun Anghenion Dysgu Ychwanegol i'r dyfodol. Mae cymhlethdod datrysiad y ddau gynllun yma wedi arwain at rywfaint o lithriad, ond rwy'n gyfforddus bod cynnydd derbyniol erbyn hyn, gyda rhaglen waith clir yn bodoli.

5.2. Mae gwaith yn parhau i gyflenwi'r £4.3m o arbedion ysgolion oedd yn rhan o'r strategaeth ariannol a gymeradwywyd ym mis Chwefror 2016.

**6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

6.1. Dim i'w nodi.

**7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**7.1. Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Prif Weithredwr:**

"Mae'n dda gweld cystal cynnydd gyda chynifer o brosiectau'r Cynllun Strategol. Mae'n dda hefyd gweld yr adroddiad cychwynnol ar ganlyniadau amodol arholiadau'r haf. Erbyn y cyfarfod o'r Cabinet, bydd y mater hwnnw wedi cael ei graffu gan y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau i weld a oes ôl llwyddiant y Prosiect Gwella a Chysoni Ansawdd Addysg. Y pwynt olaf o bwys i'w wneud yw pwysigrwydd gwireddu'r arbedion y mae'r adroddiad yn cyfeirio atynt ym mharagraff 5. Fel y mae'r adroddiad yn awgrymu, mae gwireddu rhai o'r cynlluniau mwy cymhleth yn medru bod yn anodd ond rhaid cadw ffocws clir arnynt i sicrhau'r gwireddu hynny."

**ii. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**iii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Canlyniadau Amodol Haf 2016 |
| **Atodiad 2** | Data Arolygiadau Ysgolion |
| **Atodiad 3** | Mesurau Adran Addysg |

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.

## ATODIAD 1 – CANLYNIADAU AMODOL HAF 2016

### 1. CYFNOD SYLFAEN:

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS):

| | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 85.2% | 86.8% | 86.8% |
| **Cymru** | 85.2% | 86.8% | 86.8% |
| **Safle (1=gorau)** | 10 | 10 | 14 |

Yn y DCS, cynnydd bychan [+0.1%] ers 2015 ac yn gosod Gwynedd yn safle 14 o'r 22 Awdurdod. Perfformiad ychydig [-0.6%] yn is na tharged.

### 2. CYFNOD ALLWEDDOL 2:

Canran o ddisgyblion sydd wedi cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) ar ddiwedd CA2:

| | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 86.0% | 89.5% | 89.8% |
| **Cymru** | 86.1% | 87.7% | 87.7% |
| **Safle (1=gorau)** | 14 | 6 | 7 |

Yn y DPC cynnydd +0.3% ar ffigwr 2015 a +1.1% yn uwch na tharged [cynnydd cenedlaethol +0.9%]. Perfformiad 2016 yn gosod yr ALl yn safle 7 sydd yn is na'r safle Prydau Ysgol am Ddim disgwyliedig.

### 3. CYFNOD ALLWEDDOL 3:

Canran o ddisgyblion sy'n cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd (DPC) yn CA3:

| | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 89.1% | 91.3% | 92.0% |
| **Cymru** | 81.0% | 83.9% | 83.9% |
| **Safle (1=gorau)** | 1 | 1 | 2 |

Yng Nghyfnod Allweddol 3, mae perfformiad yn y DPC wedi bod yn uwch na meincnod disgwyliedig Cymru ers 2012 ac yn sylweddol uwch na'r ffigwr cenedlaethol am y pum mlynedd diwethaf Mae Gwynedd wedi perfformio orau o holl awdurdodau Cymru am bedair blynedd o'r bron a gwelir cynnydd eto ar ffigwr 2015 [+0.7%] Mae'r perfformiad yn parhau i osod Gwynedd ymhlith awdurdodau gorau Cymru – safle 2 yn 2016.

### 4. CYFNOD ALLWEDDOL 4:

Perfformiad disgyblion 15 oed mewn cymhariaeth â Chymru ac awdurdodau eraill:

| Gwynedd | 2014 | | 2015 | | 2016 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | % | Safle | % | Safle | % | Safle |
| **TL1** – Dysgu gyfwerth a phump TGAU D | 97.2 | 1 | 97.9 | 1 | 98.7 | - |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| i G | | | | | | |
| **TL2**- Dysgu gyfwerth a phump graddau *A i C | 87.7 | 4 | 88.9 | 5 | 88.6 | - |
| **TL2+** | 61.1 | 5 | 63.3 | 5 | 68.5 | 2 |
| **DPC** – Dangosydd pynciau craidd: % dysgwyr sy'n cyflawni'r lefel disgwyliedig yn y Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth | 60.5 | 2 | 62.4 | 3 | 67.1 | - |

Yn 2016, mae'r awdurdod wedi gwella ymhellach ar ei berfformiad gyda chynnydd sylweddol o +5.2% yn y ganran sy'n llwyddo i groesi trothwy y prif ddangosydd TL2+ (data cyfwerth a phump TGAU *A-C). Mae'r perfformiad yn debygol iawn o osod Gwynedd yn agos neu ychydig yn uwch na'r meincnod disgwyliedig. Mae data cenedlaethol amrwd yn awgrymu y gall Gwynedd fod yn safle 2 o blith holl awdurdodau Cymru [i'w gadarnhau].

## 5. LEFEL A:

| | A*-A | | A*-C | | A*-E | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015 | 2016 | 2015 | 2016 | 2015 | 2016 |
| Gwynedd | 24.9% | 20.2% | 77.0% | 69.6% | 97.5% | 96.2% |
| Cymru | 23.1% | 22.7% | 74.3% | 73.8% | 97.3% | 97.3% |

Yn 2016 roedd y cyfraddau gradd fel a ganlyn (seiliedig ar arholiadau CBAC):

- A*-E yn 96.2% (-1.1% yn is na'r ffigwr cenedlaethol a'r isaf yn rhanbarth GwE)
- A*-C yn 69.6% (-4.2% yn is na'r cenedlaethol a'r ail isaf yn rhanbarth GwE)
- A*-A yn 20.2% (-2.7% yn is na'r cenedlaethol ond yr uchaf yn rhanbarth GwE)

## 6. PRESENOLDEB UWCHRADD

| Ysgol | 2010/11 | 2011/12 | 2012/13 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ardudwy | 91.3 | 91.1 | 93.2 | 94.3 | 94.9 | 94.6 |
| Brynrefail | 93.3 | 93.8 | 94 | 94.3 | 94.9 | 95.7 |
| Syr Hugh Owen | 90.4 | 91.3 | 91.9 | 93.5 | 94.1 | 94.3 |
| Tryfan | 93.4 | 92.1 | 93.4 | 94.2 | 94.3 | 94.8 |
| Dyffryn Ogwen | 91.1 | 91.9 | 93 | 94.5 | 94.6 | 94.9 |
| Botwnnog | 92.8 | 92.8 | 94.6 | 95.2 | 94.9 | 95.1 |
| Glan y Môr | 92.8 | 92.1 | 94.1 | 95 | 95.3 | 95.2 |
| Tywyn | 92.8 | 92.5 | 94.7 | 95.3 | 94.9 | 95.4 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Gader | 92 | 93.8 | 93.5 | 93.9 | 95.1 | 95.4 |
| Berwyn | 90.6 | 92.9 | 94.2 | 95.3 | 95.9 | 96.2 |
| Moelwyn | 93.1 | 93.1 | 94.1 | 95 | 93.8 | 95.2 |
| Eifionydd | 91.7 | 90.9 | 93.4 | 94 | 94.1 | 95.3 |
| Dyffryn Nantlle | 92.6 | 92.7 | 93.7 | 94.6 | 95 | 95.5 |
| Friars | 90.6 | 90.9 | 92.3 | 93.3 | 94.1 | 94.6 |
| **Cyfartaledd Sir** | **92** | **92.3** | **93.6** | **94.4** | **94.7** | **95.16** |
| Cymru | 91.3 | 92.1 | 92.6 | 93.6 | 93.8 | 94.2 |

Mae pob ysgol uwchradd o fewn y chwarteli uchaf.
Mae nifer yr ysgolion yn y chwartel cyntaf wedi cynyddu o 5 yn 2014-15 i 8 yn 2015-16. Mae hyn yn golygu fod 57% o ysgolion uwchradd yr awdurdod yn chwartel cyntaf.

Mae nifer yr ysgolion yn yr ail chwartel wedi cynnyddu o 3 yn 2014-15 i 6 yn 2015-16.

Atodiad 2 Data Arolygiadau Ysgolion Gwynedd

**DATA AROLYGIADAU YSGOLION GWYNEDD – ERS IONAWR 2015**

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coedmawr | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> allan o gategori |
| Dolgellau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig> allan o gategori |
| Bro Plenydd | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Tanygrisiau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Ffridd y Llyn | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Traeth | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanaelhaearn | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> |
| Llanrug | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanelltyd | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Beddgelert | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Hirael | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> |
| Morfa Nefyn | Cynradd | Hydref 2015 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Monitro Awdurdod> |
| Foelgron | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Garndolbenmaen | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Pont y Gof | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Cymerau | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Nefyn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Manod | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Craig y Deryn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Llanllechid | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Waunfawr | Cynradd | Haf 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Bro Cynfal | Cynradd | Haf 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn > |
| Cae Top | Cynradd | Haf 2016 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Maenofferen | Cynradd | Hydref 2016 | | | | | | |
| Rhiwlas | Cynradd | Hydref 2016 | | | | | | |
| | | | | | | | | |
| Dyffryn Nantlle | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig> |
| Gader | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Gwelliant Sylweddol> |
| Syr Hugh Owen | Uwchradd | Gwanwyn 2016 | Digonol | Da | Da | Digonol | Da | Monitro Estyn> |

**ATODIAD 3 – MESURAU ADRAN ADDYSG**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | Blwyddyn Addysgol 12-13 | Blwyddyn Addysgol 2013-14 | Blwyddyn Addysgol 2014-15 | Blwyddyn Addysgol 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|
| EDU/008a | Nifer o waharddiadau parhaol yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd<br><br>**Sylwadau:** Ar gyfer flwyddyn addysgol 2015-16 bu i nifer y gwaharddiadau parhaol ddisgyn yn ôl i 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |
| EDU/ 008bN | Nifer o ddisgyblion a waharddwyd yn barhaol yn yr uwchradd yn ystod y flwyddyn academaidd | 4 | 4 | 3 | 3 |
| EDU/16a | Canran presenoldeb yn ysgolion cynradd yn y flwyddyn academaidd | 94.33 | 95.07 | 95 | I'w gadarnhau |
| EDU/16b | Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd yn y flwyddyn academaidd | 93.38 | 94.24 | 94.60 | 95.16 |
| DANS06 | Canran disgyblion 16 oed sydd yn ennill Dangosydd Pynciau Craidd (Gradd C neu uwch mewn Cymraeg/ Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) | 57.35 | 60.5 | 62.4 | 67.1 |
| DANS07 | Canran disgyblion 16 oed sy'n ennill trothwy lefel 1 (5 gradd A*-G TGAU) | 97.09 | 97.2 | 97.9 | 98.7 |
| DANOS 08 | Canran disgyblion 15 oed sydd wedi ennill trothwy lefel 2 (5 gradd A*-C TGAU) neu gyfatebol | 81.5 | 87.7 | 88.9 | 88.6 |
| DGD17 | Canran y bobl ifanc 16- 18 oed nad ydynt mewn addysg , gwaith neu hyfforddiant | 3.00 | 1.70 | 1.8% | I'w gadarnhau |
| EDU/004 | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd ar ddiwedd CA3 | 85.40 | 89.11 | 91.3% | 92.0 |
| EDU/006 ii | Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith Gyntaf) ar ddiwedd cyfnod allweddol 3 | 82.5 | 81.20 | 83.2% | I'w gadarnhau |
| EDU/011 | Cyfartaledd y sgor pwyntiau ar gyfer y disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdodau lleol | 578.20 | 616.00 | 617.2 | I'w gadarnhau |
| Edu/017 | Canran y disgyblion 15 oed ar 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2+ yn cynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | 58.0 | 61.1 | 63.3 | 68.5 |
| GY06 | Canran y disgyblion enillodd lefel 3 da neu uwch yn CA2 (7-11 oed) a gafodd asesiad athro yn y Gymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd CA3 (11-14 oed) | 95.60 | 94.10 | 95.4 | I'w gadarnhau |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 4ydd Hydref 2016 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Adnoddau |
| **Pwrpas:** | Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Peredur Jenkins |
| **Swyddog Cyswllt:** | Dilwyn Williams, Prif Weithredwr |

**1 CYFLWYNIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddaru fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Dirprwy Arweinydd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.

1.2 Byddwn yn eich hatgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafaodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Tim Rheoli (oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu) ynghyd a'r Tim Arweinyddiaeth.

1.3 Rwy'n gyfforddus gyda perfformiad yr Adrannau ar y cyfan ond byddwn yn tynnu eich sylw i'r materion canlynol:

1.3.1 **Prosiect Rhoi Ffordd Gwynedd ar Waith (C1) –** Bydd y nifer o adolygiadau yr ydym yn debygol o'u cwblhau yn ystod y flwyddyn yn lleihau o 12 i 7. Ceir gwybodaeth bellach yn 4.1 isod.

1.3.2 **Rhaglen datblygu arweinwyr (C2) –** Er bod y gwaith ar lefel uwch swyddogion yn mynd yn ei flaen yn unol a'r disgwyl mae yna bryder ynghylch ei addasrwydd i'r Aelodau Cabinet. O ganlyniad rwyf wedi cytuno i'r prosiect ganolbwyntio yr uwch swyddogion dros y misoedd nesaf gan ail ymweld ac anghenion yr Aelodau Cabinet yn ddiweddarach yn 2017. Ceir gwybodaeth bellach yn 4.2 isod.



**Cyswllt**:
01286 679868
01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

**2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**3 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

**4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL**

***Cyngor Effeithiol ac Effeithlon***

4.1. **C1 Rhoi Ffordd Gwynedd ar waith - Pwrpas y prosiect hwn fydd yn arwain timau gwasanaeth i adlewyrchu ar eu trefniadau gwaith presennol, i herio a ydynt yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog, ac i ystyried a oes lle i wella.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cwblhau 12 adolygiad gwasanaeth a hyrwyddo egwyddorion Ffordd Gwynedd ymysg rheolwyr y Cyngor.**

4.1.1 Erbyn hyn mae'r adolygiad o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol wedi cychwyn ac mae gwaith Tîm Ffordd Gwynedd wedi canolbwyntio ar yr adolygiad hyn dros y misoedd diwethaf. Mae'r gwaith yn parhau i fynd yn ei flaen o fewn gweddill yr adolygiadau sydd ar y gweill.

4.1.2 Er mwyn ein galluogi i sefydlu lle mae'r gwahanol adolygiadau arni mae camau meincnodi adolygiad wedi eu sefydlu ar gyfer yr adolygiadau sydd eisoes ar y gweill. Ceir copi o'r camau meincnodi ynghyd a disgrifiad cryno o'r hyn fydd wedi ei gyflawni ar gyrraedd y gwahanol gamau wedi ei atodi fel **Atodiad 1.**

4.1.3 Erbyn hyn rydym yn dod tuag at derfyn Cam 3 o fewn y camau meincnodi adolygiad yn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol gyda dyddiad wedi ei bennu i adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr, yr Aelod Cabinet a thîm rheoli'r Adran ym mis Hydref. Er mwyn cael gwell darlun o'r sefyllfa o fewn yr holl adolygiadau rwyf wedi gofyn i'r Arweinydd Prosiect amlinellu ar pa gam y mae'r gwhanol adolygiadau gweithredol erbyn y cyfarfod nesaf.

4.1.4 Mae'r adolygiad o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol yn mynd yn gymharol dda, er yn cymryd mwy o amser na ragwelwyd yn y rhaglen wreiddiol oherwydd gofynion gwaith dydd i ddydd. Mae gwersi wedi eu dysgu na ddylid cymryd yn ganiataol fod pob patrwm gweithio timau adolygu yn mynd i fod yn unffurf ac ei bod yn anodd asesu hyd adolygiad ar ei ddechrau.

4.1.5 O ganlyniad i'r uchod rydym wedi ailymweld a'r nifer o adolygiadau yr ydym yn debygol o fod yn gallu eu cwblhau ac erbyn hyn rhaglwelir y byddwn wedi cwblhau 7 adolygiad yn hytrach na'r 12 a ragwelwyd yn wreiddiol erbyn diwedd Mawrth 2017.

4.1.6 Rhan allweddol o'r prosiect hyn hefyd yw hyfforddi a newid diwylliant yr Aelodau a staff. Bydd sesiynau hyfforddiant yn cael eu cynnal i bob Pennaeth Adran gan gwmni Vanguard yn yr hydref er mwyn sicrhau dealltwriaeth llawn o'r egwyddorion tu ôl i Ffordd Gwynedd a'r dull o'i gyflwyno a bydd sesiynau pellach yn cael eu cyflwyno i Uwch Reolwyr yn y flwyddyn newydd. Bydd cyfle i'r Aelodau Cabinet i ymuno yn y sesiynau hyn.

4.1.7 Yn ogystal bydd sesiynau yn cael eu cynnal hefo'r holl Reolwyr o fewn y Cyngor i ganfod eu dealltwriaeth o Ffordd Gwynedd ac asesu cynnydd. Byddaf yn adrodd yn ôl ar gynnydd y gwaith hyn ac ar ganfyddiadau yn fy adroddiadau perfformiad gweddill y flwyddyn.

**4.2 C2 Rhaglen datblygu arweinwyr - Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod arweinwyr o fewn Cyngor Gwynedd yn deall egwyddorion Ffordd Gwynedd, eu bod yn ymwybodol o beth sydd angen iddynt hwy ei wneud er mwyn atgyfnerthu egwyddorion Ffordd Gwynedd drwy holl haenau'r sefydliad, a bod yna gyfundrefn yn ei le i sicrhau bod hynny'n digwydd yn gyson.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi cynnal rhaglen o ddatblygiad personol ar gyfer pob aelod o Grŵp Rheoli'r Cyngor a'r Cabinet fydd yn eu harfogi i arwain ac atgyfnerthu'r diwylliant gwaith o fewn y Cyngor.**

4.2.1 Mae'r cynllun hwn wedi llwyddo i gadw at yr amserlen weithredu yng nghyswllt y cynnydd adnabuwyd ar gyfer uwch-swyddogion ond mae diffyg cynnydd yng nghyswllt datblygu'r arweinyddiaeth ymysg aelodau'r Cabinet. Er bod enghreifftiau ple bo Aelodau wedi manteisio ar y gefnogaeth a'r hyfforddiant er mwyn datblygu ar lefel personol mae yna bryder a yw'n addas ac mae angen ail-edrych ar sut orau i ddatblygu'r arweinyddiaeth ar lefel tîm cyfan.

4.2.2 Yn ymarferol, gydag etholiadau llywodraeth leol i'w cynnal ym Mai 2017, rwyf wedi cytuno y dylid canolbwyntio ar ddatblygu'r arweinyddiaeth ar lefel uwch-swyddogion am y tro hefo'r bwriad o geisio cytundeb ar raglen ddatblygu ar y cyd rhwng aelodau'r Cabinet a'r Grŵp Rheoli yn ddiweddarach yn 2017.

**4.3 C6 Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG) - Pwrpas y prosiect hwn yw llunio Strategaeth Technoleg Gwybodaeth fydd yn gosod allan y cyfeiriad am y cyfnod i ddod ar gyfer uchafu'r budd a geir o ddefnyddio'r arf yma ynghyd a'r rhaglen waith ar gyfer gwireddu'r strategaeth honno.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2016, byddwn wedi llunio Strategaeth TG.**

4.3.1 Mabwysiadwyd y Strategaeth gan y Cabinet ar y 3ydd o Fai 2016. Ers hynny rydym wedi cychwyn gweithredu y Strategaeth gan ganolbwyntio ar greu y meddalwedd arbenigol er mwyn gwasanaethu'r sianel ddigidol, cyflwyno offer cyflwyno arloesol a sginiau mwy o fewn ystafelloedd cyfarfod a galluogi unigolion sydd wedi eu cyflogi gan y Cyngor i gael mynediad at wasanaethau cefnogol trwy'r fewnrwyd o unrhyw le yn hytrach na'r drefn bresennol lle y cyfyngir i gyfrifiaduron y Cyngor.

4.3.2 Yn ogystal mae gwaith paratoi wedi cychwyn i edrych ar ddarpariaeth TG ar gyfer yr Aelodau Etholedig o fis Mai 2017 ymlaen. Mae gweithdy eisoes wedi ei gynnal gyda 5 Aelod er mwyn adnabod yr anghenion a byddant yn treialu gwahanol gyfarpar yn ystod mis Hydref a Thachwedd.

4.3.3 Nodir fod rhywfaint o oedi wedi bod yn y broses o benodi'r Rheolwyr Cyfrif y cytunwyd i'w hariannu i hwyluso cyflwyno'r Strategaeth o ganlyniad i nifer o faterion a godwyd gan Reolwyr yr Adran ynghylch eu cylch gorchwyl. Mae trafodaethau wedi eu cynnal er mwyn ceisio ymateb i'r materion hyn a bydd gweithdai pellach yn cael eu cynnal dros y deufis nesaf i gytuno ar gylch gorchwyl a rhagwelir y bydd y swyddogion yn eu lle erbyn y Nadolig.

**4.4 C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS) - Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu system EDRMS fydd yn sicrhau bod trefniadau rhannu gwybodaeth y Cyngor yn llawer haws ac effeithiol.**

**Erbyn diwedd 2017, bydd o leiaf pump o adrannau'r Cyngor yn defnyddio system EDRMS.**

4.4.1 Mae'r system wedi wedi ei chyflwyno i'r Adran Economi a Chymuned yn ogystal a Chefnogaeth Gorfforaethol erbyn hyn gyda 522 o ddefnyddwyr ar y system (214 yn CG a 308 Economi a Chymuned). Yn ogystal, mae gwaith paratoi wedi cychwyn hefo Addysg a nifer o Adrannau eraill er mwyn tacluso eu systemau ffeilio cyn trosglwyddo i'r system newydd.

4.4.2 Derbyniwyd adborth i holiadur gan staff yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn dilyn 6 mis o ddefnyddio'r system. Ar y cyfan roedd yr ymateb yn bositif gyda 84% yn meddwl fod y system yn foddhaol neu well a mae camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r sylwadau negyddol.

4.4.3 Ar hyn o bryd mae hi rywfaint yn gynamserol i asesu'r effaith y mae'r system wedi ei gael ond rhagwelir y gellir gwneud hynny unwaith y bydd yr Adran Gefnogaeth Gorfforaethol wedi bod yn defnyddio'r system am flwyddyn. Byddaf yn adrodd yn ôl ar yr effeithiau hynny fel rhan o fy adroddiadau perfformiad yn fuan yn 2017.

### Cynllunio Ariannol

**4.5 CA1 Gwireddu arbedion - Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau fod trefniadau yn eu lle er mwyn gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd o £13.6m sydd eisoes wedi eu cytuno fel rhan o'r gyfundrefn arbedion ynghyd ag unrhyw arbedion pellach a adnabyddir.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi gwireddu'r arbedion effeithlonrwydd a gafodd eu cynllunio ar gyfer y cyfnod.**

4.5.1 Fel yr ydych yn ymwybodol mae gen i rôl trosolwg i sicrhau fod yr arbedion effeithlonrwydd yn cael eu gwireddu yn gorfforaethol a bod trefniadau yn eu lle ar gyfer gwneud hynny. Ceir crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf isod.

4.5.2 Ceir ychydig gynlluniau lle nad ydynt yn gorwedd yn uniongyrchol o fewn Adran. O'r rhain, mae cymeradwyaeth eisoes wedi ei roi i ddileu'r bwlch o £150,684 o ddau gynllun hanesyddol ym maes Gofal (Galluogi a Hwb Rhanbarthol Gogledd Cymru), a bydd angen cadarnhad y Cabinet i ffurfioli hyn wrth lunio cyllideb 2017/18 gan hefyd ystyried dull amgen o gau'r bwlch ariannol. Mae sawl cynllun yn cael ei ddatblygu i gwrdd â'r nod trawsadrannol am 2016/17 sydd bellach wedi gostwng i £90,566, a rhagwelir cynnydd dros yr wythnosau nesaf er mwyn gallu eu cyflwyno i'r Cabinet, a'u gwireddu cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

4.5.3 Mae'r strategaeth arbedion, mewn blynyddoedd diweddar, wedi sicrhau perchnogaeth adrannol dros swmp y cynlluniau i arbed, ac mae hynny'n drefn effeithiol. Nodir bod o leiaf 74% o gynlluniau 2016/17 wedi eu gwireddu yn amserol, ac 17% pellach ar y trywydd iawn, cyfanswm o 91%. Cofier mai sefyllfa yn ystod mis Gorffennaf a gyflwynir, sy'n eithaf cynnar yn y flwyddyn ariannol. O ganlyniad, yn gyffredinol, gwelwyd cynnydd da iawn a'r rhagolygon o ran gwireddu'r nod yn addawol.

4.5.4 Fodd bynnag, roedd posibilrwydd o lithriad sylweddol yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Rwy'n argyhoeddedig bod yr Adran yn gweithio ar gyfres o

gynlluniau amgen er mwyn lliniaru effaith y llithriad hyn, ond byddaf yn parhau i gadw golwg ar ddatblygiad y cynlluniau hyn, er mwyn sicrhau fod yr arbedion yn cael eu cyflawni.

**4.6 CA4 Effeithlonrwydd pellach a modelau darparu gwasanaeth - Pwrpas y prosiect yma yw darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach er mwyn lleihau maint y toriadau fydd eu hangen yn ogystal ag ymchwilio i feysydd lle mae'n bosib newid y model presennol o ddarparu gwasanaeth gan felly wneud arbedion.**

**Erbyn diwedd Mawrth 2017, byddwn wedi darganfod cynlluniau effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu.**

4.6.1 Mae'r ymdrech i ddarganfod a datblygu rhagor o effeithlonrwydd yn anelu i sicrhau cyn lleied o doriadau gwasanaeth a phosib. Ar hyn o bryd mae gwerth £7.6 o gynlluniau effeithlonrwydd yn cael sylw a'u miniogi er mwyn cyfarch y targed o £7.25m o effeithlonrwydd pellach sydd wedi ei osod fel rhan o'r Strategaeth Ariannol 2016/17 i 2019/20.

4.6.2 Mae'r gwaith i edrych ar fodelau amgen yn parhau i fynd yn ei flaen. Bu rhywfaint o lithriad yn y gwaith i edrych ar **Fodel Amgen Gofal Oedolion** oherwydd yr angen i gael cyfrifiadau pensiwn gan ddarparwr allanol, yn ogystal â chyngor ar faterion technegol eraill. Yn achos y **Model Amgen Hamdden** mae gwaith wedi mynd yn ei flaen i sefydlu achos busnes, adnabod modelau posibl a goblygiadau gweithredu cysylltiedig. Byddaf yn adrodd yn ôl ar y gwaith pan fydd yn aeddfed.

## 5 PERFFORMIAD

5.1 Mae ***Atodiad 2*** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 Fel Cyngor mae gennym rôl i sicrhau ein bod yn talu ein credydwyr yn gywir ac yn amserol. Fe gofiwch i mi adrodd y tro diwethaf fod ffigyrau'r Adran Addysg (ac yn benodol Ysgolion Cynradd) yn effeithio ar berfformiad y mesur **Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor).** Mae'r perfformiad ar gyfer Ebrill i Mehefin yn gymharol i'r blynyddoedd blaenorol (89% o'i gymharu a 89% yn 15/16, 91% yn 14/15 a 91% yn 13/14) gyda canran yr Adran Addysg (sy'n gyfrifol am 26% o'r holl anfonebau) yn sefyll ar 83%.

5.3 Yn y cyfamser rwyf wedi cysylltu hefo'r Aelod Cabinet Addysg gan ofyn iddo roi sylw i'r mater a byddaf yn cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn gweld os yw'r ymateb gan yr Adran yn gwneud gwahaniaeth neu os oes angen gweithredu ymhellach.

5.4 Dengys y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y **Nifer o ddamweiniau RIDDOR** (damweiniau sydd yn gysylltiedig hefo gwaith, ag lle mae'r anaf, afiechyd neu ddigwyddiad peryglus wedi cael ei amlinellu gan AGID (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)) fod y nifer ar ddiwedd Mehefin yn 7. Mae hyn yn lleihad o'i gymharu â 16 ar gyfer yr un cyfnod yn 2015/16, 13 yn 2014/15 a 21 yn 2013/14.

5.5 Mae'r gostyngiad mwyaf i'w weld o fewn yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac mae lle i gredu fod y gwaith i godi ymwybyddiaeth a hyfforddi'r gweithlu o fewn yr Adran dros y misoedd diwethaf wedi arwain at hyn. Byddwn yn parhau i gadw golwg ar y sefyllfa.

6 **SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

6.1 Mae'r Adran **Cefnogaeth Corfforaethol** wedi gwireddu'r oll o gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau 2016/17, ac yn gwneud cynnydd derbyniol iawn tuag at wireddu cynlluniau'r ddwy flwyddyn ganlynol.

6.2 Mae 83% o gynlluniau effeithlonrwydd 2016/17 yr **Adran Gyllid** yntau wedi eu gwireddu neu ar y trywydd cywir, a 84% o dorriadau'r flwyddyn wedi eu gwireddu. Dim ond y Cynllun Ail Gaffael y Rhwydwaith PSBA, sy'n pontio 2015/16 a 2016/17, sydd ddim ar y trywydd cywir ac er y rhagwelir na fydd modd ei wireddu fel y bwriadwyd, mae'r mater yn derbyn sylw cenedlaethol er cael datrysiad.

---

## Barn y swyddogion statudol

**Y Prif Weithredwr:**
Mae'n dda gweld cynnydd cystal ar wireddu'r prif gynlluniau yn y Cynllun Strategol ond, wrth gwrs, rhai cofio mai oddeutu 6 mis sydd ar gyfer eu gwireddu. Mae gweld y sefyllfa ddiweddaraf o ran gwireddu arbedion yn galonogol iawn ac i'w ganmol, fel y perfformiad yn gyffredinol, a hynny ar adeg o grebachu ariannol pan mae'r adnoddau ar gyfer cyflawni yn prinhau.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim sylwadau o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Cadarnhaf gywirdeb yr elfennau cyllidol o'r adroddiad, a byddaf yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

---

**Atodiadau**

**Atodiad 1 –** Camau Meincnodi Adolygiad Ffordd Gwynedd
**Atodiad 2 -** Mesurau Perfformiad

## Camau Meincnodi Adolygiad Ffordd Gwynedd

### Cam 1 - Paratoi Adolygiad

- Sicrhau dealltwriaeth ac ymrwymiad y Penaeth Adran a'r Uwch Reolwyr
- Sicrhau dealltwriaeth y Rheolwr Uned
- Cael ymdeimlad o'r diwylliant presennol / sgopio
- Cyflwyniad "Ffordd Gwynedd ar Waith" i holl staff yr Uned/Unedau
- Sefydlu'r tîm

### Cam 2 - Dysgu am y gwasanaeth

- Diffinio pwrpas yr Uned / Unedau
- Diffinio mesurau perfformiad
- Arsylwi/gwrando ar sut mae'r Uned/Unedau yn gweithredu ar hyn o bryd
- Adnabod gwastraff a'r hyn sy'n achosi 'r gwastraff
- Adnabod risgiau a chyfleon i wella
- Casglu tystiolaeth am yr hyn a ddysgwyd
- Cael cytundeb y staff
- Datblygu egwyddorion gweithredu'r Uned/Unedau

### Cam 3 - Adrodd ar yr hyn a ddysgwyd

- Cyflwyno'r hyn a ddysgwyd yn Cam 2 i dîm rheoli'r Uned/Unedau a'r Aelod Cabinet
- Dangos y cyfleoedd ar gyfer gwella
- Sefydlu'r gefnogaeth oddi wrth Arweinyddiaeth yr adran i symud ymlaen i arbrofi

### Cam 4 - Arbrofi

- Arbrofi gyda dulliau newydd o weithredu
- Monitro effaith y newid ar y cwsmer
- Asesu llwyddiant yr Arbrofi
- Paratoi cynllun i ddod a gweddill y gweithlu i'r drefn newydd o weithio

### Cam 5 - Adrodd ar ganlyniad yr arbrofi

- Cyflwyno'r hyn a ddysgwyd yn Cam 4 i dîm rheoli'r Uned/Unedau a'r Aelod Cabinet
- Dod i gytundeb ar y sut y byddwn yn symud ymalen

### Cam 6 - Gweithredu

- Trosglwyddo gweddill y gweithlu i mewn i'r ffordd newydd o weithio

### Cam 7 - Diwedd yr adolygiad

- Y gwasanaeth wedi cyrraedd aeddfedrwydd wrth fabwysiadu'r diwylliant newydd ac yn cynnal y diwylliant heb angen am gymorth cyson tîm yr adolygiad.

* = Ffigwr is yn welliant

# Atodiad 2- Mesurau

## Mesurau Cefnogaeth Gorfforaethol (meysydd Adnoddau Dynol ac Arbedion)

| Mesur- diffiniad | 2013-14 | 2014-15 | 2015/16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol** | | | | | |
| 1. **CHR/002 yn y Cynllun Strategol**<br>Nifer o ddyddiau o absenoldeb salwch y pen | 2.08 | 1.89 | 2.13 | Cynnal | 2.19 (diwedd Mehefin) |
| 2. Nifer o achosion cyflogaeth sy'n cael eu cyfeirio i sylw'r Pwyllgor Apelau Cyflogaeth, a'r nifer o apeliadau sy'n cael eu caniatáu gan y Pwyllgor hwnnw (h.y. mynd yn groes i benderfyniad gwreiddiol y cyflogwr). | - | - | 4 achos apêl. 3 apêl wedi ei ganiatáu gan y Pwyllgor. | Gwelliant | 1 achos apêl a cafodd yr apêl ei wrthod gan y Pwyllgor. |
| 3. Barn sampl o reolwyr y Cyngor sydd yn dweud fod y Gwasanaeth yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu gallu i gyflawni. (Sgôr allan o 10) | | | | | 8.3 |
| **Sylwadau**<br>3. Materion wedi eu codi a chamau wedi eu cymryd er mwyn ymateb i'r materion hynny. | | | | | |
| **Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant Adnoddau Dynol** | | | | | |
| 1. Nifer o ddigwyddiadau RIDDOR (ffigyrau ar gyfer y chwarter mewn cromfachau) | 76 (21) | 63 (13) | 44 (16) | - | 7 (Ch.1) |
| 2. Nifer o ddamweiniau ar draws y Cyngor | 2637 (608) | 3361 (711) | 2920 (784) | - | 673 (Ch. 1) |
| 3. Nifer o archwiliadau I&D (ac yn deillio o hynny, nifer yr achosion diffyg cydymffurfiaeth) | - | - | - | - | 3 |
| 4. Holiaduron bodlonrwydd (sgôr allan o 10) | - | - | - | - | 7.8 |
| 5. Nifer o ymyraethau Iechyd Galwedigaethol sydd wedi eu targedu ar sail ffigyrau absenoldebau (maes o law beth yw effaith yr ymyraethau hynny) | - | - | - | - | 7 clinig wedi eu cynnal |
| 6. Nifer o ymyraethau AGID a nifer o ddiffygion materol | - | - | - | - | 2 archwiliad |

* = Ffigwr is yn welliant

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sylwadau**<br><br>3. Polisi Cynllunio (25 – risg isel); Cadwraeth Adeiladu (23 - risg canolig); P&B – defnyddio'r hên drefn, 1 diffyg cydymffurfiad difrifol, 5 bychan<br>4. Themâu wedi dod i'r amlwg a thrafodaethau wedi eu cynnal er mwyn mynd i'r afael a'r materion.<br>5. Byddwn yn edrych i mewn i ôl-effaith y clinigau i weld os oes gostyngiad yn lefelau absenoldeb yn dilyn y sesiynau ai peidio.<br>6. Plas Maesincla – 22.04.2016; Plas Ogwen – 22.06.2016 | | | | | |
| **Uned Gefnogol** | | | | | |
| CG15 Canran bodlonrwydd ymgeiswyr ynghylch y profiad o ymgeisio am swydd gyda'r Cygnor ac adnabod os oes rhwystrau sydd wedi creu problemau di-angen (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 90% |
| CG16 Canran bodlonrwydd Rheolwyr a staff perthnasol o fewn y Cyngor i ynghylch y gwasanaeth ac adnabod y rhwystrau maent yn ei gael sydd yn creu problemau iddynt pan yn gwasanaethu pobl Gwynedd (ac felly os oes modd ei diddymu) | - | - | - | Gwelliant | 90% |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r achosion o ddiffyg bodlonrwydd lle mae gennym ddylanwad dros y sefyllfa. | | | | | |
| **Gwasanaeth Datblygu'r Gyfundrefn** | | | | | |
| CG06 Canran o staff ar sail sampl sy'n teimlo bod y buddiannau y maent yn gallu manteisio arnynt gydag effaith positif ar eu bodlonrwydd gyda'r Cyngor fel cyflogwr | - | 62% | 64% | Cynnydd | Mesur Blynyddol |
| **Dysgu a Datblygu** | | | | | |
| CG01 Bodlonrwydd staff gyda'r ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. (Sgôr/10) | - | 7.8 | 8.4 | - | 8.4 |
| CG02 Bodlonrwydd Rheolwyr gyda'r ddarpariaeth dysgu yn helpu eu staff i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd. (Sgôr/10) | - | 7.6 | 8.3 | - | 8.2 |
| CG03 Bodlonrwydd Aelodau sy'n teimlo bod y ddarpariaeth dysgu yn eu helpu i gyflawni eu rôl yn effeithiol i roi Gwasanaeth gwell i Bobl Gwynedd (Sgôr/10). | - | - | - | Gosod Gwaelodlin | 9.8 |
| **Sylwadau**<br>Camau wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ymateb i'r achosion o ddiffyg bodlonrwydd lle mae gennym ddylanwad dros y sefyllfa. | | | | | |
| **Tîm Arbedion** | | | | | |
| Arb01 Swm arbedion effeithlonrwydd a gyflawnwyd fel canran o'r holl arbedion | - | - | - | Gwelliant | 67.45% |
| DT3.1b Swm arbedion a gyflawnwyd | - | - | - | - | £6.81m |

**Atodiad 2 - Mesurau Cyllid**

* = Ffigwr is yn welliant

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD5.3 | Monitro ariannol gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau i'r Rheolwyr Cyllidebau, Grŵp Arweinyddiaeth, Arweinyddion Portffolio, Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio yn chwarterol, ynghyd â monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor. | Ia | Ia | Ia | Cynnal | Ia |
| CD5.04 | Llunio a dosbarthu Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â'r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol | Ia | Ia | Ia | Cynnal | Ia |
| CD5.5 | Cwblhad o'r Cyfrifion Terfynol (Cyfrifon Gwynedd, 3 Cyd-Bwyllgor a'r 4 Harbwr) a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol. | Do | Do | Do | Cynnal | Do |
| CD5.01 | Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb | -0.0014 | -0.0018 | -0.0013 | Cynnal* | Mesurydd Blynyddol. |
| CD5.13a | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau hefo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid a chyfrifeg a dderbynnir | 4.3 | 4.32 | 4.9 | Cynnal | Mesurydd Blynyddol. |
| CD5.13b | Bodlonrwydd y Tim Rheoli Corfforaethol efo'r gwasanaeth cyllid a chyfrifeg a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol | 4.1 | 4 | 4.5 | Cynnal | Mesurydd Blynyddol. |

### Gwasanaeth Taliadau Credydwyr

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD6.01 | Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | 91% | 91% | 89% | Cynnal | 89% |
| CD6.02 | Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor) | - | - | 92% | Cynnal | 92% |
| CD6.03 | Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor | - | - | - | Cynnal | 5 |

| Sylwadau | |
|---|---|
| CD6.03 | 5 camgymeriad unigryw yn talu'r cyflenwyr anghywir a sylw wedi ei roi iddynt. |



### Gwasanaeth Cyflogau

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD8.07 | Nifer achosion sydd yn arwain at addasiad pellach yn y cyflog. | - | - | 125 | Cynnal | 158 |
| CD8.08 | Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn â'r broses talu cyflogau o fewn y Cyngor. | - | - | 80 | Cynnal | 84 |
| CD8.09 | Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i cyrff allanol (fel CTheM). | - | - | 100 | Cynnal | 100 |

| Sylwadau | |
|---|---|
| CD8.07 | 158 o addasiadau allan o 20,934 taliad (0.75%) yn cynnwys delio hefo fater un-tro. |
| CD8.08 | 84 alwad allan o 1,425 yn ystod cyfnod, sydd yn gyfateb i 5.89% o'r holl alwadau. |

### Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TG01 | Canran yr argaeledd rhwydwaith | 99.90% | 99.97% | 99.80% | Cynnal | 99.94% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TG02 | Canran yr argaeledd Safle We Cyhoeddus | 99.11% | 99.58% | 99.97% | Cynnal | 99.99% |
| TG05 | Cyfartaledd sgor bodlonrwydd defnyddwyr gyda’r Ddesg Gymorth | 4.76 | 4.8 | 4.8 | Cynnal | Dim ar gael ar gyfer y cyfnod |
| CD5.13a | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau hefo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid (Technoleg Gwybodaeth) | - | - | 3 | Cynnal | Mesurydd Blynyddol |
| CD5.13b | Bodlonrwydd y Tîm Rheoli Corfforaethol efo'r gwasanaeth cyllid (Technoleg Gwybodaeth) a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol | - | - | 3.6 | Cynnal | Mesurydd Blynyddol |

**Sylwadau**

TG05 Darganfuwyd bod y mesur yn cael ei gasglu mewn ffordd llafurus ac yn hawlio dipyn o amser staff.  Fe fydd system y Ddesg Gymorth yn cael ei uwchraddio yng nghanol Medi a byddwn yn awtomeidio'r drefn o gasglu'r mesur, ac ar gael o chwarter 3 ymlaen.

**Gwasanaeth Incwm**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD7.02 | Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill). | £ 1,031,700 | £ 1,201,668 | £ 900,122 | Gwelliant* | £ 925,294 |
| CD7.05 | Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth | 79.10% | 82.40% | 86.37% | Cynnal | 85.05% |
| CD7.06 | Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr | 2.63% | 9.18% | 10.53% | Cynnal | 12.88% |



**Gwasanaeth Trethi**

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD11.01 | Cyfradd Casglu Treth Cyngor | 30.49% | 30.55% | 30.53% | Cynnal | 30.60% |
| CD11.02 | Cyfradd Casglu Trethi Annomestig | 29% | 28.64% | 28.76% | Cynnal | 29.52% |
| CD11.03 | Nifer o drethdalwyr treth cyngor ddaeth i gyswllt â'r tim adfer ac â gyfeirwyd at fudiad y CAB am gyngor dyledion ehangach | - | - | - | Cynnal | 22 |
| CD11.04 | Cyfanswm dyledion wedi eu dileu yn y tymor hir (3 mlynedd) fel canran o'r cyfanswm godwyd ar y cyfrifon tros yr un cyfnod | 0.52% | 0.47% | 0.38% | Cynnal* | Mesur Blynyddol |

## Gwasanaeth Budd-daliadau

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD12.03 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (dyddiau) | 22.4 | 22.24 | 16.07 | Cynnal* | 17.15 |
| CD12.04 | Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) | 6.2 | 8.95 | 6.55 | Cynnal* | 5.95 |

**Sylwadau**

CD12.03 Ychydig yn uwch, ond bu dau etholiad (colli 10 staff y tro), sesiynnau hyfforddi (15 staff x 4 diwrnod) ac un aseswr budd-daliadau yn sâl fwyafrif y cyfnod.



## Gwasanaeth Risg ac Yswiriant

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD4.01 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr: canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Uned | 73.10% | 73.30% | 72.5% | Cynnal | 77.80% |
| CD4.02 | Amddiffyn budd ariannol y trethdalwr:canran o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus a wadwyd (setlwyd am £0) gan yr Yswirwyr | 73.40% | 76.70% | 81.4% | Cynnal | 63.60% |
| CD4.06 | Canran o adrannau sydd â chofrestr risg sydd wedi ei adolygu 2 waith y flwyddyn | 100% | 100% | 100% | Cynnal | Mesur Blynyddol |

**Sylwadau**

| | |
|---|---|
| CD4.01 | 7 allan o 9 hawliad wedi ei amddiffyn. O'r 2 sydd wedi ei talu, nid oes dim yn gyffredin iddynt ac maent wedi codi o ddigwyddiadau damweiniol. |
| CD4.02 | 14 allan o 22 hawliad wedi ei amddiffyn. O'r 8 sydd wedi ei talu, mae 4 yn dod o'r gwasanaeth priffyrdd ac yn ymwneud a'r drefn archwilio a cynnal a chadw'r ffyrdd. Mae'r gwasanaeth priffyrdd wedi ei hysbysu am ganlyniadau'r hawliadau a rhesymau nad oedd posibl ei amddiffyn yn llwyddiannus. |

## Gwasanaeth Archwilio Mewnol

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD2.02 | Cyfran o'r adroddiadau dilyniant Archwilio Mewnol yn cyrraedd barn "Derbyniol" neu well (mesur corfforaethol) | 100% | 100% | | Cynnal | 100% |
| CD2.03 | Canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau. | 8.41% | 8.25% | 11.11% | Cynnal | 17.50% |
| CD2.09a | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well | 72.7% | 77.78% | 71.43% | Bodlon gweld gostyngiad | 85.70% |
| CD2.09b | Canran o'r archwiliadau mewnol sydd yn cyrraedd barn "B" neu well (Cyfanswm Chwarterol) | 72.7% | 77.78% | 71.43% | Bodlon gweld gostyngiad | 85.70% |
| CD5.13a | Bodlonrwydd Adrannau a Gwasanaethau hefo'r gwasanaeth a chefnogaeth cyllid (Archwilio Mewnol) a dderbynnir | - | - | 4.75 | Cynnal | Mesurydd Blynyddol |
| CD5.13b | Bodlonrwydd y Tim Rheoli Corfforaethol efo'r gwasanaeth cyllid (Archwilio Mewnol) a roddir i'r Cyngor yn gorfforaethol. | - | - | 4.00 | Cynnal | Mesurydd Blynyddol |

## Gwasanaeth Pensiynau

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD9.03 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif. | 7.7 | 9.5 | 10.00 | Cynnal | 7.40 |
| CD9.04 | Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth. | 3.7 | 8.1 | 7.90 | Cynnal | 3.30 |
| CD9.05 | Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn mawrolaeth aelod o'r cynllun. | 9.49 | 10.56 | 6.82 | Cynnal | 12.25 |



| Sylwadau | |
|---|---|
| CD9.05 | Rhesymau dros y cynnydd yw: sefydlu proses diwedd flwyddyn ar gyfer dychwelyd cyfraniad a mynd ar ol cyflogwyr am wybodaeth: Cyflwyno system ddelweddu newydd yn Ebrill ac Ailstrwythuro staff (cromlin dysgu). |

## Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | Cyfeiriad Uchelgais | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.05 | Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer. | 0.4 | 1.7 | -1.80 | Cynnal | 5.40 |
| CD13.06 | Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-). | 5.3 | 5.12 | 2.95 | Cynnal | 3.43 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CD13.07 | Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio | 0.73 | 0.62 | 0.63 | Cynnal | 0.66 |